
Tudalen 8
EMILY O COSTA


Tudalen 14
PARTI CALAN GAEAF


Tudalen 27
BEICIO



Tudalen 28
GWYL FFAIR NANT

# ECO'r Wyddfa

Rhif: 415
Tachwedd 2013
Pris: 50c

# 1 Rob 2 Rob 3 Rob




Tri Rob ddaeth yn gyntaf, ail a thrydydd ym Marathon Eryri ddiwedd Hydref: Rob Samuel, Rob Bridges a Rob Atkin. Ond roedd yn 1, 2 , 3 i Rob Samuel o Lanrug, mewn mwy nac un ystyr, oherwydd dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol iddo ennill y ras hon; y farathon galetaf yng ngwledydd Prydain. Llongyfarchiadau calonnog iddo ar ei gamp.

# Beics yn y Chwarel?

Yda chi'n cofio'r hen Norman Tebot yn annog pobol i fynd ar eu beics? Wel mae'n ymddangos fod beicio ar gynnydd drwy wledydd Prydain, ac mae'r ffaith i'r 'Tour of Britain' gael diwrnod mor llwyddiannus yn Llanberis fis ynol wedi ennyn mwy o ddiddordeb yn y gamp. Mae grwp beicio mynydd MTB Gogledd Cymru, yn awyddus i weld datblygiad sylweddol o fewn un o hen chwareli gogledd-orllewin Cymru,(tebyg i'r hyn sydd eisoes wedi digwydd ym Mlaenau Ffestiniog), ac yn edrych ar nifer o safleoedd ym mro'r "Eco". Byddai'n golygu creu llwybrau beicio i bob oed ac ar gyfer pob gallu, a hynny mewn ardal o tua tair milltir sgwâr. Dywedodd Gavin Prince o Lanfairfechan, ar ran MTB y byddai'n golygu buddsoddiad o tua £100,000 ac yn creu hyd at ddeg o swyddi. Pe gwireddir y cynllun, byddai'r budd ariannol i'r ardal o amgylch yn sylweddol, oherwydd byddai'r atyniad yn denu rhai miloedd o ymwelwyr i'r cyffiniau, a'r rheini yn gwario'n lleol. Yn ogystal, byddai'n adnodd hamdden ychwanegol i bobl leol.



Mae Llanberis eisoes yn cael ei gydnabod fel prifddinas chwaraeon antur Cymru. Mae digwyddiadau megis Ras yr Wyddfa, Marathon Eryri, Triathlon Llanc y Llechen i gyd yn cael eu cynnal yma, a hynny gan fudiadau a chwmniau lleol. Byddai denu datblygiad o'r fath yn adnodd ychwanegol i gryfhau'r diwydiant twristaidd o fewn yr ardal – a rhaid cydnabod, er gwell neu er gwaeth, mai dyma bellach yw'r prif obaith am waith i'n hieuenctid lleol.



Eco Tachwedd 2013.indd 1 29/10/2013 08:29

# ECO'r Wyddfa


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr | Tachwedd 17 | Tachwedd 28 | Caeathro |
| Nadolig | Rhagfyr 8 | Rhagfyr 19 | |


**RHIF 415**
**Tachwedd 2013**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


## LLYTHYRAU

### PÊL-DROEDWYR Y GORFFENNOL

Diddorol oedd darllen nodyn yn CHWILOTA y mis diwethaf o dan y pennawd PÊL-DROEDIWR YN MUDO. Cyfeiria'r colofnydd at William Pritchard, Cae Glas, Llanrug a chwaraeai gyda thîm Caernarfon United yn y flwyddyn 1912. Gallaf gadarnhau mai Caernarvon United oedd y tîm ac nid Caernarvon Town. Ni wn nemor ddim am deulu Cae Glas nac am William ond tra'n casglu deunydd ar gyfer fy llyfr Y Darans (hanes clwb pêl-droed Llanberis) deuthum ar draws y canlynol am arwyr 1910 y clwb. Chwaraeai W.R. Pritchard i'r Ysgol Ramadeg neu'r Llanberis and District County School ac i Lanberis fel cefnwr.
"Will is rarely beaten by an adversary," meddai'r Caernarvon and Denbigh Herald amdano,"and when this happens, he retrieves his position and plays the game like a good 'un. Feeding his forwards with precision and 'speculating' at a distance with volleys, which cause not a little anxiety to many goalkeepers. Cae Glas is a valuable acquisition to the 'Berries.'"
Nid oes llun na chofnod ohono yn nhîm Llanberis yn nhymor 1911-12. Mae'n debyg felly, oherwydd ei ddawn diamheuol fel pêl-droediwr fe'i perswadiwyd i ymuno â thîm y dre'.
Yn yr un rhifyn cyfeiria Hywyn Williams (Deiniolen gynt) yn ei erthygl ymchwilgar MILWYR O'R FRO YN Y RHYFEL BYD CYNTAF at un arall a fu'n arwr pêl-droed Y Darans yn nechrau'r ganrif ddiwethaf. Owen Jonah Owen, 5, Llain Wen, Llanberis oedd y gwron. Cofia y diweddar John Roberts (Yr Helfa neu Halford Hill), pan yn blentyn bychan weld y gôlgeidwad yn chwarae.
"Dwi'n cofio Now Jonah," meddai, "yn cerdded heibio'r Lodge Bach at Bont Hughes Drugist gyda jersi wen laes amdano a'i sgidia ffwtbol yn ei law ac yna ei weld yn dod yn ôl yn fwd i gyd!" Symudodd O.J. Owen am gyfnod i weithio yn y pyllau glo yn ne Cymru a bu'n chwarae i Maerdy. Dychwelodd i Lanberis a bu'n chwarae yn y gôl am rai blynyddoedd wedyn. Yn ôl y wasg, roedd yn bum troedfedd a deg a thri chwarter modfedd o daldra a chafodd wahoddiad i fynd am gêm brawf i Lerpwl. Ond galwyd ef i fyny i wasanaethu yn y rhyfe lac fe'i clwyfwyd ym mrwydr Mametz. Bu farw mewn ysbyty ym Mirmingham ym mis Tachwedd 1917. Roedd yn dad i'r ddiweddar Mrs. Delia Parry, Plastirion. Dim ond naw oed oedd hi pan fu farw ei thad.

Yn gywir,
Arwel Jones.

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£50: Doug Jones, Buckley er cof am ei frawd Reg.

£25: er cof am Stanley Jones, Llanberis.

£20: Ellen a Gertie Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug; Heather Bloodworth, 9 Maes Briallen, Llanrhos, Llandudno.

£10: Iolo Llywelyn, Llanrug; Deiniol a Heulwen Evans, Penisarwaun; Er cof am Iwan Williams; Mrs Gwyneth Evans, 4 Bryn y Môr, Y Felinheli; Er cof am Mrs Kathleen Mary Williams, gynt o 6 Glanrafon, Llanberis; Mrs Betty Hughes, Adwy'r Mynydd, Deinolen.

£5: Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel; Mrs Rita Williams, Elan, Bethel.

### Sefyllfa Ddiwylliannol y Fro

Yn dilyn fy adroddiad yn yr Eco fis Medi, a oedd yn ymdrech i bortreadu sefyllfa bresennol y gwahanol gymdeithasau a mudiadau diwylliannol ym mhentrefi dalgylch yr Eco, siom i mi ac amryw eraill yw deall na fydd ymdrechion i wella'r sefyllfa ym mhentrefi Llanrug, Llanberis na'r Waunfawr y gaeaf hwn eto. Roeddwn yn ddiniwed i obeithio y byddai rhywun neu rhywrai yn y pentrefi hyn yn dymuno adfer y cyd-gymdeithasu a fu ers talwm yn y tri pentref uchod, ac ailsefydlu Cymdeithsau Llenyddol, Eisteddfod a Chlwb yr Henoed, er enghraifft, ble'r oedd yr angen, ond ymddengys mai ymbalfalu yn y ddiffeithwch a fydd y drefn gymdeithasol unwaith yn rhagor. Mae hyn yn biti mawr, o gofio'r gorffennol bywiog a diwylliannol a fu yn y tri pentref.
Ar y llaw arall, llongyfarchion a chanmoliaeth di-ben-draw i drigolion Bethel am yr ymdrechion o fudd gwir gymdeithasol ymhob tymor o'r flwyddyn gyda chyfraniadau pentrefol poblogaidd i uno'r gymdeithas. Mae Bethel, heb os, yn esiampl i'r pentrefi eraill ei arddel.
Ac er nad oes neuadd yn Neiniolen, mae'r pentrefwyr yno hefyd, fel y buont erioed, yn closio at ei gilydd mewn gwahanol feysydd diwylliannol gyda'r Seindorf – neu 'Band Llanbabo' i hen bobol fel fi – yn sylfaen o lwyddiant i bopeth.
Mae trigolion Caeathro yn haeddu eu canmol hefyd – daliwch ati. Ond mae'n ddrwg gennyf gloi ar nodyn o dristwch sef, i bob ymddangosiad fel all Cwm y Glo ddilyn Dinorwig i gors o anobaith cyn belled ac y mae'r diwylliant Cymreig yn bod. Gobeithio nad felly y bydd y darogan.
Ydi, mae'r diffygion diwylliannol, sydd hefyd yn rhwystr rhag bodolaeth cymdeithas glos, gyfeillgar, frwdfrydig, yn loes i mi ac i eraill sydd ac atgofion o dros bedwar ugain mlynedd o ddalgylch heb ei ail, gyda PHOB UN o'r pentrefi yn meddu a frwdfrydedd pentrefol pleserus, heb neuadd yn aml...
Beth aeth o'i le, 'dwch?
Nid felly'r sefyllfa yn Nyffryn Nantlle - darllenwch dudalennau y papur misol 'Lleu' a sylweddoli nid yn unig deimlo dyffryn cyfan ar gerdded ond hefyd gyfraniadau gwerth chweil pob pentref a threflan.
Yn gywir
Rol Williams

## Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

### Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.
Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £15.00 - gwledydd Ewrop £33.50 - gwledydd eraill £42.50
Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50
Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk


gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673





Eco Tachwedd 2013.indd 2 29/10/2013 08:29


## *Parhad* LLYTHYRAU

### Ymchwil Hanes Teulu.

Annwyl Ddarllenwyr
Mae ymchwil hanes teulu yn prysur ddod yn weithgaredd hamdden boblogaidd gyda nifer cynyddol o bobl sy'n ceisio olrhain eu hynafiaid a pharatoi coeden deulu. Fel mae rhai ohonoch eisoes yn gwybod, mae modd erbyn hyn defnyddio gwefannau Ancestry.com a Findmypast.com i helpu â'ch gwaith ymchwil. Mae'r adnodd hwn ar gael i bawb ar draws holl lyfrgelloedd Gwynedd a hynny yn rhad ac am ddim.
Mae'r adnoddau hyn yn syml i'w defnyddio ac maent yn darparu digon o awgrymiadau chwilio a thudalennau cymorth.
Ar y gwefannau hyn gallwch chwilio:

- Cyfrifiadau ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel 1841-1911.
- Mynegai Cofrestru Sifil ar gyfer Cymru a Lloegr, gan gynnwys genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.
- Cofnodion plwyfi a phrofiant y DU ac Iwerddon.
- Amrywiaeth o ddeunydd tramor o America a gwledydd eraill, gan gynnwys cyfeirlyfrau, cyfrifiad Ffederal, mynegai troseddwyr, a a gwybodaeth am fewnfudo / rhestrau ddinasyddio.
- Cofnodion ymfudo.
- Cofnodion milwrol sy'n cynnwys y Rhyfeloedd Byd a mwy.
- Mae Ancestry.com a Findmypast.com yn cynnig adnodd hynod werthfawr i ymchwilwyr hanes teulu gyda mwy na 5 biliwn o enwau mewn dros 4000 o gasgliadau. Mae'r gwefannau hyn yn cynnig amrywiaeth eang o wybodaeth i helpu defnyddwyr i olrhain eu llinach deuluol neu helpu haneswyr i gael gafael ar gofnodion hanesyddol nad ydynt wedi bod ar gael ar-lein o'r blaen. Yn ogystal, mae'r cynnwys yn ehangu yn barhaus gyda deunydd newydd yn cael ei ychwanegu bob dydd.

Gan fod hanes teulu wedi dod yn weithgaredd mor boblogaidd gyda defnyddwyr llyfrgelloedd Gwynedd, rydym yn awyddus i sefydlu 'Clybiau Hanes Teulu' yn y llyfrgelloedd, lle bydd gwirfoddolwyr yn cynorthwyo defnyddwyr gyda'u gwaith ymchwil. Felly os ydych yn ymddiddori mewn hanes teulu ac yn awyddus i sefydlu clwb gydag eraill sy'n ymddiddori yn y maes, neu yn awyddus i helpu eraill gyda'i gwaith ymchwil, hoffem yn fawr iawn gael clywed oddi wrthych.
Am fwy o fanylion neu am sgwrs anffurfiol mae modd cysylltu â Tegid Rhys Williams ar (01286) 679463 neu ar e-bost tegidrhyswilliams@gwynedd.gov.uk
Yn ddiffuant
Tegid Rhys Williams
Hyfforddai Proffesiynol Llythrennedd Gwynedd


CYNGERDD MAWREDDOG

NOS WENER, 8 TACHWEDD 2013

YN NEUADD YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

DAFYDD DU

yn cyflwyno

Hogia'r Wyddfa

Gyda

Annette Bryn Parri, Degawd Seindorf Arian Deiniolen,

Elfed Morgan Morris, Lois Eifion,

Elin Mai, Gethin Griffiths,

Côr Ysgol Brynrefail

a llu o ddisgyblion talentog Ysgol Brynrefail

Drysau yn agor am 7.00pm / Noson i ddechrau am 7.30pm

Pris Tocynnau Oedolion : £8 / Pensiynwyr a phlant dan 16eg : £5

Tocynnau ar gael o Swyddfa Ysgol Brynrefail, Llanrug – 01286 672 381

Siop Na Nog, Caernarfon : Palas Print, Caernarfon : Palas Print, Bangor

Bydd elw'r noson yn mynd i gronfa Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Dewch i gefnogi.ac i fwynhau talentau'r fro ar ei orau

# Cyngerdd Ysgol Brynrefail



*Yr Hogia ar lwyfan y Brifwyl*

Mae'n 50 mlynedd ers I Hogia'r Wyddfa berfformio am y tro cyntaf ac mae cyfle prin wedi codi i drigolion lwcus bro'r Eco gael dathlu'r 50 gyda nhw mewn cyngerdd mawreddog yn Ysgol Brynrefail.
Er bod miloedd o bobl wedi tyrru o bob cwr o Gymru i weld yr Hogia yn cynnal Noson Lawen arbennig yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych – adre mae nhw'n dod tuag at ddiwedd y flwyddyn fawr hon, i ganu yn eu hen ysgol, ac i rannu'r achlysur arbennig gyda'u ffrindiau a'u cymdogion.
Mae eu hagosatrwydd a'I hiwmor wedi'n difyrru a'n cyfareddu dros y blynyddoedd ac mae eu caneuon, o'r llon i'r lleddf, wedi sicrhau eu lle yng nghalon y genedl. Lwcus iawn yda ni felly bod cyngerdd wedi ei drefnu yn ein hardal ni. Dafydd Du fydd yn cyflwyno'r hogia yn Ysgol Brynrefail ar Dachwedd 8ed, ac mi fydd blas lleol iawn I'r noson, gyda Annette Bryn Parri, Degawd Seindorf Arian Deiniolen, Elfed Morgan Morris, Lois Eifion, Elin Mai, Gethin Griffiths, Côr Ysgol Brynrefail a llu o ddisgyblion talentog Ysgol Brynrefail yn cymeryd rhan.
Mae hi wedi bod yn flwyddyn fawr I Arwel, Elwyn a Myrddin gyda'r pinacl – hyd yma – yn cyraedd wrth I filoedd fwynhau noson o berfformiadau o'r safon uchaf yn Ninbych. Dilwyn Morgan oedd yn llywio'r noson honno ac mi fydd y cyngerdd o'r brifwyl ar raglen Noson Lawen dros y Nadolig. Yn ogystal a Hogia'r Wyddfa mi fydd y rhaglen yn cynnwys perfformiadau gan John Ogwen, Trebor Edwards, Tara Bethan, Y Tri Digri, Wil Tân, Piantel, Pedwarawd Hendre Cennin, Trio, Corau Meibion Trelawnyd, Dyffryn Peris a Dwyfor a'r grŵp ifanc o Ddinbych, Enfys.
Ond Ysgol Brynrefail ydy'r lle i fod mis yma – felly dewch i gefnogi ac i fwynhau talentau'r fro ar ei orau yng nghwmni ffrindiau oes.
Drysau yn agor am 7:00yh a'r noson i gychwyn am 7:30yh. Mae tocynnau oedolion yn £8, a phensiynwyr a phlant dan 16eg yn £5.00. Tocynnau ar gael o Swyddfa Ysgol Brynrefail, Llanrug (01286 672 381), Siop Na Nôg, Caernarfon a Palas Print yng Nghaernarfon a Fangor. Bydd elw'r noson yn mynd i gronfa Cyfeillion Ysgol Brynrefail.



*Hwyl "tu ol I'r llenni" wrth ymarfer*



Eco Tachwedd 2013.indd 3 29/10/2013 08:30

# Ffion Glyn



Eleni, bydd Ffion Glyn, sy'n wreiddiol o Fethel, Caernarfon, yn aelod o gast un o gynyrchiadau theatrig mwyaf poblogaidd y calendr Cymreig – Pantomeim Martyn Geraint! Mae Ffion ar fin symud yn ôl i Gymru ar ôl treulio pum mlynedd yn byw yn Llundain. Ers graddio o Brifysgol Birmingham, a derbyn hyfforddiant pellach yn yr East 15 Acting School, bu'n rhan o nifer o gynyrchiadau theatrig, gan gynnwys Romeo a Juliet i'r Young Shakespeare Company, a Henry V i'r Illyria Theatre. Yn ogystal â Shakespeare, mae'n gyfforddus iawn ym myd y panto, ac wedi ymddangos mewn cynyrchiadau o Aladdin, Peter Pan, Sleeping Beauty a Hansel a Gretel. Draw Dros y Don fydd ymddangosiad cyntaf Ffion i'r theatr Gymraeg.

Eco'r Wyddfa aeth i holi ymhellach:

E.W.: Sut gest ti'r rhan ym mhanto poblogaidd Martyn Geraint?

Ff.G.:Wnes i gyfweliad i Martyn ddwy flynedd yn ôl, ac er na ches i'r rhan y pryd hynny, fe wnes i aros mewn cysylltiad. Roeddwn i'n teithio sioe 'Babe the Sheep-pig' yr haf 'ma ac efo diwrnod i ffwrdd yn Exeter pan roedd Martyn yn cynnal clyweliadau ar gyfer Draw Dros y Don. Felly, mi neidies ar y trên a mynd i'w weld.

E.W.: Pa gymeriad fyddi di'n chwarae, ac wyt ti'n gyfarwydd â gweddill y cast?

Ff.G.: Fel ddudes i wrth fy nheulu pan ges i gynnig y joban - 'dwi'n seidcic i Derek Pobol y Cwm!' Mae Jac Dywyll, fy nghymeriad i, yn dipyn o ffŵl sydd yn cael pethau'n anghywir bob tro, ond dwi hefyd yn cael chwarae Mam Ffrimpan sydd yn frodorol o'r ynys, a dwi'n siŵr fydd ei gwisg hi'n ddiddorol tu hwnt!

E.W.: A beth am weithio gyda Martyn Geraint? Oedd e'n arwr iti yn ferch ifanc?

Ff.G.: Oedd tad, roeddwn i wrth fy modd yn gwylio Slot Meithrin pan oeddwn i'n fach, ond sori Martyn, roedd yn well gen i'r hen rebel na, Wcw'r Gwcw!

E.W.: Pa brofiadau pantomeim sy' gen ti?

Ff.G.:O wylio pantomeim - yn bendant Dewi Pws a Mari Gwilym fel Llew a Llywela yn Jac a'r Jereimiym flynyddoedd yn ôl! Am bâr o glowns - dwi dal yn chwerthin pan yn meddwl am rhai o'u jôcs nhw! O ran perfformio - ges i lot fawr o hwyl yn perfformio Aladdin drwy'r Saesneg llynedd mewn ysgolion - roeddwn i'n chwarae rhan y mwnci ac yn dod o hyd i ddrygau newydd bob diwrnod! Dwi'n gaddo bihafio eleni!

E.W.: Sut le oedd dy ardal di o ran cynnig cyfleon i berson ifanc oedd am ddilyn trywydd perfformio?

Ff.G.: Roeddwn i'n lwcus iawn i gael mynd i Ysgol Glanaethwy pan roeddwn i'n dair ar ddeg, lle ges i lwyth o gyfleon i berfformio, o neuaddau pentref i neuaddau cyngerdd enfawr. Roeddwn i hefyd yn lwcus i gael rhieni oedd ddim yn meindio mynd â fi i eisteddfodau lleol, ac mae eisteddfod bentref wych ym Methel. Mi chwaraeodd Ysgol Brynrefail ei rhan hefyd - mae'r Steddfod ysgol yno yn wych, a ges i gymaint o brofiad yn cystadlu a dysgu plant iau hefyd.

E.W.: Sgen ti arwr/arwres ym maes theatr?

Ff.G.: Arwres i mi fyddai Celia Imrie - mae hi'n gallu bod mor ddoniol ar y sgrin ac yn y theatr.

E.W.: Dyma dy ran proffesiynol cyntaf yn y Gymraeg, ond beth am y dyfodol – oes gen ti uchelgais o ran y math o berfformio y baset ti'n dymuno wneud yn y dyfodol?

Ff.G.: Ia, er fy mod i wedi bod yn gweithio'n broffesiynol am bedair blynedd rŵan, dyma'r tro cyntaf i mi berfformio drwy gyfrwng y Gymraeg ers naw mlynedd! Dwi'n symud yn ôl i Gymru eleni felly gobeithio gweithio mwy drwy gyfrwng y Gymraeg a chario mlaen i weithio yn Lloegr. Mi ydw i wrth fy modd gweithio yn y theatr, ond mi fyddai bod yn rhan o sioe deledu'n brofiad gwych i'r dyfodol - yn enwedig rhywbeth gwirion a doniol.

Bydd Draw Dros y Don yn Galeri Caernarfon rhwng Rhagfyr 11–14. Am fwy o fanylion ac archebu tocynnau, ffoniwch Galeri ar 01286 685 222

**Clwb Bro Bethel** Daeth yr aelodau ynghyd y mis yma dan lywyddiaeth y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Cydymdeimlwyd â Brian Sharpe yn dilyn colli ei frawd yn ddiweddar. Cytunodd Ann Ellis Williams i gynrychioli'r aelodau ar Sul y Cofio a gosod torch ar y gofeb yn enw'r Clwb. Braf oedd cael cyhoeddi fod y Clwb wedi derbyn £150 gan Glwb Pêl-droed Bethel tuag at Ginio Nadolig yr aelodau, a nodwyd fod llythyr o ddiolch wedi ei anfon i'r trysorydd. Gofynnwyd i bawb ymdrechu i gasglu talebau WISH y Daily Post eto eleni a bydd y talebau yn ymddangos yn y papur newydd o ddydd Llun nesaf ymlaen. Rhannwyd taflenni bwyd y Cinio Nadolig a gofynnir i bawb eu dychwelyd gyda'r arian erbyn Tachwedd 3ydd i Ann Ellis Williams neu Ivy Wright.

Marion Hughes o Lanllechid oedd y wraig wadd a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi yn sôn am ei thaith i Dde-India. Bu'n aros yn Kerala ac yn gwirfoddoli ar brosiect (debyg iawn i Menter Fachwen) lle roedd nifer fawr o ferched ifanc yn cael anhawster gyda sgiliau arferol o ddydd i ddydd. Roedd y prosiect yn cael ei ariannu gan yr Eglwys yn India. Bu draw yn Madras hefyd a chafodd gyfle i ymweld â nifer o ysgolion bach a mawr tra yno.

Talwyd gair o ddiolch gan Richard Lloyd Jones a diolchwyd hefyd i Eirlys Sharpe, Pat Owen a Margaret Williams am ofalu am y te. Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni Maldwyn Roberts, Age Cymru Gwynedd a Môn yn Festri Bethel ar Tachwedd 5ed.

**Diolch** Dymuna Brian Sharpe, Ael y Bryn, ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd er cof am ei frawd Stanley a fu farw yn ddiweddar. Aeth y rhoddion tuag at Eglwys St Pedr, Penrhosgarnedd.

**Hoffai** Mrs Nan Owen, Berwyn, ddiolch i'r Parch Marcus Wyn Robinson am ei gymorth a'i garedigrwydd, i Athrawon Ysgol Sul y Cysegr, ac i deulu a ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffôn a'u dymuniadau da a dderbyniodd pan gafodd yr anrhydedd o dderbyn Medal Gee yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

**Diolch** Dymuna Rita ddiolch yn fawr am y dymuniadau da dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar

## NOSON I DDIDDANU PAWB

Nos Fercher, Tachwedd 16, cyfarfu aelodau'r Pwyllgor am y tro cyntaf y tymor hwn i drefnu gweithgareddau i drigolion yr ardal yn ystod y misoedd nesaf. Nos Fercher, Tachwedd 20, cynhelir 'Noson o Ryfeddodau' pan ddaw'r consuriwr, Robert Jones, i Festri Capel Cysegr i roi sioe awr o hwyl, hud, a dewiniaeth. Croesewir pawb, am 7 o'r gloch, gyda phanad a bisgedan, ac yna bydd pethau'n dechrau diflannu dan drwynau'r gynulleidfa ac ambell beth arall yn dod i'r golwg heb i neb weld o ble! Bydd tâl mynediad o £2 wrth y drws (plant ysgol am ddim) ond gan y bydd hon yn debygol o fod yn noson boblogaidd iawn, 'dowch yn fuan i sicrhau sêt' ydi'r neges i bobl Bethel!

Mae'r Pwyllgor wedi nodi dau weithgaredd arall i'w cynnal yn ystod tymor y gwanwyn ond bydd yn rhaid aros tan ar ôl y Nadolig i gael manylion am y rheini. Yn y cyfamser, mae'r aelodau'n barod iawn i dderbyn unrhyw awgrym ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys cynigion i ailgynnal ambell weithgaredd poblogaidd unwaith eto.


Cofiwch ddefnyddio
**SWYDDFA POST BETHEL**
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

**ORIAU AGOR**
5.30am-7.30pm (Llun–Sadwrn)
5.30am-3pm (Sul)

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)**




Eco Tachwedd 2013.indd 4 29/10/2013 08:30

# Ysgol Bethel





*Alaw a Heledd gyda aelodau'r Orsedd yn Eisteddfod Bethel.*




Clybiau ar ôl ysgol Mae'r Clybiau ar ôl ysgol wedi ail-gychwyn ar gyfer yr Adran Iau. Mae'r plant wedi dewis cael y clybiau a ganlyn eleni: Clwb Chwaraeon; Clwb Garddio; Clwb Coginio; Clwb i-pads a Chlwb Celf. Yn ogystal, fe gynhelir Clwb Llefaru i B4, 5 a 6 ar noson wahanol er mwyn hyfforddi ar gyfer Eisteddfod Bethel.

Rhyd-ddu Bu B6 ar ymweliad preswyl i Rhyd-ddu gyda Mr Parry. Diolch i Miss Allana Evans a Mrs Joyce Gaffey am ymuno ar gyfer y shifft nos! Cafodd y plant dri diwrnod bythgofiadwy a cherdded i gopa'r Wyddfa ar hyd Llwybr Cwellyn.

Glanllyn Bu B5 ar ymweliad preswyl i Lanllyn gyda Mrs Elwyn a Mrs Julie Bragan. Diolch i'r staff am roi eu hamser i fynd gyda'r plant. Mae'r profiadau hyn yn werthfawr iawn iddynt ac yn datblygu'r plentyn cyflawn.

Ymweliadau hanes! Bu B3 a 4 ar ymweliad i Amgueddfa Lechi Llanberis fel rhan o'u hastudiaethau Hanes a Daearyddiaeth.

Yr Ysgol yn Oes Fictoria yw thema hanes B6 ac fe gawsant flas ar fod yn ddisgyblion yn y cyfnod hwnnw yn ystod eu hymweliad â'r Ysgol Fictoraidd yn Llanystumdwy.

Gweithgareddau beicio Cafodd B5 gyfle i fynd i wylio'r ras feiciau 'Tour of Britain' yn Llanberis. Fel rhan o'r diwrnod, a drefnwyd gan PESS, cawsant gymryd rhan mewn diwrnod o weithgareddau sgiliau seiclo.

Kerb-craft Caiff B1 wersi diogelwch y ffordd, Kerb-Craft yn ystod y tymor hwn. Diolch i'r rhieni sydd yn gwirfoddoli i helpu.

Eisteddfod Bethel Bu pob dosbarth wrthi yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Bethel. Mae pob dosbarth hefyd wedi cystadlu yn y cystadlaethau Llên a Chelf. Diolch i'r athrawon a'r staff am eu gwaith caled.

Ymweliad gan yr Archifdy Daeth swyddog addysg o'r Archifdy i'r ysgol i roi cyflwyniadau i wahanol ddosbarthiadau. Cafodd B6 gyflwyniad ar Ysgol Bethel yn Oes Fictoria a cafodd y Babanod gyflwyniad ar Yr Ysgol Amser Maith yn Ôl.

Diolchgarwch Penderfynodd y Cyngor ysgol i wneud casgliad tuag at elusen Macmillan eleni. Daeth cynrychiolydd o'r elusen i'r ysgol i roi cyflwyniad byr i'r plant.

Llysgenhadon Addysg Gorfforol Etholwyd Celt Moss ac Elin Jones i fod yn Llysgenhadol Addysg Gorfforol.

Bu'r ddau yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn cyfarfod llysgenhadon o ysgolion eraill y dalgylch ac yn derbyn syniadau am sut i weithredu eu rôl yn effeithiol yn yr ysgol.

Pêl-rwyd Bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu mewn twrnamaint dalgylchol, gan berfformio yn dda iawn. Diolch i Miss Donna Griffiths a Miss Wendy Hebenstreit am eu hyfforddi.

Rygbi Bydd y tîm rygbi yn cystadlu yn nhwrnamaint Clwb Rygbi Caernarfon yn ystod y mis. Diolch i Mr Huw Gwynne Evans am eu hyfforddi.


Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru Yn dilyn ymweliad B5 y llynedd â Chors Erddreiniog ym Môn, fe wahoddwyd y disgyblion i gynhadledd Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mharc Menai i arddangos eu gwaith i gynadleddwyr o sawl rhan o Ewrop. Braf oedd clywed canmoliaeth uchel iawn o'r disgyblion, o ran safon eu gwaith, eu brwdfrydedd a'u hymddygiad. Diolch i Mrs Cecile Roberts am estyn gwahoddiad i'r disgyblion fod yn rhan o'r prosiect. Fel arwydd o werthfawrogiad y sefydliad, rhoddwyd ipad 4 yn anrheg i'r ysgol a chafodd pob disgybl a gymerodd ran becyn o adnoddau i'w defnyddio ar gyfer gwaith maes.

Y Cyngor Ysgol Etholwyd y disgyblion canlynol ar y Cyngor Ysgol:
Elidir: Bedwyr Jones a Lowri Jones
Gwyrfai: Elin Jones a Dylan Roberts
Glyder: Tomos Gibson a Haf Williams
Seion: Hollie Cavanagh ac Elis Jones

Y Cyngor Gwyrdd Etholwyd y disgyblion canlynol ar y Cyngor Gwyrdd:
Elidir: Ioan Ifans a Heledd Huws
Gwyrfai: Lois Roberts a Dylan Worsley
Glyder: Beca Morris a Bryn Hughes
Seion: Geraint Roberts a Gwen Owen

Swyddogion Diogelwch y Ffordd Etholwyd Josie Pritchard a Cai Jones i fod yn Swyddogion Diogelwch y Ffordd.








Eco Tachwedd 2013.indd 5
29/10/2013 08:30

# Neuadd goffa Bethel ar ei newydd wedd





Roedd nos Sadwrn, Hydref 5ed. 2013 yn noson i'w chofio a'i thrysori i drigolion Bethel a'r cylch. 'Dadorchuddiwyd' y Neuadd Goffa ar ei newydd wedd, ac roedd pawb llawn edmygedd o'r hyn gyflawnwyd. Roedd rhai yn cofio yr hen neuadd wreiddiol a agorwyd gan W.J.Gruffydd, yna'r 'ail fersiwn' ble bu'r 'to yn gollwng' yn destun sawl sgwrs a phryder. Yn sicr, ni fydd hyn yn broblem yn yr adeilad hwn.

Serch sawl problem, diolch i waith caled nifer o aelodau Pwyllgor y Neuadd dros y blynyddoedd cadwyd y drws ar agor. Iddynt hwy mae'r diolch am weld y datblygiad cyffrous hwn.

Yr un yw maint y neuadd, ond fe'i ail wampiwyd yn fewnol i gynnwys toiledau, ffreutur, ystafell newid ac 'ystafell werdd' tu cefn i'r llwyfan. Gwnaed estyniad hefyd i'r ystafell snwcer, fydd yn gaffaeliad i'r clwb sy'n dal i ddenu nifer o ieuenctid y fro.

Yn yr un modd tacluswyd ac ehangwyd y maes parcio.

Ar y noson, â arweinwyd yn ei ffordd ddihafal gan Marcus Robinson, cyfeirwyd at waith di-flino y pwyllgor cyfredol dan gadeiryddiaeth y Cyng. Sion Jones. Roedd y pwyllgor yn llwyddiannus wrth dderbyn grantiau o £320,000 o gronfa Adnoddau Cymunedol y Cynulliad, a Chynllun Tir a Môr.

Rhoddwyd y cytundeb adeiladu i gwmni D.R.Williams a dechreuwyd y gwaith yn Ebrill eleni. Mewn amser cymharol fyr cyflawnwyd gwaith taclus a chymen.

Roedd y neuadd dan ei sang ar gyfer y noson agoriadol. Cyn yr adloniant cafwyd anerchiadau gan Marcus a Sion. Roedd eu diolch i lawer un, ond pwysleisiodd y ddau mai Neuadd Goffa yw hi, a chysgodion aberth canrif bellach ers y Rhyfel Mawr yn rhan annatod, ddi-angof o seiliau y neuadd. Cyfeiriodd Sion mai'r deyrnged orau i'r bechgyn fuasai gweld defnydd cyson o'r adeilad gan unigolion a mudiadau'r pentref.

Datgelwyd hefyd fod bwriad yn y dyfodol i osod llechfaen goffa i'r bechgyn yng nghyntedd y neuadd.


I unrhyw unigolyn neu fudiad sydd angen ymholi ynglyn â defnydd o'r neuadd gellir cysylltu â'r gofalwr Falmai Owen ( 01248 670818).

Yna'r adloniant. Roedd Seindorf Llanrug mewn hwyliau da'n cyflwyno rhaglen gymysg o'r poblogaidd a'r clasurol. O Ddeiniolen daeth y triawd dawnus Trio, gyda'r amryddawn Annette Bryn Parri yn cyfeilio iddynt. I gynrychioli y sîn gyfoes cafwyd seiniau Catrin Hopkins a Galw. Noson i'w chofio, a'r tân gwyllt ar ddiwedd y noson yn goleuo'r pentref ac yn ail-danio brwdfrydedd i ddefnyddio'r adnoddau gobeithio.

Braf cofnodi mai'r gweithgaredd cyntaf yn y neuadd yw Eisteddfod y Pentref, a pha well teyrnged i'r 'bechgyn â gollwyd' na seiniau ieuenctid presennol Bethel yn morio eu doniau.

Hen gôf nad aiff o'n gafael – yw aberth
y meibion o'n gadael.
I'w cofio, braf ail-afael
â'u neuadd hwy, rhown nawdd hael.

(Gyda diolch i Gwynfor Jones am luniau o noson agoriadol y neuadd – Golygydd)







Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
Hefyd
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

YSWIRIANT FUW
Hoffech chi hybu:
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig
Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes
Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned
Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



Eco Tachwedd 2013.indd 6 29/10/2013 08:30

## Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod Hydref o'r gangen yn festri Cysegr nos Fercher, y 9fed o Hydref, am 7.30. Dechreuwyd y noson drwy ganu cân y mudiad gyda Beti Owen yn cyfeilio. Llywyddwyd gan Jen a diolchodd am y dymuniadau da a dderbyniodd y mis diwethaf i Aled a Casi ar achlysur eu priodas yn ddiweddar, roedd yn falch o gael dweud fod y diwrnod wedi mynd yn hwylus iawn a phawb wedi mwynhau.

Llongyfarchwyd Alys ar ddod yn nain eto, ac i Rita ar ddathlu pen-blwydd arbennig, ac i Mair Williams oedd yn dathlu pen-blwydd ar noson y cyfarfod

Cydymdeimlwyd ac Eirlys Sharpe ar golli brawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Gwynfor, gŵr Edwina, fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, a'n bod yn falch ei fod adref ac yn gwella'n dda.

Mae gwefan MYW Cangen Bethel wedi cael mis cyntaf llwyddiannus ac wedi cael dros 1843 o 'hits'!

Llongyfarchwyd pwyllgor Neuadd Goffa Bethel fu'n brysur yn ail wneud y neuadd dros y misoedd diwethaf, mae'n werth ei gweld. Gofynnwyd i Falmai gario'r neges i weddill y pwyllgor. Atgoffwyd pawb fod eisteddfod Bethel ddydd Sadwrn, Hydref 19, a dymunwyd yn dda i bawb sy'n cystadlu.

Bu'r swyddogion yn y Cyfarfod Rhanbarth ar Fedi 23 ac roedd o'n gyfarfod diddorol iawn. Braf gweld Bethel mor weithgar yn y rhanbarth gyda Mair Price yn ysgrifennydd a Gwyneth yn drysorydd y rhanbarth. Nodwyd fod £18,000 wedi ei gasglu at Gymorth Cristnogol trwy werthu bagiau. Diolch am bob cefnogaeth. Cofiwch gellir Bidio ar y Bagiau trwy fynd ar wefan MYW i e-bostio eich bid neu ffonio'r Ganolfan 01970 6116616. Cafwyd adroddiad gan Gwyneth fod sefyllfa ariannol y Rhanbarth yn iach. Penderfynwyd ail sefydlu pwyllgor chwaraeon Rhanbarth nos Lun Ionawr 27 am 6.45.

Cynhelir Ysgol Undydd y Dysgwyr eleni ar Dachwedd 16. Lleoliad newydd - Ganolfan Gymraeg i Oedolion yn Stryd y Deon, Bangor rhwng 2:00-3:30y.p Mae tocynnau parcio gan yr ysgrifennydd. Adroddwyd fod y Pwyllgor Anabl wedi rhoi £2765 i CLIC ym mis Awst.

Croesawyd Sara a Miriam o Gwmni Roberts, Felinheli atom i sôn am eu cynnyrch. Dechreuwyd drwy gael cyfle i flasu peth o'u cynnyrch, aeth pawb ati'n eiddgar iawn. Wedi'r blasu cawsom hanes y cwmni a sefydlwyd yn 1924 gan hen daid y genod, sef Thomas Roberts, yn y Felinheli. Roedd ganddynt hen luniau o'r gweithwyr, hen daid, taid, a'u tad fu'n rhedeg y cwmni. Erbyn heddiw mae'r ffatri yn Griffiths Crossing ac yn cyflogi 90 o weithwyr. Maent yn gwerthu eu cynnyrch i gwmniau bragwyr i'w bwytai ac yn cydweithio'n agos efo cogyddion y cwmniau i gyflwyno bwydydd newydd i'w cwsmeriaid. Enillodd y Cwmni 'Cyflenwr y Flwyddyn' i gadwyni tafarndai drwy Brydain. Mae'r deunydd crai o'r ansawdd orau, a'u siop yn Griffiths Crossing yn agored i'r cyhoedd .Wedi noson hynod o ddifyr a'r aelodau yn cael cyfle i holi'r genod diolchwyd iddynt gan Liz Evans oedd yn cofio nain Miriam a Ruth oedd â'i gwreiddiau ym Methel. Diolch i Mair Read ac Eirlys Williams am baratoi'r banad ac enillwyd y raffl gan Rita. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 13eg yng nghwmni Anna Pritchard, Arlunydd a Dyluniwr. Mae te, coffi a siwgr yn y gangen ar gyfer y banad, felly dim ond llefrith, bisgedi a raffl sydd angen i'r rhai sy'n gwneud y banad ddod i'r cyfarfod.

BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

# CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Clwb Merched** Cafwyd noson hynod o ddifyr ar Fedi'r 26ain yng nghwmni John Dilwyn Williams o Archifdy Gwynedd. Y tesun oedd 'Helyntion Llys y Sesiwn Chwarter' ac mae'r Archifdy yn berchen eu cofnodion mor bell yn ôl â 1541 hyd at 1971 pan ddaeth cynnal Sesiynau Chwarter i ben. Cofnodir yn 1652 frwydr taflu cerrig ar Bont Peblig, a hynny rhwng Seneddwyr Glangwna a Brenhinwyr Y Wern, ar troseddwyr yn ymddangos o flaen eu gwell yn y Llys (cyn sefydlu yr heddlu yn 1656). Diolchwyd yn gynnes iawn i Dilwyn gan Nia Jones.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, Beryl Roberts, at raglen gweithgareddau y gaeaf a nodi y bydd ein cyfarfod nesaf yng Nghastellmai trwy garedigrwydd Nia Williams o Siolani, ar Hydref 31ain am 7.30, pryd y cawn wydraid o win a gweld a phrynu dilladau hardd o gotwm a gwlân Indiaidd. Diolchwn ymlaen llaw i Nia am agor ei chartref i ni.

Bydd y cinio Nadolig eleni yn Teras, Coleg y Brifysgol, Bangor, ar Ragfyr 6ed (nos Wener). Gofynnir i bawb sydd am ddod i ddewis o'r fwydlen yn Castellmai ynghyd â £10 o flaendal i'r trysorydd Bethan Iwan.

**Gwasanaethau y Capel**

Tachwedd 3ydd am 2o'r gloch, bydd y gwasanaeth a chymun dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson.

Tachwedd 17eg am 2 o'r gloch, bydd y gwasanaeth dan ofal Y Parch Huw Dylan.

**Profedigaeth** Deallwn fod Mr Eric Evans, 9 Erw Wen, wedi colli ei frawd, Ifor, yng Ngharmel, Treffynnon, ac anfonwn gydymdeimlad cywir ato yn ei hiraeth.

**Gwellhad** Mae Hefin Hughes, Cefn Gof wedi derbyn llawdriniaeth pen-glin yn ddiweddar. Brysiwch wella Hefin, a chymerwch ofal ar y baglau!

**Llongyfarch** Ar Fedi 24ain priodwyd Dona Roberts (Erw Wen gynt) a Sion Griffiths yn Lindos ar ynys Rhodes gyda bron hanner cant o deulu a ffrindiau yn ymuno yn y dathliad. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da yn eich cartref yng Nghaernarfon.

**Plygu'r Eco** Cofiwch y byddwn yn plygu'r Eco yng Nghanolfan y Capel o 3 o'r gloch ymlaen ar Dachwedd 28ain. Mae'n debyg mai hwn fydd y 'plygu' olaf o'i fath yng Nghaeathro gan fod plygu mecanyddol ar y gweill. Dewch felly i roi help llaw ar achlysur hanesyddol.

**Tynfa Misol** Dyma restr o enwau enillwyr mis Hydref (merched i gyd y tro hwn!). Harriet Roberts, 5 Erw Wen (54): £40; Nan Roberts, 10 Erw Wen (78): £25; Heather Jones, Chwiban y Gwynt (61): £15; Marian Hughes, Tŷ Mawr (73): £5.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia



Eco Tachwedd 2013.indd 7 29/10/2013 08:30

# Newyddion Ysgol Cwm y Glo gan y Plant


*Pnawn coffi macmillan*


*Emily o Costa*

**Prynhawn Coffi Macmillan** Mis yma rydym wedi bod yn brysur iawn yn cynnal prynhawn goffi er mwyn casglu arian tuag at yr elusen Macmillan. Rydym wedi gallu casglu dros £150.00 tuag at yr elusen.

Wrth baratoi ar gyfer y prynhawn cafod y disgyblion i gyd gyfle i goginio gwahanol gacennau i'w gwerthu. Cawsom ymwelydd o gwmni Costa – Emily, i ddysgu mwy i ni am ffa coffi.

Diolch i bawb ddaeth i gefnogi.

**'Tour of Britain'** Cafodd blwyddyn 5 a 6 gyfle i ddathlu y 'Tour of Britain' yn cyrraedd Llanberis. Cawsom ddiwrnod cyfa o weithgareddau beicio ac yna cael gweld y beicwyr yn cyrraedd diwedd eu ras.

Llongyfarchiadau i Noah, Riannon a Cara am eu llwyddiant yn un o'r cystadlaethau rasio yn erbyn y cloc.

Llongyfarchiadau i Riannon am gael y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth adran Diogelwch y Ffyrdd, Cyngor Gwynedd. Daeth Anti Cheryl draw i gyflwyno ei gwobr – llond bag o offer beicio! Roedd pawb yn genfigennus!

**Llongyfarchiadau** i bawb sydd wedi bod yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau rhedeg a thriathlon y tu allan i'r Ysgol hefyd.

**Yr Urdd** Rydym wedi cychwyn cyfarfod pob yn ail wythnos. Yn ein cyfarfod cyntaf roedd Mrs Oliver a Mrs Bayley wedi paratoi byrbryd iach o gaws a cracyrs i ni. Cawsom gystadleuaeth creu Mr. Urdd allan o glai. Diolch i dad Cara am feirniadu – Mr. Urdd Aled oedd yr un buddugol.

Babi Newydd Mae Miss Smith wedi cael babi bach newydd - hogyn bach. Brysiwch i'n gweld yn fuan 'da ni i gyd yn ceisio dyfalu beth ydy'r enw. Llongyfarchiadau.

Staff Mae Miss Leah Môn Jones wedi cychwyn efo ni a bydd hi yma tra mae Miss Smith adref gyda'r babi newydd. 'Da ni i gyd yn hoffi bod efo hi ac yn gobeithio bydd hi yn hapus yma.

Cyngor Ysgol Rydym wedi ethol ein Cyngor Ysgol: Eira, Jac, Jonathan, Llio, Ethan a Riannon.

Tan y tro nesaf, Katrina, Aaron, Noah a Riannon.

**Diolch** Dymuna Iris Rowlands, Glan'rafon, Neil, Michelle a Ben ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain, sef Mrs Kathleen M. Williams yn Llanberis. Diolch am y rhoddion hael tuag at Gronfa Cegin Newydd Eglwys Sant Padarn a Chartref Plas Pengwaith Llanberis. Diolch yn fawr

**Pen-blwydd Hapus** i Catrin Eleri, 13 Dôl Afon, yn bump oed oddi wrth Mam, Dad, Kerry, John, Dewi, Fiona ac Osian.

**Cydymdeimlad** Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Kathleen Williams, Llanberis a hefyd i Neil, Michelle a Ben ar golli nain a hen nain annwyl. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Hilda Orritt, Morannedd, wedi colli ei chwaer.

**Undeb y Mamau** Cyfarfu'r gangen yn Feed my Lambs, Caernarfon ar bnawn Mawrth, 15 Hydref. Yr oedd pawb yn falch o groesawu Auriel Howells yn ôl wedi gwella ar ôl ei thriniaeth yn Lerpwl.

Croesawodd Auriel bawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gwasanaeth byr oedd yng ngofal Hilda. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Medi gan Louie a phasiwyd eu bod yn gywir.

Trafodwyd rhai materion gan Auriel. Cytunwyd bob pob cyfarfod o hyn ymlaen yn cael eu cynnal yn Eglwys Sant Mair. Cinio Nadolig ar 19 Tachwedd ym Mron Menai. Enwau i law cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda. Yr oedd yr aelodau wedi dod â lluniau ohonynt eu hunain pan yn ifanc a threuliwyd gweddill y pnawn yn dyfalu pwy oedd eu perchnogion.

Cafwyd lluniaeth wedi ei drefnu gan Dorothy, Marjorie, Gwyneth a Hilda. Rhoddwyd y raffl gan Marjorie ac fe'i henillwyd gan Jenny Salisbury Jones. Diolchwyd i'r gwesteion gan Auriel a therfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.


**Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed**

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



**Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:**
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i **www.ageuk.org.uk/products**

AGE Concern | age UK

**Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.**
**Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.**
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1




Eco Tachwedd 2013.indd 8 29/10/2013 08:30

**Cymdeithas Undebol Deiniolen** Agorwyd tymor newydd y Gymdeithas nos Lun, Medi 21 o dan lywyddiaeth y Parchg John Pritchard.

Croesawyd aelodau newydd a rhai aelodau yn ôl wedi iddynt fod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cafwyd noson arbennig yng nghwmni Annette Bryn Parri. Fel y byddech yn disgwyl rhoddodd Annette gyngerdd arbennig i ni. Aethom yn ôl i'r gorffennol yn ei chwmni wrth iddi gyflwyno caneuon o fyd ffilmiau o ddechrau'r Ugeinfed Ganrif.

Fe gafodd cynulleidfa Tŷ Elidir y noson o'r blaen fwynhau'r un safon ac y bydd y theatrau mawr yn ei fwynhau.

Diolchwyd iddi yn gynnes gan Mr Brian Price.

**Côr Newydd Oedolion** Mae Côr newydd gael ei sefydlu yn y pentref o dan arweiniad Lyndsey Pleming. Maent yn cyfarfod bob nos Iau yn festri Capel Ebeneser am 7.30 ac maent yn chwilio am fwy o aelodau. Croesewir unrhyw un o'r ardal fyddai'n dymuno ymaelodi.

**Sul Diolchgarwch** Cynhaliwyd dau wasanaeth Diolchgarwch eleni gyda phlant yr ysgol Sul yn cyfrannu yn ystod oedfa'r bore a nos. Gwnaeth y plant eu gwaith yn wych unwaith eto a diolchir i bob un ohonynt am eu cyfraniad. Mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod yn festri Capel Ebeneser am 10.15. Croeso cynnes i bawb.

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen** Cyhoeddir canlyniadau'r Eisteddfod yn y rhifyn nesaf o'r Eco gan ei bod wedi ei chynnal ers i'r rhifyn yma fynd i'r argraffwyr.

**Newyddion** Gofynnir unwaith eto am unrhyw newyddion i'w cynnwys yn nhudalennau'r Eco. Os na roddir gwybod i'r gohebwyr am yr hyn sydd yn digwydd yn y pentref neu i drigolion yr ardal, mae'n debygol na roddir y sylw haeddiannol i'r hyn sydd yn digwydd.

**Diolch** Dymuna Gwyneth, Alan a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad wedi colli gŵr, sef Eifion W. Evans. Roedd yn dad a thaid balch ac yn frawd annwyl i Alan a Margaret. Diolch i'r holl ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r galwadau ffôn a gafwyd yn ystod y cyfnod anodd yma ac am yr holl roddion hael er cof am Eifion, a roddir tuag at Gronfa Offer meddygfa Waunfawr. Diolch i staff Ward Moelwyn Ysbyty Gwynedd a'r Parchedig Marcus Robinson. Trefnwyd yr angladd gan Gwilym Jones a'i Fab, Caernarfon, a'r organyddes oedd Mrs Eurwen Darwood.

**Sul y Cofio** Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio eleni am 9.15 ar ddydd Sul, Tachwedd 10fed, ger y Gofeb yn y pentref. Trefnir y gwasanaeth gan bwyllgor Gŵyl Deiniolen a'r Cylch, gyda darlleniadau gan y Parchg John Pritchard a chyfraniad gan Seindorf Arian Deiniolen.

**Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen** Hoffai'r Clwb ddiolch i noddwyr dillad chwarae'r timau dan 9 ac 11 ar gyfer tymor 2013/14, sef Carwyn Thomas a Wayne Owen. Mae'r tymor wedi dechrau yn addawol iawn a'r plant yn ymdrechu'n galed bob wythnos, ond yn bwysicach, yn mwynhau eu hunain.

**Profedigaeth** Cydymdeimlir yn ddwys gyda theulu a ffrindiau'r diweddar Reg Jones, Bro Elidir, Dinorwig. Bydd colled fawr i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion yn Ninorwig a thu hwnt ar ei ôl.

**Merched y Wawr** Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod cyntaf y tymor, dechreuwyd trwy ganu cân y mudiad ac yna croesawyd pawb gan Brenda, y Llywydd. Anfonwyd ein cofion at bawb a oedd yn methu â bod yn bresennol trwy wahanol amgylchiadau a dymunwyd yn dda i Margaret ar ei hymddeoliad ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yn Ysgol Gwaun Gynfi. Trafodwyd llawer pwnc a oedd yn ymwneud â gweithgareddau y mudiad.

Aeth Brenda ymlaen i groesawu y gŵr gwadd, sef Mr Neville Hughes (Hogia Llandygai), a chafwyd noson hynod ddifyr a bywiog yn ei gwmni. Aeth a ni'n ôl rai blynyddoedd i'r cyfnod y dechreuodd yr hogia ganu hefo'i gilydd ac fel y tyfodd eu poblogrwydd ledled Cymru a thu hwnt i fod yn un o grwpiau mwyaf poblogaidd Cymru. Cafwyd hefyd ambell gân ganddo oedd yn cyd fynd â'r hanesion. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn.

Bydd cyfarfod mis Tachwedd yn un arbennig iawn gan ein bod yn hynod o lwcus fel cangen o gael y grŵp TRIO i ddod atom. Mae y grŵp yma yn brysur gwneud enw iddynt eu hunain ar deledu a llwyfannau ledled Cymru. Braint hefyd yw cael dweud fod dau ohonynt yn dod o Ddeiniolen, sef Emyr a Bedwyr, a bod gwreiddiau Steffan yn ddwfn iawn yn y pentref. Yn eu hyfforddi ac yn cyfeilio iddynt mae Annette Bryn Parri, hithau wrth gwrs yn hynod boblogaidd fel cyfeilydd i fawrion y byd.

Yr ydym fel cangen wedi penderfynu y bydd y noson yma yn agored ac y bydd croeso cynnes i unrhyw un, boed yn ddynion neu ferched, sydd yn dymuno dod i wrando ar yr hogia. Peidiwch da chi â cholli'r cyfle o gael eu clywed a gallaf eich sicrhau y bydd gwledd yn eich aros. Bydd paned i bawb ar y diwedd. **Cofiwch y dyddiad: Nos Lun, 18 Tachwedd am 7.30.**

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277


RHEILFFORDD LLYN PADARN
POBLOGAIDD YN 2012
HELFA CALAN GAEAF
Hanner tymor yr Hydref
Mwynhewch daith ofnus drwy goedwig y gwrachod a darganfod gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.
Trenau'n ddyddiol o 11eg y bore tan 2.45 y prynhawn
Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael
Caffi a Siop ar agor
Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!
Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi.
(yn ddilys tan 02.11.2013)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!
Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anrhegion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.
Rhagfyr 7fed/8fed, 14eg/15eg, 21ain
Oedolion a phlant o £8.50
(plant o dan dair oed o £3.50)
Rhaid archebu o flaen llaw




## Grŵp Deiniolen

Anfonwyd y llun hwn i'r Eco gan Mrs Betty Hughes, Adwy'r Mynydd. Tynnwyd y llun gan Jennie Williams, Gorlan, pan agorwyd ffatri Clogwyn yn 1969 ym mhen uchaf Lôn Penbont. Symudodd y gweithle wedyn i waelod Allt Sam, Clwt y Bont.

Dyma enwau rhai yn y llun: Margaret Owen, Hefin Williams, Kate Wodil, Katie Wyn Jones, Elfyn Green ac Olwen Price. Pwy yw'r gweddill tybed?



**Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist Llandinorwig** Ar brynhawn dydd Mercher, Hydref 9ed, i ddathlu a gwerthfawrogi yr Ŵyl Ddiolchgarwch eleni, ymwelodd aelodau y Gymdeithas â'r Coffi Pot yn Llanberis i

fwynhau cinio'r Cynhaeaf. Cafwyd pryd o fwyd rhagorol o flasus a bwytaodd pawb yn helaeth iawn a'i fwynhau.

Y wraig wadd oedd Miss Gwyneth Parry, Llanberis a chafwyd pnawn difyr iawn yn ei chwmni, yn egluro, fel cyn athrawes, sut oedd yn gwneud gwersi yn ddiddorol ac yn syml i'r plant eu deall

Byddai yn dewis e.e. "Diolchgarwch" fel thema, ei gyplusu ac addysg ac yna gwneud gwaith celf a gwahanol weithgareddau gyda'r plant a byddent wrth eu bodd.

Roedd yn hynod ddiddorol ac addysgiadol gwrando arni a diolchwyd iddi, ar ran aelodau'r Gymdeithas, gan Mrs Jennie Williams. Enillwyr y raffl oedd:- Mrs Buddug Hughes, Mrs Bet Roberts a Mrs Gwyneth Price.

Cafwyd pnawn hynod o ddymunol, pleserus a chartrefol dros ben.

# BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched** Trefnodd y Llywydd, Pat Jones, Swper Hydref fel arwydd o ddiolchgarwch i'r aelodau am eu cefnogaeth, eu caredigrwydd a'u parodrwydd i gefnogi holl weithgareddau y flwyddyn. Mwynhaodd pawb bryd gwerth chweil. Diolchwyd yn gynnes i Pat am y noson a llongyfarchwyd hi am ei gwaith fel Cadeirydd Sir yng Nghyfarfod Hydref Sefydliad y Merched yn Ysgol Brynrefail.

Yn dilyn roedd cyflwyniad arbennig wedi ei baratoi gan Anita Long yn dangos gweithgareddau'r Ffederasiwn drwy'r flwyddyn ynghyd â chyflwyniad am Goleg Denman.

**Profedigaeth** Ar Fedi'r 11eg, bu farw Dr Lionel Bloodworth, priod Heather Bloodworth a fagwyd yn Y Gors. Rydym oll yn cydymdeimlo yn ddwys â Heather a'r ferch Hannah, ei fam yng nghyfraith Phyllis Jones a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Dymuna Heather ddiolch o waelod calon am y llu arwyddion o gydymdeimlad a'r rhoddion hael dderbyniodd er cof am Lionel gan drigolion yr ardal. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Yr Eglwys Bresbyteraidd**
Blychau Nadolig Bydd yr aelodau eleni eto yn ôl yr arfer yn ymuno i baratoi Blychau Nadolig. Cysyllter â Jennie Angharad Roberts am y manylion. ( Ffôn 871141).

Henaduriaeth Arfon Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Henaduriaeth yn ein chwaer Eglwys, Capel y Rhos, ddydd Mawrth, Hydref 22ain, dan lywyddiaeth Lowri Roberts Williams. Yn bresennol hefyd roedd Jennie Angharad Roberts a Gwyn Hefin Jones a etholwyd i wrando Hanes yr Achos yn y Capel Coch yn Hydref 2014. Yn oedfa arbennig yn yr hwyr, ordeiniwyd Falmai Pritchard, Capel Coch, yn flaenor gan Lywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, Mr Huw Tudor, Pwllheli.

**Oedfaon Tachwedd**

| | |
|---|---|
| 3 am 5.30: | Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan |
| 17 am 2: | Parch John Pritchard, Llanberis |
| 24 am 5.30: | Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog) |

J2O Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau Racca
(Alwyn a Sarah Jones)
Ffôn: 870605
• Basgedi Planhigion
• Planhigion Gardd
• Basgedi Crog
• Hefyd, Compost ar werth
RHODD O'R GALON YW BLODAU



Eco Tachwedd 2013.indd 10 29/10/2013 08:30

**Ymddiheuriad.**

***Dymunwn ymddiheuro i Caroline Wigley, perchennog yr hen gapel yn Ninorwig am gyhoeddi gwybodaeth yn rhifyn Hydref oedd yn ffeithiol anghywir ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig yno. Isod, rydym yn falch o gyhoeddi ymateb y perchennog, sy'n dod yn wreiddiol o'r Iseldiroedd, ond wedi byw yng Nghymru am y deng mlynedd ar hugain diwethaf.***

**Datblygiadau yng Nghapel Dinorwig.**

Deallaf fod gan breswylwyr Bro Elidir bryderon ynglŷn â datblygiad arfaethedig yr hen gapel, o ganlyniad i anwireddau a chamddehongli gwybodaeth yn Eco'r Wyddfa, Hydref 2013.

Nodwyd yn yr Eco na fyddai yna unrhyw gyfleusterau parcio ar y safle, ac yn ogystal â llety gwyliau hunanarlwyol 7 ystafell wely byddai fflat yno hefyd. Awgrymwyd yn erthygl yr Eco y byddai'r datblygiad hwn yn cael effaith niweidiol ar iaith a diwylliant Cymru hefyd.

Bu'r capel yn sefyll heb ei ddefnyddio ers chwarter canrif o leiaf a'i gyflwr yn gwaethygu'n gyflym. Fy mwriad yw diogelu ymddangosiad ysblennydd y capel er parch i'r dreftadaeth sydd yn gysylltiedig â'r adeilad, tra'n mynd ati i atgyweirio'r safle i lety modern ac apelgar.

Hoffwn gyfeirio at y cais cynllunio C13/0145/18/LL, sydd yn datgan yn glir y darperir lle parcio ar gyfer 5 o geir o leiaf, ac na fydd fflat yn cael ei gynnwys yn ychwanegol i'r llety gwyliau.

O safbwynt yr effaith ar iaith a diwylliant Cymru, fy mwriad yw creu llety apelgar ac oddi yno ddangos prydferthwch Cymru i ymwelwyr gan hyrwyddo'r gorau sydd gan Gymru i'w gynnig. Rwy'n byw yng Nghymru ers deng mlynedd ar hugain ac yn falch o fod yn rhan o'r wlad arbennig hon gyda'i hiaith a'i diwylliant hynafol, ac ni fuaswn yn dymuno niweidio hynny mewn unrhyw ffordd. Mae'r Iseldiroedd yn denu dros 11 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac nid yw hyn yn cael effaith niweidiol ar iaith a diwylliant y wlad honno. Rwy'n sicr bod hyn yn wir hefyd pan ddaw pobl o'r Deyrnas Unedig ac o wledydd Ewrop i ymweld â Chymru.

**Llongyfarchiadau** Daeth llwyddiant mawr i un a gysylltir â Dinorwig yn ddiweddar yn Noson Baftas Cymru. Enillodd Mei Williams wobr y Cyfarwyddwr Ffeithiol gorau a'r Ffotograffiaeth Ffeithiol gorau am y rhaglen Fy Chwaer a Fi. Roedd wedi ei henwebu fel y rhaglen ddogfen orau. Gwobrwywyd hi fel y ffilm orau yn y Celtic TV and Film Awards, derbyniodd hefyd y fedal aur yn y New York Festival and International Awards a daeth ymysg y tri uchaf yn y Royal TV Awards yn America.

Mab i'r diweddar Irfon Williams, 2 Bro Elidir gynt yw Mei ac ŵyr i'r ddiweddar Mrs Nellie Williams. Fe dreuliodd Mei dipyn o amser yn Ninorwig yng nghartref ei daid a'i nain a bu'n ymwelydd cyson â'i nain yn Rhydfadog, Deiniolen. Bu farw Irfon, ei dad, tra roedd Mei yn ffilmio gyda'r merched yn Fy Chwaer a Fi.




Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei lwyddiant ysgubol oddi wrth bawb ym mro'r Eco.

**Marwolaeth** Ar 23ain o Fedi clywsom am y newydd trist o farwolaeth Mr Reginald K. Jones, 9 Bro Elidir, yn 66 mlwydd oed. Yr oedd yn andros o sioc i'r ardal gan ei fod allan yn diwrnod cynt, fel yr oedd wedi arfer â bod. Cydymdeimlwn yn fawr â Heulwen ei gymar, Douglas ei frawd, a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Bu'r gwasanaeth claddu yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun ar 1af Hydref, lle y daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu eu teyrnged olaf iddo. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent yr Eglwys. Gobeithiwn i'r teulu oll gael nerth oddi uchod i ddal y golled fawr. 'Hedd, perffaith Hedd'.

**Llongyfarchiadau mawr** i Mrs Priscilla Williams, Wylfa, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed ar 24ain o Hydref. Gofynnais iddi y dydd o'r blaen sut yr oedd yn teimlo a'r ateb sydyn iawn a gefais oedd 'Champion, ac yn bwyta fel ceffyl.' Diolch i Dduw am roi mab fel Alwyn iddi, a'i fod yntau yn hynod o garedig hefo hi, yn rhoi cant y cant iddi bob amser. Mrs Williams, mewn llai na blwyddyn rŵan fel gewch air gan y Frenhines. Gobeithio y bu ichwi fwynhau eich diwrnod ac y cewch nerth ac iechyd i'r dyfodol, ac yn sicr, diolch i Alwyn am y caredigrwydd mawr y mae yn ei roi i'w fam.

**Diolchgarwch** Dyma ni yn awr yn nhymor yr Hydref, a'r dail yn disgyn fel carped ar y ddaear, a'r lliwiau yn hynod o dlws ac yn dangos natur ar ei orau. Ar nos Sul, 13eg Hydref, cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Ebeneser Deiniolen lle y daeth cynifer dda ynghyd. Cymerwyd y rhan agoriadol gan y plant a'r oedolion wedyn. Rhaid canmol y plant, yr oeddynt yn dda iawn a mwy na hynny, yr oeddynt yn gwybod sut i ymddwyn. Da iawn chi, blantos. Cyfarfod bendithiol iawn a diolch i'r rhai a fu yn dysgu y plant.

## Reginald Kaityn Jones

*23in Medi 2013.*

Gwnaeth Brenin y nefoedd ei alw,
yn gynnar ar fore dydd Llun,
dim gair o ffarwel a gawsom,
mor dawel ar ben ei hun.

Roedd yn gymar a ffrind arbennig,
mêt pennaf John How, Twm a Sal,
llys-dad caredig ac annwyl,
'Doedd dim gwell taid i'w gael.

Roedd wedi ymddeol o'r Heddlu,
ar ôl bod yn blismon y fro,
Reg ''Plisman'' oedd pawb yn ei alw,
gwnâi hynny Reg wenu bob tro!

Huw Pritchard, Jerry Fox a Reg oedd y tri,
oedd yn mynd allan â'i gilydd am bryd!
ond heno mae Jerry a Reg yn y nen,
yn dawel, dawel iawn ei byd.

Dwi di aros yn nghartref fy chwaer a Reg,
dod â'm cŵn yn gwmpeini ar y daith,
roeddem i gyd yn cael croeso mawr,
ond gwaith carthu o'r ffrynt lawer gwaith.

"Gwaith carthu yn y ffrynt na," medd Reg,
y cŵn wedi bod yn brysur,
mae hynny'n dod â gwên i mi,
Diolch i'r drefn, mae'r cŵn heno'n gysur.

Mae aelwyd fy chwaer yn wag heno,
a'i chalon wedi torri yn ddwy,
Dy deulu, dy ffrindiau'n galaru,
Ond y Brenin oedd ei eisiau fwy.

Cwsg yn dawel Reg.
Gan Maria Papadakis (Pen-Lan)



Eco Tachwedd 2013.indd 11 29/10/2013 08:30



# CHWILOTA

## Cymdeithas Caredigion Dinorwig.

Soniais y mis diwethaf fel yr oedd rhai cannoedd o gymdeithasau cyfeillgar wedi eu sefydlu gan weithwyr cyffredin mewn gwahanol ardaloedd trefol a diwydiannol led-led y wlad. Erbyn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd dros 27,000 wedi eu cofrestru ym Mhrydain. Ac fel y gallesid disgwyl, yn ôl y natur ddynol, roedd posibilrwydd i gronfa ariannol nifer ohonynt fod yn agored i dwyll a lladrad!

Yn 1875 pasiwyd Deddf y Cymdeithasau Cyfeillgar ac atodiad i'r ddeddf honno y flwyddyn ddilynol. Roedd y deddfau hyn yn gosod canllawiau a rheolau ynglŷn â'r modd yr oedd y gwahanol gymdeithasau i'w rhedeg, ac yr oedd rheidrwydd cyfreithiol iddynt i gofrestru a chadw cyfrifon a fyddai'n cael eu harchwwilio'n flynyddol.

Tynnwyd fy sylw at rai o broblemau cymdeithasau cyfeillgar lleol yn ystod y cyfnod hwn gan Hywyn Williams (Deiniolen gynt), a mawr fy niolch iddo am yr holl gyfeiriadau.

Mae'n ymddangos fod gwaith rhai o'r cymdeithasau hyn yn cael ei ddyblygu gan ddulliau gweithredu y Byrddau Gwarcheidwaid lleol, sef y rhai oedd yn gyfrifol am y tloty neu'r wyrcws fel y gelwid ef yn gyffredinol. Y Wyrcws yng Nghaernarfon oedd yn gofalu am anffodusion plwyfi'r ardal hon. Ond roedd aelodaeth o gymdeithas gyfeillgar yn golygu fod unigolion a oedd angen cymorth ariannol mewn cyfnod o ddiweithdra neu salwch, yn debygol o beidio cael budd gan y Bwrdd Gwarcheidwaid. Codai hyn y cwestiwn (sy'n dal i gael ei ofyn heddiw!): pwy oedd yn haeddu cymorth – y rhai oedd yn cyfrannu dim at warchod eu dyfodol neu'r rhai oedd yn arbed ychydig arian yn wythnosol neu'n fisol, ac yn cael eu gwrthod gan y wlad am fod ganddynt rhywfaint o arian wrth gefn?

Daw'r cwestiwn oesol hwn i'r amlwg mewn llythyr yn Y Genedl ym mis Ionawr 1891. Mae'n amlwg fod nifer o gymdeithasau cyfeillgar yr ardal wedi cyfarfod i drafod eu dyfodol. Yn festri capel y Methodistiaid, Cwm y Glo, y cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw ar 17eg o Ionawr. Cynrychiolwyr y gwahanol gymdeithasau lleol oedd yn bresennol (fe'u gelwir yn Gymdeithasau y Cleifion, oherwydd mai eu prif amcan oedd cynnig cymorth ariannol mewn cyfnod o salwch neu gyfnodau di-waith o ganlyniad i ddamweiniau yn y chwarel). Y cymdeithasau a ddaeth at ei gilydd yng Nghwm y Glo oedd Cymdeithas Glannau Gwyrfai, Cymdeithas Caredigion Nant Padarn, Cymdeithas Gyfeillgar Cwmyglo, Cymdeithas Dinorwig a'r amgylchoedd, Cymdeithas Glannau Rhyddallt a Chymdeithas Caredigion Dinorwig.

Amcan y cyfarfod oedd "ystyried y priodoldeb a'r posibilrwydd i'r gwahanol gymdeithasau cyfeillgar yn y cymdogaethau hyn feddu mwy o undeb a chydweithrediad tuag at ddwyn ymlaen yn fwy cyflawn ac effeithiol ymysg ein cydweithwyr, amcanion ardderchog y cymdeithasau dyngarol hyn."

Yn dilyn y cyfarfod, anfonwyd sylwadau i Fwrdd Gwarcheidwaid Undeb Caernarfon. Mae'n werth dyfynnu'r rhan olaf o'r sylwadau: "Y mae aelodau'r cymdeithasau hyn … yn ymdrechu darbod oreu y gallant ar gyfer dyddiau blin drwy fod yn aelodau cyson o Gymdeithas Gleifion; eto, os gorfodir hwy dan amgylchiadau cyfyng i apelio at warcheidwaid y plwyf am gynorthwy, deuant i deimlo fod eu haelodaeth mewn Cymdeithas Gleifion yn anfantais iddynt lwyddo yn eu cais, ac ymddygir gyda mwy o dynerwch a haelfrydedd at bersonau na fyddont yn aelodau. …. Addefir yn gyffredinol fod y cymdeithasau yn arbediad dirfawr i drethi ein gwlad … a'u haelodau yn haeddiannol o barch am eu hymdrech i fod yn hunan-gynhaliol."

Beth tybed oedd ymateb y Bwrdd Gwarcheidwaid?

Ond o fewn cwta dair blynedd i ddyddiad y cyfarfod hwn roedd Cymdeithas Caredigion Dinorwig mewn trafferth. Roedd Prif Gofrestrydd y Cymdeithasau Cyfeillgar yn gosod gwaharddiad o dri mis ar Garedigion Dinorwig rhag gweithredu oherwydd " after notice from a Registrar, violated the provisions of the Act (sef Deddf 1875) in respect of the valuation of its assets and liabilities." Dyddiad y gwaharddiad oedd 16eg Ionawr 1893. Mae'n amlwg fod y Gymdeithas, hyd yn oed ar ôl derbyn rhybudd, wedi torri rheolau Deddf y Cymdeithasau Cyfeillgar. Ond pa reolau? Pa fath o gam-ymddwyn a fu – gweinyddol neu waeth? Bydd angen llawer mwy o waith chwilota i ddarganfod beth ddigwyddodd ar derfyn y tri mis gwaharddiad.

Yn ôl Hywyn Williams, roedd eraill o gymdeithasau'r ardal mewn trafferthion yn ystod yr un flwyddyn. Mae'n enwi rhai Rhiwlas, Bethesda a Llanberis. Tybed oes gwybodaeth ar gael am yr holl gymdeithasau lleol a enwir uchod?

## Llun cynnar o Fetws Garmon.

Llun o eiddo teulu Williams, Gilwern Uchaf, Rhostryfan, gyda diolch am y cyfle i'w gopio. Y dyddiad o dan y llun mewn ysgrifen copperplate yw 10 Awst 1883.. Bettws Garmon photographed by I. Ninsley sydd oddi tano.

Cyfrannwyd y llun gan Gwilym Lloyd Williams, a diolch i Duncan Brown am ei anfon ymlaen.

Dyma'r argraffiadau cyntaf: mae cledrau rheilffordd Lein yr Ucheldir i'w gweld i'r chwith o'r ffordd. Nid yw tyllau mwynglawdd haearn Moel Eilio wedi eu creu. Mae cof-golofn Owain Gwyrfai yn ymddangos ym mynwent yr eglwys. Bu farw yn 1874 naw mlynedd cyn tynnu'r llun. Dydd Gwener oedd y 10 Awst 1883. Mae'r bobl yn ei gwisg "dydd Sul" - achlysur arbennig tybed? Os ydi'r dyddiad yn iawn ffrwydrodd llosgfynydd Karakatoa dair wythnos yn ddiweddarach.





Eco Tachwedd 2013.indd 12 29/10/2013 08:30

## CHWILOTA
*Parhad*

# Llyfr o ddiddordeb i haneswyr y diwydiant llechi.

Mae'r hanesydd lleol dyfal, Reg Chambers Jones o Gaeathro wedi cyhoeddi cyfrol arall a fydd o ddiddordeb i nifer o fro'r "Eco". Teitl ei lyfr diweddaraf yw "Port Dinorwic: an illustrated history." Mae'n olrhain hanes y pentref o 1850 am dros ganrif, ac yn dangos sut y datblygodd dau bentrefan bychan ar lannau'r Fenai i ddod yn borthladd llechi gyda'r pwysicaf i allforio llechi i bedwar ban byd. Ond nid ar lechi yn unig mae'r llyfr yn ganolbwyntio. Ceir yma hefyd hanes yr holl ddiwydiannau eraill a ddatblygodd yn sgil yr allforio llechi – adeiladu llongau, masnach a'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig ac unrhyw borthladd. Mae'n llyfr clawr caled o tua dau gant o dudalennau a llawer iawn o luniau nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen. Pris y gyfrol yw £18.99 ac mae ar gael yn eich siopau llyfrau lleol neu gan Bridge Books, Wrecsam.

# Mwy o hanes Emmanuel Williams, Ebenezer.

Gan Hywyn Williams eto, y daeth gwybodaeth fwy manwl am Emmanuel Williams, neu Manuel fel y caiff ei alw yng nghofnodion y 'Service Records'. Aelodau o Gapel Cefn-y-waen oedd y teulu, ac y mae coffa amdano ar gofeb y capel. Roedd gan y teulu un ar bymtheg o blant, ond bu farw chwech ohonynt yn fabanod. Ar wahan i Emmanuel, roedd pump eraill o'i frodyr yn ymladd yn y Rhyfel Mawr. Eu henwau oedd David Williams, 41 oed. Ymunodd â'r fyddin yn Canada a daeth drosodd i Ffrainc gyda'r Canadian Engineers. Thomas Williams (39 oed) oedd gyda'r RWF. John Williams (37 oed) a fu'n gwasanaethu yn Cairo gyda'r RWF. Griffith Williams (32 oed), yn Ffrainc gyda'r RWF. Robert Williams (25 oed) yn Ffrainc gyda 10fed Bataliwn RWF.

Ar y 6ed o Fai 1917 cynhaliwyd gwasanaeth coffa am Emmanuel Williams yng Nghapel Cefn-y-waen. Fe'i claddwyd yn Fanbong, Ffrainc.

Daeth gwybodaeth hefyd gan Dennis Jones, Bonc, Bryngwyn, yn nodi mai ei daid, Griffith D. Williams oedd brawd Emmanuel. Roedd yn cael ei adnabod fel Guto Daf., sef teulu Tanrallt, Bryn Bras, Cwm y Glo.

Aelod arall o'r un teulu i ymateb oedd Eleri Jones, Llanelwy. Meddai, " Roedd Emmanuel Williams yn frawd i fy nain (Mary Edwards, Gallt y Foel, neu 8 View Terrace yn ddiweddarach) Mae gen i gof plentyn o weld cerdyn tebyg i`r un oedd yn yr Eco yn nhy fy nain er fy mod yn meddwl fod llun o Yncl Mani ar hwnnw.

Bydd pobl Deiniolen yn cofio Jack Afon Goch neu i roi ei enw cywir John Emmanuel Williams. Roedd ei dad yntau yn frawd i Emmanuel Williams a thebyg iddo gael ei enwi ar ol ei ewythr."

Gyda diolch i'r tri ohonoch am y wybodaeth.

Mae Hywyn yn holi hefyd beth sydd wedi digwydd i gofeb Capel Cefn-y-waen. Mae'n amau tybed a drosglwyddwyd hi i Gapel Ebenezer.

A dyna'r cyfan am y mis hwn. Anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth am agweddau o hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffon: 01286 673515.


**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE, Llanberis**
**Ffôn: (01286) 870202**
TREFNWYR ANGLADDAU


## Hywel Williams as yn ymweld â siemens yn Llanberis i ddiolch i'r cwmni am eu buddsoddiad yn arfon




*Chwith i'r dde; Osborn Jones, Alun Ffred Jones AC, Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Sian Gwenllian, Rheolwr Gyfarwyddwr Siemens, Dr Fraser Logue a Hywel Williams AS.*

Mae Aelod Seneddol Plaid Cymru dros etholaeth Arfon, Hywel Williams AS, wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o gwmni Siemens Healthcare Diagnostics Products Cyf, sydd â safle yn Llanberis, i'w llongyfarch ar lwyddiant y cwmni a'u buddsoddiad parhaol yn yr ardal.

Yn arfer cael ei adnabod fel Euro/DPC, agorwyd y safle yn Llanberis yn 1992 ac mae wedi derbyn nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr y Frenhines am Gyrhaeddiad Allforio a Gwobr Cyrhaeddiad Busnes y Daily Post. Mae'r ffatri yn cynhyrchu a dosbarthu stribedi IMMULITE® ar gyfer teclynnau cynnal profion gwaed mewn ysbytai a chlinigau ar draws y byd er mwyn helpu i ddarganfod cyflyrau meddygol. Cyfloga y safle yn Llanberis dros 400 o bobl.

Ymhlith yr ymwelwyr gyda Mr Williams `roedd Osborn Jones a'r Arglwydd Dafydd Wigley, dau ffigwr allweddol yn natblygiad y safle gwreiddiol.

Dywedodd Mr Williams, "Rydym yn lwcus iawn o gael cwmni blaenllaw wedi ei leoli yma yn Llanberis, yn cynnig gwaith tra medrus i bobl leol. Mae eu llwyddiant parhaus yn dangos eu hagwedd dyfeisgar tuag at fusnes, ac mae eu presenoldeb yn yr ardal yn dynodi'r cyfraniad pwysig maent yn ei wneud i'r economi leol."

Ychwanegodd Mr Williams, "Roeddwn yn falch iawn o gael ymweld â Siemens yn Llanberis i gael gweld fy hun y rhan bwysig mae'r cwmni'n chwarae yn y diwydiant diagnostig meddygol. Buaswn yn hoffi estyn fy ngwerthfawrogiad i Dr Fraser Logue, Rheolwr Gyfarwyddwr Siemens, ynghyd â'i dîm am wneud yr ymweliad yn un addysgiadol a dymunol."

Dywedodd Mr Williams, "Mae'n holl-bwysig ein bod yn perswadio cwmniau i fuddsoddi yn yr ardal yma er mwyn dod a swyddi a thyfiant i'r ardal wledig yma o Ogledd Cymru er mwyn defnyddio'r gweithlu cyflogadwy sydd yma yn Arfon."

## Cyngerdd Cofio John
**(Plisman, Nant y Glyn, Llanrug)**
**29 Tachwedd am 7 yh**
**Eglwys St Padarn, Llanberis**

Bydd yr holl elw yn mynd at Tŷ Gobaith, yn ôl dymuniad John oedd wedi trefnu y cwbwl ond, yn anffodus, wedi ei golli cyn iddo wireddu ei ddymuniad.

Yn cymryd rhan fydd Elfed Morgan Morris, Elin Mai, Tra bo 3 a Trio ac Annette Bryn Parri.

Hefyd bydd Lleisiau Llanbabs, ynghyd ag eitemau gan ddisgyblion Ysgol Brynrefail.

Yn fwy na dim, bydd Siôn Corn yn ymweld.

Pris Tocyn fydd £10.


**TM JONES**
SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD
**SYMUD A CHADW**
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
**01248 430126 · 07786176866**
thomasmeredydd@btinternet.com




Eco Tachwedd 2013.indd 13 29/10/2013 08:30

## LLANRUG Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384



*Parti Calan Gaeaf Cylch Ti a Fi*



*Taith Gerdded Calan Gaeaf Cylch Meithrin*

### Cylch Ti a Fi

Dewch i gael hwyl a sbri yn Cylch Ti a Fi, Festri Capel y Rhos,Llanrug. Mae'r cylch yn cyfarfod ar brynhawn Dydd Mawrth 1 - 2.30 ac ar fore Dydd Gwener 9 - 10.45.

Croeso cynnes i fabis a phlant i hyd at 4 oed. Dewch am weithgareddau, paned a sgwrs.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

**Cylch Meithrin** Llanrug Croesawyd 20 o blant bach newydd i'r Cylch ym Medi a phob un wedi setlo yn hapus erbyn hyn. Hefyd mae 25 o blant 'mawr' yn dod yn ôl atom i gael cinio ar hyd yr wythnos.

Mae'r cylch erbyn hyn yn rhedeg menter pêl bonws y loteri cenedlaethol – os oes diddordeb gan unrhyw un i brynu rhif a chael cyfle i ennill gwobr ariannol ar nos Sadwrn a chasglu arian i'r Cylch cysylltwch ag Anti Gwen yn y Cylch. Yr enillwyr lwcus hyd yn hyn: Hydref 5ed -Gwenno Mai Owen, Hydref 12fed – Emma Hoban.

Bu Anti Nichola yn wynebu her **Triathlon Llanc Y Tywod,** Ynys Môn yn Niwbwrch a thraeth Llanddwyn ddydd Sul, Medi 22ain – diolch i bawb am ei noddi gyda'r arian yn mynd at brynu adnoddau yn y Cylch.

Cynhelir noson Cwis a Chyri yn Y Glyntwrog am 7y.h Nos Wener, Tachwedd 8fed, am £10 y tocyn sy'n cynnwys cyri a 2 docyn raffl – holwch yn y cylch am docyn, croeso cynnes i bawb.

Golygfa ofnus iawn oedd yn Llanberis fore Sadwrn, Hydref 19ain, pan ddaeth criw o blant a rhieni'r Cylch a'r Clwb Cinio ar daith gerdded Calan Gaeaf ar hyd llwybr beics Llanberis. Roedd nifer fawr o'r plant wedi gwisgo i fyny a phawb wedi mwynhau 'hot dogs' wrth y llyn i gynhesu ar ddiwedd y daith.

Cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor y Cylch nos Fawrth, Medi 24ain, a braf iawn oedd gweld wynebau newydd yn barod i gefnogi gwaith y Cylch. Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth, Tachwedd 12fed am 7 y.h yn adeilad y Cylch – croeso cynnes i bawb.

**Ysgol Gynradd** Cynhaliwyd noson sinema yn yr ysgol. Daeth nifer o blant i fwynhau ffilm yng nghwmni eu ffrindiau. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at yr ysgol. Bu'n noson lwyddiannus iawn. Diolch i bawb a gefnogodd.

Cafodd y plant wisgo dillad eu hunain i ddod i'r ysgol ar ddiwrnod boreau coffi Macmillan gan dalu £1 am y fraint. Llwyddwyd i godi £220 tuag at yr elusen. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Aeth tîm o enethod blwyddyn 6 i gystadlu yn nhwrnamaint pêl-rwyd dalgylch Arfon. Ymdrechodd y tîm yn dda gan lwyddo i ennill dwy gêm, dod yn gyfartal mewn dwy gêm a cholli dwy gêm. Diolch iddynt am eu gwaith a'u hymdrech a diolch hefyd i Miss Catrin Jones am eu hyfforddi.

**Merched y Wawr** Nos Fercher, Hydref 9fed, aeth nifer fawr o aelodau i ymweld â Llys yr Ynadon, Caernarfon, a agorwyd yn 2009. Braf oedd gweld Dehongliad Mosaic gan blant blwyddyn 5 a 6, 2009 Ysgol Penisarwaun ynghyd ag englyn y Prifardd Hilma Lloyd Edwards:

Esgyn o lwch yr Ysgol – i ffynnu
 fel ffenics chwedlonol,
 haenau dysg a edy'u hôl
 o hyd ar y dyfodol.

Cawsom groeso mawr gan Ffion Williams, Rheolwr gweithrediadau Gwasanaeth y Llysoedd, Gogledd Cymru. Tywyswyd ni drwy Lys yr Ynadon, sy'n agored yn ddyddiol i'r cyhoedd. Yna i Lys y Goron, dyma'r man i bledio'n euog.

Dyma englyn y Prifardd Ifor ap Glyn i'r Barnwr:

Er y daw ef i'n rhoi o dan – y cledd
 sydd fel clo i'r cyfan
 Y rheithgor biau'r glorian
 a'n braint yw fod pawb â'i ran.

Yma roedd y Doc Mawr, y Barnwr a'r Rheithgor. Roedd dan fwth cyfieithu gan fod angen cyfieithu llawer o ieithoedd ar brydiau!

Yna i lawr â ni i'r Celloedd – doedd dim moethusrwydd i'w weld yma! Does neb yn cael eu cadw yn y celloedd dros nos – bydd y troseddwyr yng Ngorsaf yr Heddlu. Roedd pawb yn falch o ddod yn ôl i'r fynedfa ac yn barod i sleifio adre'n reit sydyn. Diolchwyd i Ffion am noson addysgiadol dros ben gan Phyllis.

Cynhelir Noson y Cwis Genedlaethol ar Tachwedd 15fed yn Seiont Manor am 6.45 – gyda bwyd am 7 o'r gloch a'r cwis i ddechrau am 8. Enwau ac archeb bwyd i Linda neu Olwen - £8 y pen – salad ham a caws, bara cartref, sglodion a phaned. Noder os oes angen pryd llysieuol.

Cynhelir Cwrs Sgriptio fore Sadwrn, Tachwedd 16eg, yn Galeri Caernarfon. Casglwyd £150,000 tuag at Gymorth Cristnogol gyda'r gweithgaredd Bagiau. Gellir bidio am y bagiau ar wefan MYW – cyfle i brynu bagiau drudfawr.

Dethlir y Nadolig gyda Chinio Nadolig yn y Black Boy, Caernarfon ar Ragfyr 10fed – gofynnir am flaendal o £10 yng nghyfarfod Tachwedd. Llongyfarchwyd Carrie ar ei phen-blwydd arbennig a llongyfarchwyd Mary a Meurig Parry ar eu Priodas Aur.

Atgoffir Genod Penisarwaun mai eu tro hwy yw gofalu am y te a'r raffl ar 12fed o Dachwedd pryd y bydd Mandy Watkins yn dod atom i siarad am 'Addurno Tŷ'.



Eco Tachwedd 2013.indd 14 29/10/2013 08:30

**Diolch** Dymuna Mary a Meurig Parry, Gwêl Fynydd, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a blodau ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch o galon i bawb.

**Cyfarchion Nadolig** Fe ddymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, anfon Cyfarchion y Tymor, Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn gallu anfon cardiau eleni.

**Dymuna** Gertie ac Ellen, 4 Hafan Elan, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am na fyddant yn gyrru Cardiau Nadolig eleni.

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Mrs Gwennie Morris, Cadfan, Ffordd Glan Moelyn. Mae wedi bod yn yr ysbyty a chael triniaethau maith dros gyfnod hir. Cofion gorau atoch, Gwennie, a brysiwch wella.

**Profedigaeth** Yn annisgwyl ar ôl gwaeledd byr bu farw Eddie Pugh, 32 Glanffynnon. Eddie yn ŵr teulu ac wrth ei fodd hefo tŷ llawn o blant, wyrion a wyresau. Mae yn amlwg ei fod yn boblogaidd iawn o weld y nifer fawr o deulu, ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion a ddaeth i'r angladd i dalu eu teyrnged olaf iddo. Cydymdeimlwn yn arw iawn â'i briod, Rhydwen, Caryl, Jacqueline, Carys, Alyn a Gwenlli, y plant a'r wyrion a'r wyresau, ei frawd Melfyn, a'i chwaer Jane a'u teuluoedd hwythau.

**Genedigaeth** Llongyfarchiadau mawr i Gwenlli (Pugh) a Siôn ar enedigaeth mab bychan sydd wedi ei enwi yn Edi Siôn, ar ôl taid. Brawd bach annwyl ac ŵyr hynod o arbennig i Rhydwen. Pob bendith a dymuniadau gorau i'r holl deulu.

Croeso Mawr! yn ôl i Lanrug i Doreen a Robin Thomas. Maent wedi ymgartrefu yn hen gartref Doreen, sef Bryn Gro, Ffordd Glanffynnon. Pob dymuniad da iddynt.

**Ffair Grefftau** Cynhelir Ffair Grefftau/Cynnyrch yn Ysgol Gynradd Llanrug ar 21 Tachwedd am 6.30 o'r gloch. Os oes gennych ddiddordeb mewn gosod stondin am £10, gellir cysylltu â Donna ar 07966805229 neu ebost ar robertsjones.donna@yahoo.co.uk

Mae tocynnau ar gyfer ymweld â'r ffair ar gael o'r ysgol neu gellir talu wrth y drws am £2.50 (gan gynnwys te/coffi/mulled wine/mins pei a raffl).

**Bore Coffi MacMillan** Cynhaliwyd Bore Coffi Macmillan yn y Sefydliad Coffa ar Fedi 27. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Llwyddwyd i gasglu £504.75.

Enillwyr y Raffl oedd: Taleb Caffi'r Felin: Margaret a Jim; Potel o ddiod: Mary, Bethel; "Toiletries": Betsan Teifi; Llun: Helen Parry; Gwin: Elgan Jones, Tregarth; Gwin: Eirianwen Thomas.

**Plaid Cymru** Enillwyr Clwb Cant Mis Hydref: 1. Mair Parry; 2. Valmai Owen.

**Y Sefydliad Coffa** Enillwyr Clwb Cant Mis Medi: 1. Mrs M. Parry, Wenllys; 2. Sharon Owen, Bro Rhyddallt; 3. Mrs M. Roberts, Tai Minffordd.

**Llongyfarchiadau** i Meryl a Frank Green, Annedd Wen, Pontrug, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd Gruffudd, mab bach i Ieuan a Michelle a brawd bach i Nia. Mae'r teulu bach yn byw yn Nulyn, Iwerddon. Pob dymuniad da iddynt.

## Capel y Rhos

**Priodas** Ar Fedi 21ain, priodwyd Siôn Arfon Stokes, Llanrug ac Eleri Williams, Penisa'rwaen. Gweinyddwyd gan y gweinidog, y March Marcus Wyn Robinson a'r organydd oedd Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Maent wedi ymgartrefu ym Mhenlôn, Bryngwyn, gyda'u mab bach, Ilan. Dymuniadau gorau iddynt.

**Diolchgarwch** Cafwyd oedfa fendithiol iawn, fore Sul, Hydref 20fed. Cyflwynwyd eitemau ar lafar ac ar gân gan blant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Cyflwynodd Mr Andrew Settatree neges amserol iawn i'r gynulleidfa a chafwyd gair o ddiolch gan ein Gweindiog, y Parch Marcus Robinson. Eleni eto, daeth y plant a'r aelodau â rhoddion o fwyd o bob math a'u cyflwyno i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Mae'r Banc Bwyd erbyn hyn yn fodlon derbyn rhoddion ariannol yn ogystal â nwyddau ar gyfer babis bach a phlant ifanc iawn. Diolch i bawb am fod mor hael tuag at achos mor deilwng. Byddwn yn parhau i gasglu bob Sul a gwerthfawrogir eich cefnogaeth arferol.

Yr Henaduriaeth Croesawyd Henaduriaeth Arfon i Gapel y Rhos ar Hydref 22ain. Llywyddwyd gan Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Yn ystod cyfarfod yr hwyr ordeiniwyd Mrs Valmai Pritchard, Llanberis, yn flaenor ar gyfer Capel Coch. Paratowyd lluniaeth i bawb rhwng y ddau gyfarfod. Diolch o galon i aelodau'r capel am baratoi y wledd ac am weini wrth y byrddau.

Mae Mr Richard G Jones, Tegerin, Tal y Bont bellach wedi symud i fyw at ei ferch Anwen a'r teulu yn Llanrwst. Roedd yn un o'n haelodau ffyddlonaf yn y capel ac fe fydd colled mawr ar ei ôl. Diolch iddo am ei gefnogaeth i'r achos dros y blynyddoedd a dymunwn bob bendith a hapusrwydd iddo yn ei gartref newydd.

**Oedfaon mis Tachwedd**

3: Y Gweinidsog, y Parch Marcus Wyn Robinson (gweinyddir y Cymun)
10: Miss Llinos Morris
17: Y Gweinidog
24: Parch John Lewis Jones

ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**




**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk




Eco Tachwedd 2013.indd 15 29/10/2013 08:30

# Datblygiadau lleol ar y blaen i weddill Prydain.

**Gwelliannau trin carthion Llanberis.** Dros y dair mlynedd diwethaf mae Dwr Cymru wedi buddsoddi £2.5 miliwn yn rhwydwaith dwr gwastraff yr ardal. Mae hyn yn dilyn y gordyfiant algae yn Llyn Padarn yn 2009 a achosodd gryn bryder i drigolion y fro. Prif achos hyn oedd lefel y maethynnau'n cael eu harllwys i'r llyn o waith trin carthion Llanberis. Mae'r maethynnau hyn i'w cael mewn gwahanol bowdrau a hylif glanhau – y stwff a ddefnyddir gan y mwyafrif helaeth ohonom i olchi llestri a golchi dillad.

Bellach, mae'r maethynnau yn cael eu tynnu allan o'r sustem yn y broses lanhau yn y gwaith trin carthion. Er mwyn galluogi Dwr Cymru i wneud hyn gosodwyd dwy hidlen newydd yn y gwaith trin carthion, ac ar wahan i gynllun peilot a fu'n rhan o arbrawf yn Ardal y Llynnoedd, gogledd Lloegr, dyma'r tro cyntaf i hidlen o'r fath gael ei ddefnyddio yng ngwledydd Prydain. Ond yn ogstal â'r ddyfais arloesol hon, mae camau eraill wedi eu sefydlu i wella'r sustem trin carthion. Mae dwr gwastraff bellach yn cael ei sgrinio cyn cyrraedd y gwaith, ac y mae offer arall, gan gynnwys pympiau a phibellau wedi eu uwchraddio.

Mae'r holl welliannau bellach yn cydymffurfio â'r amodau llym a osodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut mae'r gwaith trin carthion yn cael ei weithredu.

Ond nid dyna ddiwedd y stori …..

## Caru ein Llyn.

Dyma brosiect gyda'i bencadlys yn Yr Hen Ysgol, Brynrefail dan arweiniad Dr Emma Edwards-Jones. Mae'n cael ei ariannu gan Dwr Cymru, ac yn ceisio dwyn perswâd ar drigolion lleol i ddefnyddio llawer iawn llai o ddeunydd golchi sy'n cynnwys maethynnau, ac i wella cynnal a chadw tanciau septig yn yr ardal o amgylch Llyn Padarn. Ffosfad yw un o'r prif faethynnau fu'n cael ei arllwys i Lyn Padarn ac a fu'n gyfrifol am y tyfiant algae hynod yn 2009. Mae'r mwyafrif o lanedyddion peiriannau golchi llestri yn cynnwys hyd at 30% o ffosfadau. Meddyliwch faint o drigolion lleol – yn enwedig gwestai – sy'n defnyddio peiriant golchi llestri yn ddyddiol. Mae Caru ein Llyn yn ceisio perswadio trigolion lleol i ddefnyddio glanedydd fel Ecover nad yw'n cynnwys ffosfad, ond yn glanhau yr un mor effeithiol ac yn costio llai fesul golchiad. Un o'r gwestai lleol sydd wedi newid i ddefnyddio glanedyddion nad ydynt yn cynnwys ffosfad yw Gallt y Glyn, a dywedodd Heidi Petch-Jones y perchennog, *"Mae ein glanedydd golchi llestri llawn cystal os nad yn well na'r un a ddefnyddiem yn flaenorol. Mae'n sicrhau fod y llestri'n lân ac yn disgleirio. Nid yw'n drwm ar y boced, oherwydd mae'n hanner pris y glanedydd blaenorol. Mae hefyd yn wych i achub ein llyn, sydd yr ochr draw i'r ffordd,"*

## Problem y rhai nad ydynt â chysylltiad a charthffos gyhoeddus.

Ar wahan i arllwysiad dwr o waith trin carthion Llanberis i Lyn Padarn, mae nifer sylweddol o dai sy'n gwagio eu carthion i danciau septig. Gall arllwysiad dwr o'r rhain – yn ardal Llanberis, Y Clegir, Y Fachwen a Dinorwig – hefyd fwydo ffosffadau i Lyn Padarn os nad ydynt yn cael eu cynnal yn gywir.

## Cyfrifoldeb Cyfreithiol.

Mae'n ofynnol i berchennog pob tanc septig ei gofrestru gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid meddu ar gynllun cynnal a chadw'r tanc, a rhaid cadw cofnodion am o leiaf 5 mlynedd (e.e. talebau cynnal a chadw, dyddiadau gwagio'r tanc). Rhaid i'r cofnodion hyn gael eu trosglwyddo i'r deiliad newydd pan fydd y tŷ'n cael ei werthu.

Mae Caru ein Llyn wedi cychwyn ar y broses o gysylltu â phob perchennog tanc septig yn yr ardal sy'n amgylchynnu Llyn Padarn. Bydd llyfryn yn cael ei ddosbarthu i bob deiliad. Yn y llyfryn mae gwybodaeth am oblygiadau cyfreithiol, canllawiau ar sut i ofalu am y tanc septig a llyfr log i gadw'r cofnodion angenrheidiol yn Ôl y gyfraith. Ac unwaith eto, dyma'r tro cyntaf yng ngwledydd Prydain i broses o'r fath gael ei lansio.

Ond mae rhai problemau megis gwybod lleoliadau'r holl danciau septig o amgylch y llyn a darganfod y perchnogion, gan fod nifer ohonynt yn debygol o fod yn dai gwyliau. Mae'r Dr Edwards-Jones yn apelio am gydweithrediad y perchnogion ac yn eu hannog i gysylltu â Caru ein Llyn gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol: Ffon: 01286 685501; Gwefan : www.caru-ein-llyn.org. Twitter@llyn padarn neu Facebook.com/llynpadarn

Gyda'r holl ddatblygiadau hyn y gobaith yw y gwelir Llyn Padarn yn glir o unrhyw dyfiant algae yn y dyfodol. Meddai Gwyn Thomas, Uwch-reolwr Cysylltiadau Allanol Dwr Cymru, "Mae buddsoddiad Dwr Cymru, gwaith da Caru ein Llyn a rheolau llymach Cyfoeth Naturiol Cymru wedi helpu eisoes i sefydlogi cyflwr y llyn."

(Pawb a'i fys lle bo'i ddolur medd yr hen air, ac y mae dwy ochr i bob stori. Darllenwch hefyd sylwadau Huw Hughes yn ei golofn Ar ben arall i'r lein" ar dudalen 33 Golygydd).












Eco Tachwedd 2013.indd 16 29/10/2013 08:30




**Stagio Dre** Mae Stagio Dre yn llyfr o atgofion, llyfr taith a llyfr hiwmor gan un o gymeriadau amlycaf Caernarfon, Emrys Llewelyn. Wrth gael ein tywys o amgylch hen dref y Cofis cawn hanesion difyr am adeiladau, afonydd, tai potas a chymeriadau Caernarfon ynghyd â phytiau bywgraffyddol ac atgofion doniol a chofiadwy gan yr awdur.

## Hywel Williams as yn cefnogi ymgyrch Canser y Fron ac yn diolch i wirfoddolwyr Arfon




Mae Aelod Seneddol Arfon, Hywel Williams AS, wedi ymuno â'r frwydr yn erbyn canser y fron trwy gymryd rhan yn un o ymgyrchoedd codi arian mwyaf Ymgyrch Canser y Fron, sef 'diwrnod gwisgo pinc', gan ddiolch i wirfoddolwyr yn ei etholaeth am eu gwaith caled yn cefnogi'r ymgyrch a'r gwaith maent yn ei wneud er budd elusenau canser.

Mae ymgyrch 'gwisgo mewn pinc' wedi codi oddeutu £23 miliwn dros y ddeg mlynedd diwethaf ac ar ddydd Gwener, Hydref 25 eleni, bydd ysgolion, colegau a busnesau yn ymuno mewn ymgyrch genedlaethol i godi arian a hyrwyddo gwaith Ymgyrch Canser y Fron.

Dywedodd Mr Williams,

"Bob blwyddyn mae oddeutu 50,000 o ferched a 400 o ddynion yn derbyn y newyddion eu bod yn dioddef o ganser y fron.

Yn anffodus, mae 12,000 o ferched a 80 o ddynion yn marw o'r clefyd yma a dyna pam ei bod yn holl-bwysig ein bod yn cefnogi Ymgyrch Canser y Fron er mwyn ariannu ymchwil i'r clefyd. Felly ymunwch â mi a gwisgwch rhywbeth pinc i gefnogi'r ymgyrch gwerth chweil yma."

Ychwanegodd Mr Williams,

"Mae hyn yn gyfle hefyd i dalu teyrnged i'r holl waith sy'n cael ei wneud yn lleol yn Arfon i godi arian ar gyfer elusenau canser. Mae llawer o bobl, nifer helaeth ohonynt yn wirfoddolwyr, yn rhoi eu hamser a'u harian i gefnogi'r frwydr yn erbyn canser trwy gynnal digwyddiadau i godi arian.

Mae ras am fywyd Caernarfon yn un enghraifft o'r gymuned yn dod at ei gilydd i gefnogi'r achos pwysig yma. Rwy'n annog pawb yn Arfon i ymuno â mi a chefnogi'r ymgyrch yn lleol fel ein bod yn cyfrannu at y gwaith ymchwil pwysig sy'n cael ei wneud i frwydro'r clefyd yma."

## O'r Alban i Lanrug: hanes un o hen geir y fro.




Doedd hi ddim yn bosibl i Owen Griffith o Lanrug ymuno â chriw yr hen geir yn Llanberis yn gynharach y mis diwethaf, ond bu gohebydd yr 'Eco' yn ei weld yn ddiweddarach i gael hanes ei ddiddordeb mewn hen geir, ac i weld y tri char sy'n cael eu cadw'n ofalus yn y garej gartref. Mae'r Morris 10/4 yn dyddio o 1934, a chafodd ei yrru ddiwethaf gan berchennog o Lanllyfni. Prin iawn yw'r wybodaeth am y car: bu'n cuddio mewn beudy yng nghyffiniau Llandwrog am dros chwe mlynedd, a phan ddaeth i feddiant Owen Griffith, roedd ei berfedd yn llawn gwellt. Ond mae'r seti lledr oddi mewn yn wreiddiol, ac mae'r car bellach wedi ei adfer nes ei fod yn sgleinio fel swllt – ac yn cael ei yrru i amryw sioeau yng ngogledd Cymru.

Car wedi ei adeiladu gan Owen Griffith ei hun yw'r Austin 7 gyda'r rhif cofrestru JC2229. Mae'r gwaith mecanyddol ynddo yn wreiddiol, ac yn perthyn i hen Austin Ruby – prin, ond adeiladwyd y corff ar ffurf car rasio y 1930'au – er nad yw'n cael ei rasio o Lanrug! Y syndod yw fod ceir fel hyn yn parhau i gael eu rasio – ar draethau tywodlyd neu mewn meysydd fel Oulton Park a Brand's Hatch.

Ond y car mwyaf diddorol yw'r Austin 7 sy'n dyddio o 1935, gyda'r rhif cofrestru AV7120, oherwydd mae holl hanes y car hwn ar gael, a mae'n stori ryfeddol. Prynwyd y car gyntaf mewn garej ym mhentref Banochry, yn yr Alban – ac mae'r garej honno'n parhau yno. Prifathrawes ysgol bentref Crathes, rhyw dair milltir i ffwrdd a'i prynodd, hen ferch o'r enw Miss White – ac ydi, mae lliwiau'n rhan o'r stori hefyd! Roedd Miss White wedi bod yn berchen car ers 1927, a hwnnw'n lliw melyn. Pan benderfynodd brynu'r Austin 7 doedd y car ddim i'w gael ond mewn llwyd neu las, a doedd hynny ddim yn plesio. Felly, cyn gadael y garej i deithio ffyrdd gwledig yr Alban, bu'n rhaid ei ail-beintio yn felyn. Dim ond yn ystod gwanwyn, haf a dechrau'r hydref y cai'r car ei yrru gan Miss White. Dros fisoedd y gaeaf byddai'r car yn cael ei storio yn y garej lle'i prynwyd. Digwyddai hyn fel arfer yn ystod mis Hydref, a gwaith prentis yn y garej oedd gofalu am hyn. Byddai'r car yn cael ei osod ar flociau, draenio'r dwr i gyd ohono, tynnu'r batri, a hyd yn oed dynnu'r tô defnydd oedd yn agor; hynny rhag i lygod y garej wledda arno yn ystod hirlwm y gaeaf! Byddai Miss White yn gofalu fod y prentis yn gwisgo menyg gwyn tra'n gwneud y gwaith rhag marcio'r car.

Erbyn 1939 roedd y prentis ieuanc bellach yn fecanic ac yn cael ei alw i'r fyddin gyda'r Gordon Highlanders. Ei swydd olaf cyn ymadael â'r garej oedd cadw'r car yn ôl ei arfer – ond y tro hwn dros gyfnod y rhyfel. Yn 1946 dychwelodd i weithio i'r garej, a'i waith cyntaf oedd paratoi'r car unwaith eto ar gyfer Miss White, a hynny wedi i'r car fod wedi ei storio am dros chwe mlynedd. Ac o'r diwrnod hwnnw am flynyddoedd wedyn, y mecanic hwn oedd yr unig un a fyddai'n cael trin y car.

A hithau 'mhell yn ei chanol oed hwyr, priododd Miss White y meddyg lleol, ac y mae llyfr log y car yn dangos newid perchennog, ond mewn gwirionedd, newid i enw priodasol Miss White a wnaeth.

Roedd y mecanic bellach wedi ymddeol, ond yn parhau i drin y car ar gyfer gwraig y meddyg nes iddi benderfynu ei werthu. Fe'i prynwyd gan siopwr Banochry a'i ddefnyddio am flynyddoedd wedyn nes ei storio mewn shed yng nghefn y siop. Wedi ei storio am gyhyd, roedd y teiars wedi gwisgo, a phan brynwyd ef gan ŵr o Oldmeldrum, bu'n rhaid iddo stwffio gwellt o'u mewn cyn ei ddreifio adref i'w adfer. Dyma'r amser y diflannodd y lliw melyn a'i beintio'n wyrdd, sef y lliw sydd arno heddiw. Patrick Davies brynodd y car wedi iddo gael ei adfer. Roedd ar y pryd yn astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Aberdeen, a chai'r car ei ddefnyddio'n rheolaidd ganddo. Wedi iddo briodi a chael teulu, aeth y car yn rhy fychan ac fe'i prynwyd gan Glwb Austin 7 yr Alban. Oddi yno y prynwyd y car gan Owen Griffith, Llanrug.

Mae'r tri char yn cael eu gyrru yn eu tro i wahanol raliau a sioeau yng ngogledd Cymru. Mae tri peiriant arall yn y garej yn Llanrug hefyd, ond nid yw'n fwriad gan Owen Griffith i'w gyrru o gwbl: eu hadfer i'w cyflwr gwreiddiol sy'n rhoi pleser iddo. Tri motobeic yw'r peiriannau rheini: Triumph XO anghyffredin yn dyddio o 1933, a dau BSA Bantam, y naill o 1949 a'r llall o 1950.

Does ryfedd fod waliau a nenfwd y garej yn Llanrug yn llawn o'r trugareddau a'r paraffernalia rhyfeddaf – ond fod defnydd tebygol i bob dim, rywdro!



Eco Tachwedd 2013.indd 17
29/10/2013 08:30








# cyflwr Syria

Yn rhan o'u hastudiaethau tuag at Bagloriaeth Cymru cafodd blwyddyn 12 ddarlith hynod o effeithiol gan Jane Woodford (Israel and Arab World).
Cawsant hanes cyfoes y gwrthryfel yng ngwlad Syria a chefndir y blynyddoedd o wrthdaro rhwng gwledydd y Dwyrain Canol.
Yr oedd darlith Jane Woodford yn ddiddorol ac effeithiol a sicrhawyd nid yn unig gwrandawiad astud ond hefyd rhyngweithiad effeithiol.



# CYNGOR YSGOL

Ar ddiwrnod cyntaf mis Hydref fe gafodd y Cyngor Ysgol ei gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn ysgol newydd gyda'r Llywodraethwr Cyswllt, Mr John Wyn Jones, yn bresennol i wrando ar, a rhannu yn, sgyrsiau'r agenda.
Yr oedd Mr Jones yn awyddus iawn i wybod am gyfleusterau'r toiledau ar ôl i Gyngor y llynedd frwydro mor galed am welliannau. Cafodd adroddiad hynod o gadarnhaol am yr holl waith a wnaethpwyd yn ystod gwyliau'r haf.
Nid oedd y cyngor mor hael wrth sgwrsio am y broblem o sbwriel o gwmpas yr ysgol. Fe gafwyd trafodaeth am wahanol fesurau y gellid eu datblygu i wella ar y broblem.
Problem arall gafodd sylw arbennig oedd amser cinio yn y Ffreutur. Nid oedd dim beirniadaeth ar safon na'r ystod o ddewis ymhlith y prydau ar gael. Ond cael at y prydau yw'r broblem a'r ciw bwyd yn symud yn araf. Penderfynwyd ar syniadau i wella'r broblem.

# GWEDDNEWID

Dros y flwyddyn ddiwethaf yr oedd staff a disgyblion yr ysgol wedi dod i'r casgliad ei bod hi'n bryd i ni addasu a gwella toiledau'r disgyblion. Yn dilyn cyfarfodydd o'r Cyngor Ysgol daethpwyd i'r casgliad bod angen gweddnewidiad sylweddol. Yn sgil ymdrechion aelodau'r Cyngor Ysgol a'r dirprwy bennaeth, Mrs Ellen Williams, cytunodd Cyngor Gwynedd i ariannu'r prosiect hwn er mwyn sicrhau toiledau newydd ar gyfer y bechgyn a'r merched.
Dros chwe wythnos o wyliau'r haf bu'n gofalwr, Mr Iwan Machno Lloyd, ynghyd â gweithwyr cwmni lleol yn ddiwyd wrth eu gwaith yn trawsnewid toiledau'r merched a'r bechgyn. Wrth ddewis y deunyddiau adeiladu, cymrwyd i ystyriaeth yr hyn a awgrymwyd gan ddisgyblion, er enghraifft teils a phaent lliwgar a chloeon cadarn ar y drysau.
Bellach mae'r toiledau'n fodern ac yn ymarferol fel y tystiodd dau aelod o Gyngor Gwynedd, y Cynghorydd Sian Gwenllian ac Ioan Thomas pan ddaethant i ymweld â'r ysgol ar y 24ain o Fedi. Yr oeddent yn unfryd unfarn fod eu buddsoddiad wedi talu ar ei ganfed. Rydym fel disgyblion yn eithriadol o ddiolchgar i ymdrechion Mrs Ellen Williams, Mr Iwan Machno Lloyd a'r Cyngor Ysgol, ond yn bennaf oll i Gyngor Gwynedd am eu cefnogaeth gwerthfawr er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion Ysgol Brynrefail doiledau gwerth chweil.



Eco Tachwedd 2013.indd 18 29/10/2013 08:30

# “Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”





Blwyddyn 11 – Addysg Gorfforol




Blwyddyn 11 – Addysg Grefyddol (2)



Blwyddyn 11 – Cerdd




Blwyddyn 11 – Gofal Plant



Blwyddyn 11 – Saesneg

## NOSON GWOBRWYO B12 AC 13 2013

Ar ddiwedd mis Medi yr oedd neuadd Ysgol Brynrefail dan ei sang gyda disgyblion, cyn ddisgyblion, athrawon, rhieni a llywodraethwyr wedi ymgynnull i ddathlu llwyddiant disgyblion. Nid yn unig dathlu llwyddiant mewn arholiadau ond dathlu cyfraniad disgyblion a’r ymdrechion a wnaethpwyd ganddynt i gyflawni hyd at orau eu gallu tra ym Mrynrefail.

Yn ystod y flwyddyn ysgol a fu, fe ddaeth gweithgor o athrawon ynghyd, dan arweiniad y Dirprwy Bennaeth, Mrs Elen Williams, i drafod cynnal rhyw fath o fenter lle ceid dathlu llwyddiannau academaidd. O’r hedyn gwreiddiol hwn fe ddatblygwyd noson gwobrwyo a flodeuodd i fod yn ddathliad o lwyddiannau blwyddyn 11 a blwyddyn 13.

Da oedd gweld nifer o gyn ddisgyblion blwyddyn 12 a 13, oedd wedi ymadael a’r ysgol yn yr haf, yn ôl gyda theulu Brynrefail ynghyd â nifer o flwyddyn 12 presennol, ac yn cael eu cydnabod am yr ymdrech a’r llwyddiannau a gafwyd ganddynt yn yr arholiadau.

Llongyfarchiadau a phob hwyl iddynt oll.




Eco Tachwedd 2013.indd 19
29/10/2013 08:30

# Gwaith ymchwil i hanes FFYNNON CEGIN ARTHUR






Un o deithiau cerdded mwyaf llwyddiannus 'Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen' eleni oedd yr un o Benisarwaun i ddarganfod hanes 'Sba' a Ffynnon Cegin Arthur. Cymaint yw'r diddordeb yn hanes y Ffynnon fel bod pobl wedi dod o ben draw Môn i'r teithiau, gyda'r cynllun eisioes wedi trefnu 4 taith yno oherwydd y galwad. O bob darn o hanes sy'n cael ei hadrodd yn nhaflen newydd 'Troedio Llwybrau Llanddeiniolen' y stori am y Ffynnon sydd yn cael y sylw mwyaf.

Ond y syndod yw fod cyn lleied o wybodaeth am y ffynnon a'r sba o gofio mai am gyfnod yn ystod y 1850au iddi ddenu cymaint a 200 o ymwelwyr i 'gymryd y dyfroedd' bob dydd, y rhan fwyaf ohonynt o Loegr. Potelwyd y dwr a'i werthu'n fasnachol. Lleolir yr adfeilion ymysg coed Blaen y Cae ger Penisarwaun ac er ei holl bwysigrwydd ganrif a hanner yn ôl, mae gweddillion rhai o adfeilion Oes Haearn y fro mewn cystal cyflwr.

Dyma wers hanes byr: Adeiladwyd y 'Spa' ger y ffynnon gan Y Faenol ar ddechrau'r 1850au i gymryd mantais ar y diwydiant twristiaeth newydd a'r diddordeb mawr mewn materion 'iach'. Dim ond un ffynnon arall yn Ewrop (a honno yn yr Almaen) oedd a chymaint o haearn yn y dŵr. Mae'n stori sydd yn cynnwys cysylltiad a'r Oes Haearn, am goedwig tanddaearol, dyfodiad y rheilffyrdd ayy (rhaid i chi ymuno ac un o deithiau y 'Cynllun' am y stori gyflawn). Erbyn 1860 daeth cyfnod 'aur' y ffynnon i ben pan agorwyd Sba ger Llanrwst. Roedd yn haws cael ato a daeth 'Ffynnon Cegin Arthur' fel busnes i ben er i'r adeilad ei ddefnyddio fel tŷ am sawl blwyddyn yn ddiweddarach.

Cymaint oedd dylanwad Ffynnon Cegin Arthur ar y cyfnod nes i feddyg lleol oedd yn gweithio yn Llundain, Arthur Wynn Williams, ysgrifennu cyfrol amdani. Ond er hynny, wyddai neb lawer am union sut fath o adeilad oedd yno'n wreiddiol. Mae yn ymddangos (yn fach iawn) mewn hen lithograff o'r cyfnod, a hyd y gwyddom, mae un ffotograff ohono (hen gerdyn post) lle mae prif ffocws y llun ar y 'crawia' o flaen yr adeilad yn hytrach na'r 'sba' ei hun. Mae 'Cynllun Cerdded a Darganfod' wedi mwynhau gwrando ar atgofion un neu ddau o'r fro sydd yn cofio chwarae yn Ffynnon Cegin Arthur yn blant ac yn cofio'r waliau yn sefyll: i gyd yn wybodaeth werthfawr ond ar y cyfan mae'r adeilad ei hun yn ddirgelwch llwyr.

Felly, ym mis Gorffennaf gofynnodd y 'Cynllun Cerdded a Darganfod' am gymorth i wneud archwiliad i'r adeilad. Tybia Gareth Roberts iddo ganfod safle y drws mynedfa i'r adeilad ond roedd angen cymorth gan Martin Davies o gwmni archwilio hanes 'Ardal' i fynd i dyrchu a glanhau medr sgwar o'i amgylch i gadarnhau hynny. Darganfuwyd sawl gwrthrych oedd yn awgrymu yn gryf sut fath o ddrws oedd yno, partrymau'r gwaith plaster o amgylch y drws a'r waliau a'r patrwn oedd wedi eu peintio ar y ffenestri. Cafwyd awgrym cryf bod 'verandah' i'r adeilad, yn union fel steil 'Sba' y cyfnod ac sydd yn cael ei awgrymu yn y 'lithograff' hefyd. Aeth Martin a Gareth ati i fesur yr holl weddillion o amgylch yr adeilad a gwelir y canlyniad yn y cynllun. Daeth yn amlwg bod yna wal ar un adeg yn amgylchynnu'r ffynnon ei hun, fel petai yn ei warchod o'r tir o'i gwmpas.

Ond mae Gareth angen fwy o wybodaeth. Os wyddoch chi unrhywbeth am Ffynnon Cegin Arthur ei hun yna cysylltwch a Menter Fachwen ar 01286 872014.

Yn ystod y teithiau cerdded, mae Gareth wedi dod ar draws cerfluniau od iawn mewn ambell garreg wal yn y fro. Cawn eu gweld y mis nesaf gydag apêl am ragor o wybodaeth amdanynt.

Cist Gymunedol
**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**
Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.
**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk

**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**
**Ffôn/Ffacs:**
**01286 870682**
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**
**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

**FFRAMIA**
**Parc Padarn, Llanberis**
**(01286) 870922**
www.fframia.com
**www.fframia.com**
**Gwasanaeth Fframio Lluniau**
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

**CHIROPODYDD**
**RICHARD THOMAS** SRCh/HPC
30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD
GALWADAU I'R CARTREF
Cysylltwch - Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

# TÎM ACHUB MYNYDD LLANBERIS

*yn dathlu 40 mlynedd yn y ganolfan achub*

Ddiwedd Awst, roedd un o dimau achub prysuraf y wlad yn dathlu 40 mlynedd ers i'w canolfan yn Nant Peris gael ei chydnabod gan Bwyllgor Achub Mynydd - ond i aelodau Tîm Achub Mynydd Llanberis roedd y dydd yn un o fusnes fel arfer.

Cynhaliwyd digwyddiad arbennig i ddathlu pedawr degawd o waith gwirfoddol wedi ei leoli yn y ganolfan a hefyd i ddathlu eu tenantiaeth o'r adeilad a gweld cwblhau llawer o waith datblygu yn yr adeilad.

Bu'r Tîm o 60 yn trefnu rhostio mochyn i ddathlu eu siwrnai o'u dechreuad bychan ar ddiwedd y '60au i'r Tîm sydd weithiau'n creu newyddion cenedlaethol.

Dechreuwyd ar y dathlu gyda gwasanaeth o ddiolchgarwch yn eglwys cyfagos St Peris - sy'n briodol gan mai'r eglwys yw perchennog yr adeilad.

Yn ddiweddarach, agowydr y ganolfan newydd sydd wedi costio £25,000 i'w haddasu-arian a gyfrannwyd gan rai o'r miloedd o fynyddwyr a achubwyd gan y Tîm dros y blynyddoedd. Y llynedd bu'r Tîm yn ymwneud â bron i 200 o alwadau ac eleni mae'r cyfanswm eisoes wedi cyrraedd 150.



*Gwahoddwyd Richard Beech, oherwydd iddo arwain y gwaith ar adnewyddu'r ganolfan, i ddadorchuddo'r plac ar ddrws y ganolfan. Yna gwahodd Y Parch Carol Roberts i arwain y dorf i weld yr adnoddau newydd y tu mewn.*




"Mae'n wych gweld ymwelwyr yn mwynhau mynyddoedd Eryri," meddai John Grisdale, Cadeirydd Tîm Llanberis. Ychwanegodd, "Mae'n ymddangos fod amcanion y Llywodraeth o wella lles economaidd a byw'n iach wedi bod yn llwyddiannus os yw'r nifer o ymwelwyr i'n mynyddoedd yn cael ei ystyried yn feincnod"

"Ond, yn anochel, mae'r niferoedd o alwadau am gymorth wedi cynyddu dros y degawd olaf"

Bellach mae'r darlun yn dra gwahanol i'r hyn oedd yn 1968 pan ddechreuodd trafodaethau am ffurfio tîm achub a'i leoli yn Llanberis, gan gynnwys dringwyr lleol a mynyddwyr oedd eisoes yn cael eu galw i gynnig cymorth.

Gydag ond ychydig o offer ac arian a dim canolfan, 'roedd y tîm cynnar yn dibynnu ar letygarwch Parc Cenedlaethol Eryri pan agorwyd drysau y Ganolfan Wardeniaid yn Nant Peris. Caniatawyd i'r Tîm ifanc gadw eu hoffer prin yn y garej .

Ymdrechodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Achub Mynydd i sefydlu canolfan Achub cydnabyddedig, ac ar 31 Awst 1973, gwiredwyd hynny.

Yn ddiweddar fodd bynnag, mae'r gofod wedi bod yn brin wrth i'r offer arbenigol a'r cyfarpar cyfathrebu gynyddu flwyddyn ar ol blwyddyn.

Mae'r ganolfan ar ei newydd wedd yn gartref i ystafell rheoli gyfoes, stor offer pwrpasol, cegin a thoiled ac ystafell fawr amlbwrpas. Gwnaethpwyd y rhan helaeth o'r gwaith gan aelodau o'r Tîm.

Ymunodd cyn-aelodau yn y dathliadau wrth i'r Tîm ddechrau ystyried dulliau o ddathlu eu penblwydd yn 50 yn 2018!

O edrych i'r dyfodol mae'r Tîm yn paratoi i ddelio gyda mwy o achosion yn flynyddol. Mae hyn yn rhywbeth sydd eisoes dan sylw: Dywedodd John Grisdale, " Mae trafodaethau gyda gwleidyddion yng Nghaerdydd wedi dechrau gyda'r gobaith o gymorth ychwanegol nid yn unig trwy gynnal y timau gyda chynhaliaeth o'u canolfannau, offer a chludiant ond hefyd tuag at addysgu'r cyhoedd am yr angen i baratoi'n briodol cyn mentro i'r mynyddoedd, i barchu amgylchedd y mynyddoedd ac i fwynhau y profiad yn ddiogel."



*Gwasanaeth o ddiolchgarwch yn Eglwys St Peris pan ddaeth tua cant ac ugain o aelodau a chyn-aelodau a'u teuluoedd i ddathlu mewn gwasanaeth o ddiolchgarwch am waith Tîm Achub Mynydd Llanberis, Eleni mae'r Tîm yn dathlu 40 mlynedd ers derbyn cymeradwyaeth cenedlaethol i'r Ganolfan Achub yn y pentref. Cynhaliwyd y gwasanaeth dan arweiniad Y Rheithor , Y Parchedig Ddoctor Carol Roberts, a gyflwynodd neges o werthfawrogiad a diolch am yr holl waith a wnaethpwyd dros y deugain mlynedd diwethaf.*



*Penodwyd pedwar cyn-aelod, Aled Taylor, Hugh Walton, John Ellis Roberts a Jesse James yn Aelodau Anrhydeddus. Gwobrwywyd hwy am eu cyfraniadau helaeth dros nifer fawr o flynyddoedd. Cyflwynwyd tystysgrifau iddynt gan Alun Ffred AM.*



Eco Tachwedd 2013.indd 21 29/10/2013 08:30

# Ysgol Gymuned



**Gwasanaeth Boreol** Croesawyd Mr Andrew Settatree yma fore dydd Mawrth, Medi 24ain, i gynnal y gwasanaeth.

**Bore Coffi Macmillan** Diolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi a gynhaliwyd yn yr Ysgol dydd Gwener, Medi 27ain. Gwnaed elw o £160 i'r achos teilwng yma, gyda phawb wedi mwynhau'r cyfle i gymdeithasu ar fore braf.

**Taith Gerdded CA2** bu plant Bl 3-6 ar daith gerdded o'r ysgol at Bigil y Mast ar fore Llun, 7fed o Hydref. Pawb wedi mwynhau'r awyr iach!

**Plant Mewn Angen** Fe fydd yr ysgol yn cefnogi'r elusen eto eleni ar Ddydd Gwener, 15 Tachwedd. Byddwn yn gwahodd y plant (a'r staff!) i fynychu'r ysgol ar y diwrnod yn ei dillad nos! Hefyd, bydd y plant yn cynnal arwerthiant cacennau.

**Tynnu Lluniau** Bydd Mr Gwynant Parri yma fore dydd Mawrth, Tachwedd 12fed, i dynnu lluniau'r plant . Mae croeso i unrhyw blentyn sydd ddim yn ddisgybl yn yr Ysgol alw draw yn ystod y bore.

**Sioe Nadolig** Cynhelir y Sioe bnawn dydd Mawrth, Rhagfyr 10fed, am 1:30 a gyda'r nos am 6 o'r gloch.

**Pantomeim** Byddwn yn mynd â phlant Bl 0 i Bl 6 i weld Sleeping Beauty yn Venue Cymru, Llandudno, bnawn dydd Mercher, Rhagfyr 11eg.

**Ail Gylchu** Cofiwch fod bin ail gylchu Antur Waunfawr wedi ei leoli yng nghyntedd yr Ysgol mae croeso i unrhyw un ei ddefnyddio. Bydd yr Ysgol yn derbyn arian bob tro y bydd yn llawn.

**Twrnamaint Pêl-rwyd** Aeth carfan frwdfrydig o blant Bl 5 a 6 i Faes Glas ym Mangor i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill o Gylch Arfon ar 14 Hydref. Chwaraeodd pawb yn hynod o dda a llwyddwyd i ennill drwy'r cymal grŵp cyn colli yn y diwedd yn y rownd gynderfynol. Ymdrech wych gan bawb gyda safon uchel iawn o chwarae'n amlygu ei hun.

**Diwrnod gwisgo Siwmper** Dydd Gwener, Rhagfyr 13eg, bydd cyfle i bawb ddod i'r ysgol mewn siwmperi gwahanol. Byddwn yn casglu arian i gronfa Achub y Plant.

**Cystadleuaeth Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru** cymerodd Abbi a Georgia Parkinson ran yng Nghystadleuaeth Rhedeg Mynydd Iau Gogledd Cymru eto eleni ac unwaith eto, fe wnaeth y ddwy yn arbennig o dda. Llwyddodd Georgia i sicrhau'r drydedd safle gydag Abbi'n agos iawn yn y bedwaredd safle. Da iawn yn ddwy ohonoch!

**Ras Ieuenctid Llanc y Tywod** cynhaliwyd y ras yng nghoedwig Niwbwrch ar fore Sul 29 Medi – bore hyfryd ar gyfer rhedeg. Roedd 4 o enethod yr ysgol yn cystadlu a llwyddodd y bedair i ddod yn y 10 cyntaf – Georgia Parkinson yn 3ydd, Efa Baines yn 4ydd, Abbi Parkinson yn 5ed a Mabli Baines yn 8fed. Ymdrech ragorol ganddynt. Daliwch ati!

**Llongyfarchiadau** i Branwen Hedd Gruffudd, BL 2, am lwyddo i gwblhau her genedlaethol Sialens Darllen yr Haf "Plas Braw". Derbyniodd fedal am ei llwyddiant, da iawn chdi Branwen .

Diolch Dymuna Deiniol, Heulwen, Urien a Mari ddiolch i bawb fu mor garedig wrthynt yn dilyn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, John Llywelyn Evans, Nefyn (gynt o Gwm y Glo). **Diolch** am y rhoddion hael tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a Bad Achub, Porthdinllaen. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt wedi marwolaeth eu nai a'u cefnder Huw yn Lerpwl ac yntau yn ddim ond 20oed.


Dathlu Dymuniadau gorau i Mrs Catherine Williams 20, Bryn Tirion, ar ddathlu penblwydd arbennig ar Hydref 30ain. Pob bendith i chwi yn y dyfodol.

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun**


**Pêl Bonws** Loteri Enillydd Mis Medi oedd Mrs Carole Porter gyda Rhif 31. Llongyfarchiadau.

**Cinio Nadolig** Cynhelir y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty'r Gwydir, Betws y Coed, dydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 12:15 o'r gloch. Enwau i Mrs Janet Ash (871265) erbyn Tachwedd 23ain fan bellaf os gwelwch yn dda.

**Noson Bingo** Cynhelir Bingo yn y Neuadd Gymuned nos Iau Tachwedd 14eg am 6:30 . Mynediad £1 i oedolion a 50c i blant yn cynnwys paned / oren a bisgedi. Bydd yr elw yn mynd tuag at gronfa'r Pensiynwyr. Croeso cynnes i bawb.


BWYD ANIFEILIAID

BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon

• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn
Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502


SWIGOD A SEBON
SYCHLANHAU
Altro • Ailwnïo
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

## Siôn Emyr



Bydd Siôn Emyr yn aelod o gast Draw Dros y Don, pantomeim Martyn Geraint, fydd yn yn ymweld â Galeri ym mis Rhagfyr.

Yn wreiddiol o Ysbyty Ifan, mae cartref teuluol Siôn Emyr bellach ym Mhenisarwaun. Yn 16 mlwydd oed, ymunodd a chast Rownd a Rownd, a bu'n chwarae rôl Siôn am bedair cyfres. Ym mis Medi eleni, fe raddiodd o Academi Mountview yn Llundain, ac ers gadael mae wedi bod ar daith theatrig o gomedi Shakespeare A Midsummer Night's Dream, yn chwarae rhan Lysander.

Aeth Eco'r Wyddfa I'w holi ymhellach:

E.W.: Wyt ti erioed wedi bod yn rhan o bantomeim?

S.E.: Na, dyma fydd y cynta, sydd yn gyffrous ond yn eithaf brawychus hefyd. Dwi'n nerfus braidd a dwi'm di dechrau eto. Mae'r comedi a'r teimlad o 'oractio' yn elfennau anodd iawn i bortreadu ar lwyfan. Rhaid gwneud yn siŵr fod yna wirionedd yn y stori ac yn yr emosiynau er mwyn mynd â'r gynulleidfa ar daith. Mi fydd hi'n sialens ac yn waith caled! Ond dwi'n edrych ymlaen!

E.W.: Wyt ti'n gyfarwydd â gweddill y cast?

S.E.: Yn amlwg, dwi'n gyfarwydd â Martyn a Hywel. Hywel yn wyneb hynod gyfarwydd ar Pobl y Cwm a Martyn (gyda WCW wrth gwrs) wedi rhoi oriau o fwynhad i mi pan oeddwn yn blentyn ar S4C ac ar faes yr Eisteddfod. Rwy'n edrych ymlaen at ddod i nabod gweddill y cast a gweithio gyda'n gilydd. Siŵr y down i nabod ein gilydd yn dda iawn.

E.W.: Oes gen ti arwr ym maes theatr/teledu?

S.E,: Hugh Laurie. Dwi'n meddwl i fod o'n actor gwych. Beth sy'n creu actor neu berfformiwr yw y gallu i droi llaw at rywbeth a rhoi cynnig arni. Mae Hugh Laurie wedi bod ar lwyfan, wedi creu un o'r rhaglenni teledu gorau erioed - Blackadder. Mae o wedi medru mynd i America a chael llwyddiant aruthrol gyda House. Mae ganddo fo albwm Jazz ac mae o'n gallu troi ei law at rywbeth. Taswn i'n cael hanner yr yrfa ddisglair mae o wedi gael, mi faswn i wrth i modd.

E.W.: Beth am arwyr a chyfleon yn lleol?

S.E.: O ran athrawon lleol – mi ges i addysg TGAU a Lefel A Drama yn Ysgol Glanaethwy. Mae hi'n ysgol cerdd a drama wych sydd yn rhoi cyfleon di ben draw i bobl ifanc. Dwi wedi cael y fraint o berfformio yn yr Albert Hall, Yng Nghanolfan y Mileniwm, gyda Bryn Terfel, yn y Choir Olympics yn China, ac ym Mwdapest a hefyd yn Yr Eidal. Ges i hefyd fod yn rhan o'r côr aeth i rownd derfynol rhaglen y BBC Last Choir Standing oedd yn brofiad ffantastig. Heb sôn am faint o gyngherddau dwi wedi bod yn rhan ohonyn nhw drwy Gymru gyfan. Mi oedd Cefin Roberts a Rhian yn athrawon gwych a ma nhw yn gwneud gwaith arbennig yng Nglanaethwy hyd heddiw. Un athrawes/ffrind wnaeth wir fod yn gymorth i mi oedd Lowri Hughes. O gyfarwyddo'r grŵp TGAU a LEFEL A i'n helpu fi gyda'n speeches ar gyfer clyweliadau Ysgolion Drama - roedd hi'n wych. Mi ges i fy nghyflwyno gyda gwobr Gethin Rhys ganddyn nhw cyn i mi adael am Lundain.

E.W.: Beth wyt ti'n edrych ymlaen ato, o ran dy yrfa, yn y dyfodol?

S.E.: Dyma fy rhan broffesiynol Cymraeg gynta. Rwy'n edrych ymlaen i berfformio yn fy iaith gyntaf. Dwi wir eisiau perfformio yn un o theatrau mawr Llundain - Royal Court, The Globe, The National. Eisiau gallu dweud mod i wedi cyflawni y dymuniadau yno. Dwi eisiau cael rhaglen ddrama ar ITV neu Channel 4 neu S4C a hefyd eisiau bod yn rhan o Feature Film Prydeinig. Yn fwy na rhain i gyd, dwi eisiau mwynhau fy hun.

Bydd Draw Dros y Don yn Galeri Caernarfon rhwng Rhagfyr 11–14. Am fwy o fanylion ac archebu tocynnau, ffoniwch Galeri ar 01286 685 222



## DIRGELWCH

Profiad rhyfedd yw dod o hyd i hen gylchgrawn neu bapur newydd a gadwyd yn ddiogel a chydwybodol ers blynyddoedd a bwrw golwg drwyddo a methu'n glir a deall pam eich bod wedi ei gadw o gwbl. Mae'n amlwg bod rhyw reswm dros fynd i'r drafferth o'i blygu'n ofalus a'i osod yn daclus mewn drôr neu ffeil. Ond er craffu'n fanwl, fedrwch chi yn eich byw a gweld unrhyw stori sydd o bwys i chi. Un ai mae'r digwyddiad a'r wynebau wedi mynd yn angof neu mae eich diddordebau wedi newid yn gyfan gwbl ers i chi gadw'r papur yn ddiogel. Y naill ffordd neu'r llall, fedrwch chi weld dim o bwys ynddo.

Does dim rhaid i'r Beibl fod wedi ei guddio mewn drôr am flynyddoedd i rywbeth digon tebyg ddigwydd i hwnnw. Mae'n ddigon rhwydd craffu'n hir ar ei dudalennau a methu'n glir a gweld beth sydd a wnelo'r hanesion a'r ddysgeidiaeth sydd ynddo â'n bywydau ni. Gall hyd yn oed Gristnogion sy'n parchu'r Beibl fel Gair Duw deimlo felly ar adegau. Beth sydd a wnelo'r geiriau hyn â'm bywyd i? Ym mha ffordd y mae'r hanes arbennig hwn yn berthnasol i mi heddiw? Pam bod y llyfr hwn neu'r bennod hon wedi ei chynnwys yn Y Beibl o gwbl? Byddai'r mwyafrif o Gristnogion yn barod i gydnabod yn onest nad yw cwestiynau o'r fath yn gwbl ddieithr.

Ac wrth i ni ymgodymu â geiriau'r Beibl mae'n bwysig cofio nad clyfrwch sy'n ein galluogi i wneud synnwyr ohono. Nid gallu dynol na chrebwyll naturiol sy'n dangos perthnasedd y Beibl i'n bywydau ni. Mae'n rhaid wrth gymorth Duw ei hun i ddeall ei Air.

Ac ni ddylai hynny ein synnu. Oherwydd nid ni sydd wedi penderfynu bod y llyfr hwn o ddiddordeb ac o fudd i ni. Nid ni a benderfynodd ei roi o'r neilltu am fod ynddo bethau y mae'n dda i ni eu gwybod a'u cofio. Gair y Duw Byw yw'r Beibl. Neges y Duw Byw sydd ynddo ar ein cyfer. A Duw sydd wedi diogelu'r llyfr hwn dros y canrifoedd er mwyn i bobl ym mhob cenhedlaeth ei ddarllen a chael ynddo gyfrinach yr Efengyl a holl gyngor Duw ei hun.

A chan mai Ef a'i rhoddodd i ni, pwy well na Duw ei hun i'w egluro a'i oleuo i ni? Trwy ei Ysbryd Glân mae Duw'n gwneud yr union bethau hynny. Y gwir yw na allwn obeithio deall y Gair heb gymorth yr Ysbryd Glân. Felly, bob tro y darllenwn y Beibl, gofynnwn am y cymorth hwnnw. Gofynnwn iddo oleuo'r Gair fel bod yr hyn sydd o bosibl yn ymddangos yn anodd ac amherthnasol yn dod yn neges real y Duw Byw i bob un ohonom.

JOHN PRITCHARD

## CIC SUL EFE

*ar gyfer Ysgolion Sul a chlybiau CIC y fro*

**yn Y Ganolfan, Llanberis**
**ddydd Sul, Tachwedd 17, 2013**
**11.30 – 1.00 o'r gloch**

yng nghwmni criw Coleg y Bala

Gobeithio'n fawr y bydd holl ysgolion Sul y fro yn manteisio ar y cyfle i fwynhau cwmni ei gilydd. Roedd Sul Efe yn llwyddiant mawr y llynedd. Dowch i ymuno yn yr hwyl eleni.




## Porffor

*er cof am John Llewelyn Evans Foty Nefyn,*
*gynt o Bronallt Cwm y Glo*

O dan rhai amodau golau'r haul bydd
tomen fawr y chwarel yn borffor dwys,
(i'r hogiau gynt, yn eu stryffâg bob dydd
roedd 'grîns ta pyrpls' o allweddol bwys.)

'Roedd ynddo yntau anian gwŷr y graig;
myfyriai'n ddwfn am dro y lliwiau hyn,
ac er gado'r fro, am firi'r bae a'r aig,
nid ango erwau'r allt – o bont Pen'llyn.

Mae'n Fedi eto, a'r gwenoliaid fry
yn craffu o'r gwifrau i lesni'r de…
â grug Craig yr Undeb eleni'n gry'
galwyd un o lewion 'Cwm' tua thre…

Wrth ei roddi yma i bridd Pen Llŷn
rhof swp o borffor dwys ar gawr o ddyn.

• 'grîns ta pyrpls', cyfeiriad chwarelwyr at liwiau y lechen yr oeddynt yn ei thrin.
• swp o borffor – arferiad gan ein teulu i roddi grug ar fedd yr ymadawedig – os oedd yn ei flodau

Norman Closs, Fachwen
(cefnder John Llew)

## Canolfan Bro Llanwnda

nos Wener, 8fed Tachwedd 2013 am 7.30
Tri Gog a Hwntw
Noson o ganu, mwynhau ac ambell jôc neu ddwy!
Tocynnau yn £7.00 wrth y drws neu ymlaen llaw oddi wrth Ellen ar (01286) 831 337.
Bydd bar a lluniaeth ysgafn ar gael.

# Dysgu sut i feicio'n ddiogel

Mae disgyblion ysgolion dalgylch Ysgol Brynrefail wedi cael y cyfle i ddysgu sut i feicio'n ddiogel. Cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau beicio i ddisgyblion blwyddyn chwech pan ddaeth y Tour of Britain i Lanberis yn ddiweddar.

Cynhaliwyd gweithdai amrywiol gan Hyfforddwyr Sgiliau Beicio, Cyngor Gwynedd. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu sut i gynnal a chadw beic, gwisgo helmed yn gywir, a sut i fod yn weledol ar y ffyrdd.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd gyda chyfrifoldeb am ddiogelwch y ffyrdd: "Roedd y gweithdai hyn yn gyfle gwych i ddisgyblion ddysgu sut i feicio'n ddiogel. Mae'n bwysig iawn fod pawb yn ymwybodol o beryglon y ffordd fawr, a sut i gadw'n ddiogel ar ffyrdd Gwynedd."

Ar ddiwedd y dydd, cymerodd y disgyblion ran mewn cystadleuaeth ar sail yr hyn oedden nhw wedi ei ddysgu yn ystod y dydd. Roedd rhaid iddynt gael golwg ar feic gan ddatrys beth oedd y diffygion.

Riannon Ellen Bursnall, o Ysgol Cwm y Glo ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth.



*Cheryl Morgan, o dîm Diogelwch y Ffyrdd Cyngor Gwynedd gyda Riannon yn derbyn ei gwobr.*


Auto Express New Car Awards Winner 2012 Best Supermini

Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys
**3**
Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

**Cofiwch chi y tanwydd!**
- Rwan ar gael i yrwyr dros **21 oed!**



***Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd***

PEUGEOT ***208*** NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

**MOTION & EMOTION**

PEUGEOT

**ELIM PEUGEOT**

**Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251**
**www.elimpeugeot.co.uk**

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffioedd £1,277.17 **APR 6.6%.** Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol.
Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO2 87 - 135




Eco Tachwedd 2013.indd 24 29/10/2013 08:30

## LLANBERIS Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

**Diolch** Dymuna Phyllis, Bryn, Dylan, Menai, Iolo, Iorwen, Bethan, a Llinos ddiolch yn ddiffuant i'r teulu oll, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl, Stanley Jones.

Diolch arbennig i staff Caredig sef y tîm gofal cartref. Diolch hefyd i'r Barch Ddr Carol Roberts a Mr Derek Jones (Brawd) am y gwasanaeth angladd urddasol a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Diolch i Mr Iwan Wyn Williams, yr organydd, i Gwynfor Jones a Jane o E.W. Pritchard am y trefniadau trylwyr a phroffesiynol, ac i staff Gwesty Dolbadarn am y lluniaeth. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdano tuag at Gronfa Cegin Eglwys Sant Padarn a Meddygfa Llanberis.

**Diolch** Dymuna Heulwen, Iris a Brenda a theulu'r ddiweddar Kathleen Mary Williams, gynt o 6 Glanrafon, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Gronfa Cegin Newydd Eglwys Sant Padarn a Chartref Plas Pengwaith. Diolch arbennig i'r holl ofalwyr yng Nghartref Plas Pengwaith am eu gofal caredig yn ystod y deng mis diwethaf. Diolch i'r Barchedig Ddr Carol Roberts am weinyddu'r angladd, i Iwan Williams am ei wasanaeth wrth yr organ ac i Gwynfor Jones am y trefniadau manwl a phroffesiynol.

**Plygu'r Eco** Yn dilyn penderfyniad Pwyllgor yr Eco, i'r Eco gael ei blygu gan yr argraffwyr o'r rhifyn hwn ymlaen, hoffwn ddiolch i'r rhai ohonoch a fu'n ymgymryd â'r gwaith plygu ers blynyddoedd bellach.

Diolch hefyd i Aneuryn am gael defnyddio Dolbadarn fel canolfan plygu/dosbarthu ers blynyddoedd a diolch arbennig i Marian, Dinorwig, am ei gwaith trylwyr ac am gadw trefn a disgyblaeth ar y plygwyr.

Rhag ofn imi anghofio gwneud hynny, diolch i'r rhai fu'n dosbarthu'r Eco o gwmpas yr ardal, ac i'r siopau lleol am werthu'r Eco yn ddielw.

**Y Gymdeithas Undebol** Cawsom noson ardderchog i agor Y Gymdeithas Undebol ar yr 8fed o Hydref yn Festri Capel Coch yng nghwmni Treflyn ac Ann, o Porthmadog. Roedd Treflyn yn meddu ar lais baritone gwych, a chanodd amrywiaeth o ganeuon. Ann, ei briod, oedd yn cyfeilio yn hynod o fedrus ar y piano.

'Roedd pawb wedi mwynhau'r noson. Cafwyd lluniaeth ardderchog a sgwrs ar y diwedd. Diolch i bawb a fu'n ddiwyd yn paratoi ar gyfer y noson, ac yn clirio wedyn.

Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard, a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Robin Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar 12fed o Dachwedd yn Festri Capel Coch am 7yh. Pryd hynny, cawn gwmni Mrs Gwen Jones, Llanrug, yn rhoi sgwrs ar "Dyddiadur fy Mam", sef y diweddar annwyl Mrs Dilys Baylis. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Cewch banned a sgwrs ar y diwedd.

**Cyngor Cymuned** Diolch i'r Cyngor am drefnu i'w cofnodion gael eu cynnwys yn yr Eco, cofiwch eu darllen!



### NOSON O DRAFOD Â PHOBL IFANC LLANBERIS

Bu Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Arfon, Hywel Williams AS, yn cyfarfod â phobl ifanc Clwb Ieuenctid Llanberis mewn noson ddifyr o sgwrsio a thrafod ddiwedd Medi.

Daeth nifer o bobl ifanc yr ardal i wrando a chymryd rhan mewn trafodaeth â Mr Williams wrth iddo drafod ei waith fel Aelod Seneddol a'r hyn mae'n ei wneud yn San Steffan ar ran pobl Arfon.

Ymysg y pynciau dan sylw oedd gostwng yr oedran pleidleisio i 16, y rhyfel cartref yn Syria a gwaith Aelodau Seneddol o ddydd i ddydd. Ar ddiwedd y noson cafwyd pleidlais tebyg i'r rhai sy'n cael eu cynnal yn y Senedd, ar y cwestiwn 'A ddylai'r oedran pleidleisio gael ei ostwng i 16?' Roedd hanner y gynulleidfa o blaid a'r hanner arall yn erbyn.

Dywedodd Mr Williams, "Mae'n bwysig ein bod ni fel gwleidyddion yn cyfathrebu â'r genhedlaeth iau er mwyn egluro iddyn nhw pa mor bwysig yw gwleidyddiaeth yn ein bywydau bob dydd. Roeddwn yn falch o weld cymaint o bobl ifanc ardal Llanberis yn dangos y fath ddiddordeb yn y maes."

Ychwanegodd Mr Williams, "Mae'n amlwg o dreulio amser â'r bobl ifanc bod ganddyn nhw farn bendant ar amryw o bynciau a bod ganddynt ddealltwriaeth o rai o'r materion gwleidyddol pwysig sydd yn y newyddion. Cafodd y plant gyfle hefyd i edrych ar lyfryn Cymraeg sydd wedi ei gyhoeddi gan wasanaeth addysg y Senedd, yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am yr hyn sy'n digwydd yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi."



Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!


Peidiwch gori ar stori


Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!




Eco Tachwedd 2013.indd 25 29/10/2013 08:30

# Ysgol Dolbadarn



**Dosbarth Meithrin** Croesawyd 29 o blant i'r Dosbarth Meithrin ac rydym yn falch o weld eu bod wedi setlo'n dda yn y dosbarth.





**Ffair Nant Peris** Yr oedd yn fraint cael cystadlu yn Ffair Nant Peris eleni a bu i bob disgybl yn yr ysgol addurno llwy bren ar gyfer yr achlysur. Llongyfarchiadau i'r rhai oedd yn fuddugol.

Caffi Caban
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

**Grŵp Gwyrdd** Dyma gynrychiolwyr y Grŵp Gwyrdd am eleni
Blwyddyn 3: Cadi Roberts a Dafydd Mullane
Blwyddyn 4: Lisa Rowlands a Jack Booth
Blwyddyn 5: Melody Haston Wilson a Connor Roberts
Blwyddyn 6: Llew Williams a Lowri Collins

**Cyngor Ysgol** Dyma gynrychiolwyr y Cyngor Ysgol am eleni.
Blwyddyn 2: Charlie Jackson ac Annie Chester
Blwyddyn 3: Dewi Jones a Nel Hughes Jones
Blwyddyn 4: Joe Chester ac Eira Daimond
Blwyddyn 5: Ruby Wood a Billy Jones
Blwyddyn 6: Sion Huw Owen ac Elin Tomos
Cynrychiolydd Meithrin: Alun Owen
Cynrychiolydd Dosbarth Derbyn: Natalie Meed
Cynrychiolydd Blwyddyn 1: Charlie Panton

*Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun 'Let's Grow' gan Morrisons. Cofiwch anfon y talebau i'r ysgol os gwelwch yn dda.*






**Taith i Gonwy** Bu disgyblion yr Adran Iau ar daith i Gonwy yn ddiweddar er mwyn ymweld â Phlas Mawr a gwarchodfa natur yr RSPB. Maent wedi bod yn astudio bwyd yng nghyfnod y Tuduriaid a phlanhigion yn eu cynefinoedd yn ystod y tymor, ac yr oeddynt wedi paratoi cwestiynau i'w gofyn o flaen llaw. Bu i bawb fwynhau y diwrnod yn fawr iawn- yn enwedig y daith ar hyd y bont ac ar lan yr Afon Conwy.

GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362 07979620996





**Ras Beicio 'Tour Of Britain'** Cafodd y disgyblion hynaf gyfle i brofi gweithgareddau beicio yn ystod yr achlysur pwysig hwn a bu gweddill y plant am dro ar hyd y pentref er mwyn gweld y dathliadau ar holl gynnwrf.

**Bingo** Cynhaliwyd Noson Bingo yng Ngwesty Dolbadarn i godi arian i'r Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion a llwyddwyd i godi £205. Diolch yn fawr i'r Gwesty ac i'r merched am drefnu y noson.

**Yr Urdd** Mae nifer o blant wedi ymaelodi am y flwyddyn 2013-2014 ac mae gweithgareddau eisoes wedi cychwyn. Yng Nglwb Mistar Urdd bu'r plant yn brysur yn creu collage o bysgod gyda chroen nionyn a chopio pennill i fynd a'r llun.

**Profiad Gwaith** Croesawyd 4 disgybl o Ysgol Brynrefail i'r ysgol ar gyfer wythnos o Brofiad Gwaith. Diolch i Lois Williams, Hanna Owen, Sioned Roberts a Lauren Roberts am eu gwaith caled gydol yr wythnos.

**Ymweliad gan yr Heddlu** Daeth PC Meirion Williams i'r Ysgol i sgwrsio am beryglon Camddefnyddio Cyffuriau gyda'r ysgol gyfan.

## STANLEY JONES

Bu farw Stanley Jones, 60 Dôl Elidir, Llanberis, yn dawel wedi cystudd hir yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd, yn 80 oed ar y 3ydd Hydref, 2013. Ganwyd Stan yn Stryd Cambrian, Llanberis, ar y 17eg o Dachwedd, 1932, yn bumed o saith o blant i Edith a Robert Henry Jones (Bob Maes Llwyn). Bu'n byw yn Llanberis ar hyd ei oes. Gadawodd yr ysgol i weithio yn y chwarel gyda ei dad. Cwblhaodd ei Wasanaeth Cenedlaethol gyda chatrawd y Royal Welch Fusiliers yn y Caribî, a threuliodd yr amser helaethaf yn Jamaica. Bu'n gweithio yng Ngorsaf yr Wylfa, Ynys Môn a Gorsaf Drydan Dinorwig.

Ei deulu oedd ei angor; roedd yn ŵr ffyddlon Phyllis am dros 54 mlynedd, tad annwyl Bryn, Dylan, Menai, Iolo, Iorwen, Bethan a Llinos, tad-yng-nghyfraith, taid, hen-daid, brawd, brawd-yng-nghyfraith, ewythr a chefnder hoffus. Ei brif ddiddordebau oedd pysgota, garddio, gwaith coed a cherdded. Roedd yn gymwynaswr tawel, gŵr poblogaidd, hoffus, hwyliog a chyfeillgar, ac roedd ganddo gylch eang o ffrindiau da.

Bydd colled fawr ar ei ôl.

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd urddasol yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar y 10fed Hydref, a rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Barchedig Ddr Carol Roberts a Mr Derek Jones (Brawd). Yr organydd oedd Mr Iwan Wyn Williams. Derbyniwyd rhoddion hael iawn er cof amdano uag at Gronfa Cegin Eglwys Sant Padarn a Meddygfa Llanberis. Cynhaliwyd te'r angladd yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Trefnwyd yr angladd gan Gwynfor Jones a Jane o E. W. Pritchard, Llanberis.

Dyma rhan o'r deyrnged a dalwyd iddo gan aelodau ei deulu agosaf:

**Ffydd, Gobaith, Cariad**


Er y tristwch yn ein calonnau
Wrth edrych ar ei arch o'n blaenau,
Nac ofnwch, medd Crist Tywysog Hedd,
Gofalaf amdano y tu draw i'r bedd.

**Er Cof am Stanley Jones**

Ei hafau ger yr afon, - fan honno
Fu'n anwes i'w galon;
Pysgotwr, ffrind a gwron
Ar ei daith tu draw i'r don.

*BJ*

GLANHAWR SIMDDE
Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwy
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do
Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305
WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



Eco Tachwedd 2013.indd 27
29/10/2013 08:30


*Addurno Llwy Bren Blwyddyn 3 - Sion Jones.*

## GŴYL FFAIR NANT (Medi 15–21)

Dydd Sul. Yn dilyn diwrnod prysur yn addurno Eglwys St. Peris, cafwyd sioe flodau benigamp drwy'r wythnos. Cafwyd ymateb syfrdanol i'r apêl am roddion o flodau ac mae aelodau'r Eglwys yn wirioneddol ddiolchgar i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

Nos Fawrth. Noson cwis yn Nhŷ'n Llan.


Nos Fercher. Cystadleuaeth pwl. Yn dilyn noson ddifyr iawn, enillwyr y ddwy darian oedd John Ellis ac Aled Davies.

Nos Wener. Noson garioci i bawb yn Nhŷ'n Llan a chafwyd noson gofiadwy!

Dymuna aelodau Pwyllgor Gŵyl Ffair Nant ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr wythnos mewn unrhyw fodd - bu'ch cefnogaeth hael yn arbennig iawn. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesa!


*Bwgan Brain - Helen Wilcox a Sue Niebrzydowski.*

**Enillwyr Categoriau Dosbarthiadau Celf a Chrefftau**
**DISGYBLION YSGOL GYNRADD**
**Coginio**
Chwe chacen cwpan wedi eu haddurno: 1af – Sion Jones; 2il – Joseff Closs-Stacey & Erin Jones; 3ydd – Ioan Aled Williams
**Celf a Chrefft**
Addurno llwy bren
Dosbarth Derbyn: 1af – Macsen; 2il – Libby W; 3ydd – Ceian & Toby.
Blwyddyn 1: 1af – Zoe; 2il – Jack; 3ydd – Sam.
Blwyddyn 2: 1af – Logan; 2il – Charlie; 3ydd – Awel.
Blwyddyn 3: 1af – Sion; 2il – Chloe; 3ydd – Elin.
Blwyddyn 4: 1af – Ffion; 2il – Hazel; 3ydd – Jack.
Blwyddyn 5: 1af – Nia; 2il – Deio; 3ydd – Ioan.
Blwyddyn 6: 1af – Ffion; 2il – Cerys; 3ydd – Llew.
**MYFYRWYR YSGOL UWCHRADD**
Unrhyw eitem o gelf neu grefft: 1af - Emily
**Diodydd**
**OEDOLION YN UNIG**
Unrhyw ddiod alcoholig: 1af – Nia Williams; 2il – Dominic; 3ydd – Linda Beaven.
**Categoriau yn dilyn - agored i bob oed.**
**Coginio a llysiau** - Unrhyw gacen
Cacen wedi ei haddurno: 1af – Caryl Baylis.
Cacen sbwng: 1af – Carys Williams; 2il – Diana Davies; 3ydd – Carys Williams.
Crwst: 1af – Elinor Hughes; 2il – Diana Davies.
Unrhyw lysieuyn gydag edrychiad doniol: 1af – Dave Compton.
**Cyffeithiau**
Jam, jeli neu farmalêd: 1af – Jim Cumberton; 2il – Anne Cumberton; 3ydd – Dave Compton.
Catwad neu bicl: 1af – Alan Bee; 2il – Alan Bee; 3ydd – Anne Cumberton.
**Trefniant blodau gyda'r thema "Llechi"**
Trefniant blodau sy'n ymgorffori'r thema: 1af – Amy King; 2il – Shirley Davies; 3ydd – Linda Beaven.
**Ffotograffiaeth gyda'r thema "Ein Bro"**
Unrhyw waith ffotograffiaeth (lliw neu du a gwyn) yn seiliedig ar y thema: 1af – Carol Houson; 2il – Amy King; 3ydd – Amy King.
**Gwaith gwnio**
Unrhyw eitem wedi ei grosio, wau neu bwyth croes: 1af – Dorothy Jones; 2il – Pam Manwaring & Pam Manwering; 3ydd – Anne Cumberton & Carys Davies.
Cwilt clytwaith: 1af – Gwenda Roberts; 2il – Gwenda Roberts; 3ydd – Rachel Jose.
**Crefft**
Unrhyw ddarn diweddar o waith coed, gwydr, carreg neu emwaith: 1af – Dave Holmes; 2il – Karen Jones ac Adam Hughes; 3ydd – Carol Houston.
**Categori agored**
Bwgan brain: 1af – Helen Wilcox a Sue Niebrzydowski; 2il – Linda Beaven; 3ydd – Erin Jones a Sion Jones.
**Tlws Gorau yn y Sioe**
Elinor Hughes
**LIMRIGAU:** Tarian Goffa Moreen Lennon am y limrig orau:
Cymraeg: Tomos Bleddyn Jones
Saesneg: Dave Compton



*Unrhyw gacen wedi eu harddurno - Caryl Baylis.*


*Stondin ar y cae - 'Human fruit machine'.*


*Trefniant Blodau - Amy King.*


*Tarten Afal - Elinor Hughes - Tlws gorau yn y sioe.*


*Gemau oedd ar gael ar y cae.*


*Chwe chacen wedi eu harddurno - Joseff Closs-Stacey.*



Eco Tachwedd 2013.indd 28 29/10/2013 08:30

# Siomedig.

Gallai fod yn well – ond mae wedi bod yn waeth! Dim ond pump o swyddogion y papur a fynychodd Gyfarfod Blynyddol yr "Eco" yn Llanrug fis diwethaf. Derbyniwyd dau ymddiheuriad.

Adroddwyd fod y swyddogion wedi cyfarfod nifer o weithiau dros y flwyddyn ddiwethaf (gan gynnwys rhai cyfarfodydd ar y cyd a phapurau bro eraill a hefyd a chynrychiolwyr o gylchgrawn Golwg). Fel yr adroddwyd eisoes yn rhai o rifynnau blaenorol yr "Eco", y bwriad yw sefydlu safle gwe/facebook yn enw'r papur, ond mae angen gwirfoddolwr/wyr sy'n barod i gynorthwyo gyda'r dechnoleg angenrheidiol. Ni all y swyddogion presennol ysgwyddo mwy o faich.

Yn yr adroddiad golygyddol adroddwyd fod mwy o ddeunydd yn cael ei anfon i'r papur bellach, gan gynnwys amrywiaeth o luniau, a'r rheini, ar y cyfan, o well safon. Mae prinder 'straeon' o ambell bentref, a hynny o bosibl yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gohebwyr y gwahanol bentrefi. Mae nifer o unigolion yn parhau i 'anghofio' anfon deunydd er cael eu hatgoffa. Cofiwch, waeth i chi heb a chwyno wedyn nad oes adroddiad am eich digwyddiad 'chi' yn y papur.

Bellach, ceir adroddiadau rheolaidd gan gynghorau cymuned Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug, ond dim son am y Waunfawr. Bydd angen cwtogi peth ar gynnwys adroddiadau Llanberis a Llanddeiniolen oherwydd diffyg gofod yn y papur. Byddai'n braf derbyn adroddiadau achlysurol gan gynghorwyr Gwynedd.

Diolchwyd i'r cyfrannwyr rheolaidd – Y Parch John Pritchard, Hugh Hughes a Norman Closs Parry ac i Gareth Roberts am gychwyn anfon adroddiadau am deithiau cerdded. Diolch hefyd i Gwynfor James, Deiniolen am roi caniatad parod i ddefnyddio lluniau o'i wefan ar gyfer y dudalen chwaraeon.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd i gynnal y papur.

Penderfynwyd y bydd pedair tudalen ychwanegol mewn lliw o rifyn Chwefror 2014, gyda phris y papur yn codi fis Ebrill i 60c y rhifyn neu £6 y flwyddyn. Penderfynwyd hefyd mai'r wasg fydd yn plygu'r papur o hyn ymlaen, ac mai bwndelu yn unig a wneir yn y gwahanol bentrefi, gan gadw at y drefn arferol o 'ymweld' a phob pentref yn y dalgylch yn ei dro.

**Taflen Ariannol "Eco'r Wyddfa".**
**Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2013**

| | | |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Gwerthiant | 7540.87 | |
| Hysbysebion | 9586.89 | |
| Dosbarthu Taflenni | 185.00 | |
| Rhoddion | 2402.50 | |
| **Grantiau** | | |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 00.00 | |
| Cynghorau Cymuned | | |
| Llanberis | 500.00 | |
| Llanddeiniolen | 300.00 | |
| Llanrug | 700.00 | |
| Waunfawr | 200.00 | 1700.00 |
| | | 66.00 |
| Llog Banc | | 7.41 |
| | | **21488.67** |
| **Gwariant** | | |
| Offer | 397.19 | |
| Argraffu | 13178.00 | |
| Dylunio | 2895.00 | |
| Teipio | 2860.00 | |
| Post | 866.20 | |
| Papur, Amlenni, ayyb | 41.39 | |
| Costau Banc | 8.00 | |
| Costau cyfarfodydd | 197.00 | |
| | | 20442.78 |
| **'Elw' am y flwyddyn** | | **1045.89** |

menter fachwen
y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**Cynllun Cerdded A Darganfod Menter Fachwen**
**Teithiau Cerdded A Digwyddiadau Tachwedd 2013**

**GWENER 8.11.13 10yb**
HANES RAF LLANDWROG (3 milltir)
CYCHWYN: Caffi Maes Awyr Caernarfon. CYMEDROL. SGIDIA CERDDED.

**MERCHER 13.11.13 7yh**
NOSON AR WAITH MAPIO WAUNFAWR
GANOLFAN GYMUNED WAUNFAWR

**SADWRN 16.11.13**
DWY DAITH PONTYDD MENAI
10.30yb PORTHAETHWY/ BONT BORTH (2 filltir)
CYCHWYN: Maes Parcio Coed Cyrnol. CYMEDROL.
1.00yp BONT BRITANNIA (1½ milltir)
CYCHWYN: Cilfan Coed Môr (rhwng Borth a Llanfair P.G.)
ANGEN SGIDIAU CERDDED

**MERCHER 20.11.13 10yb**
LLANRUG: PLASTIRION/PANT IFAN (4 milltir)
CYCHWYN: Y Sgwar,Llanrug. CYMEDROL.
ANGEN SGIDIAU CERDDED.

**IAU 28.11.13 7yh**
NOSON GWYLIO'R SÊR (¾ milltir)
CYCHWYN: Allt Ddu, Dinorwig. HAWDD.
DIBYNNOL AR Y TYWYDD - FFONIWCH GARETH AR 07867 810576 YN Y PRYNHAWN NEU CYN CYCHWYN. GWISGWCH YN GYNNES A DEWCH A FFAGL GYDA CHI.

MIS NESAF: TAITH GERDDED HANES RHIWLAS/ PENTIR, NOSON ARALL I WYLIO'R SÊR (OS BYDD YR UCHOD WEDI EI OHIRIO) A TAITH 27 RHAGFYR (I WARED A'R PWYSAU CINIO DOLIG!!!).

# Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai yn Adeilad yr Institiwt, Caernarfon, ar nos Fawrth, 19eg Tachwedd, am 7.30 o'r gloch. Bydd Geraint Thomas, Siop Panorama, Caernarfon yn cyflwyno '50 o Lefydd Llenyddol'. Croeso cynnes i bawb ac estynnir croeso arbennig i Ddysgwyr i'r cyfarfod hwn. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

**Theatr Bara Caws**

## 'LLANAST!'

**12 TACHWEDD – 30 TACHWEDD 2013**

*Yr Actorion: Emlyn Gomer, Rebecca Harries, Lauren Phillips a Llion Williams*

*Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd*

Bydd perfformiadau agosaf i ardal yr Eco yn Galeri Caernarfon ar y nosweithiau canlynol. Pob perfformiad i gychwyn am 7.30 yn brydlon. I sicrhau tocynnau ffoniwch y swyddfa docynnau ar 01286 695222

Nos Fawrth, Tachwedd 12
Nos Fercher, Tachwedd 13
Nos Iau, Tachwedd 14

## Cefnogwch ein hysbysebwyr



Eco Tachwedd 2013.indd 29 29/10/2013 08:30



*Rhai o aelodau'r clwb ieuenctid gyda Mici Plwm yng nghyfarfod Merched y Wawr.*

**Merched y Wawr** Dechreuodd y tymor newydd gyda noson hwyliog dros ben pan ddaeth Mici Plwm atom i rannu rhai o'i atgofion am anturiaethau a gafodd dros y blynyddoedd yma yng Nghymru ac ym mhedwar ban byd. Roedd ymateb y gynulleidfa i'r straeon yn arwydd o'r mwynhad mawr a gafwyd. Roedd y gangen wedi penderfynu agor y cyfarfod i bawb yn y pentref ac, yn wir, fe fentrodd un neu ddau o ddynion dewr i'n mysg. Ond pleser o'r mwyaf oedd cael cwmni criw o'r clwb ieuenctid a ddewisodd ymuno â ni a chael mwynhad mawr o wrando ar Mici. Diolch arbennig i'r criw bonheddig am eu cymorth parod i baratoi a chlirio'r Neuadd Fach.


Mae Merched y Wawr yn cynnal Ysgol Undydd i Ddysgwyr ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 16eg, ym Mangor ac yn gofyn am wirfoddolwyr i fynd i sgwrsio â nhw rhwng 2.00 a 3.30yh. Os oes rhai ohonoch yn rhydd i fynd, cysylltwch â mi, Gill Wyn, ac fe ro' i'r manylion i chi.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, fydd yn gyfyngedig i'r aelodau y tro hwn, ar Hydref 24ain. Noson o waith llaw fydd gennym dan ofal Pat Jones, Cwm y Glo a gofynnir i bawb ddod â £1 tuag at gostau defnyddiau.

**Priodas** Dydd Sadwrn, Hydref 5ed, yng Ngwesty Seiont Manor, priodwyd Gethin ac Ann Jones, Llain Alaw. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi.

**Bedydd** Brynhawn Sul, Hydref 20fed, yn ystod gwasanaeth arbennig yn Eglwys Betws Garmon, gyda'r Rheithor Roger Donaldson yn gweinyddu, bedyddiwyd Eila Rees, merch fach Iona a Geraint, Cae Adda.

YSGOL YRRU
ELIDIR
Driving School
Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG
07922121226
NEU
(01286) 882269
GWERS GYNTAF 2 AWR AM BRIS 1



GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed: Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

**Sefydliad y Merched** Mewn cyfarfod o'r Sefydliad ar y 3ydd o Hydref, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mr a Mrs Dixon o Lanfwrog, Sir Fôn, yn westeion am y prynhawn. Mae Mrs Dixon yn Ddeintydd a'i gŵr yn Seiciatrydd ac mae'r ddau yn mynd i Cambodia bob blwyddyn i helpu allan gyda phlant o gartrefi tlawd. Maent yn helpu mewn ysgolion ac yn rhoi triniaeth ddeintyddol i rai sydd ei angen arnynt ac yn trin eu cyflwr meddyliol. Pan yn mynd yno maent wedi gofalu fod ganddynt bethau fel llyfrau ac eitemau eraill sydd o help iddynt at eu haddysg. Roedd rhai o'r lluniau a ddangoswyd ganddynt o'r plant yn dangos mor falch oeddynt o'u derbyn. Roedd yr aelodau i gyd yn eu hedmygu am eu hymroddiad.

Diolchodd Pat iddynt am eu sgwrs ddiddorol iawn. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Rose Ann, gan Carol. Ar 7 Tachwedd, cynhelir y Cyfarfod Blynyddol.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Medi oedd: £30: Mrs Ellen Roberts, Bodrida; £20: Mrs Cadi Jones, Nant; £10: Mrs Ann Jones, Croesor.

**Noson Siopa Dolig** Cynhelir Noson Siopa Dolig yn y Ganolfan, Waunfawr o 7 o'r gloch ymlaen ar nos Wener, Tachwedd 15fed.

Pris mynediad (i rai dros 16 oed yn unig) fydd £2. Elw at Gronfa Cyfeillion Ysgol Waunfawr. Dewch yn llu i gymdeithasu a chefnogi busnesau a chrefftwyr lleol.

**Pen-blwydd Arbennig** Yn ystod y mis bu tri o bobl ifanc y pentref yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Llongyfarchiadau i Erin Ynyr, Dolwar Fach; Anest Bryn, Perthi ac Alun, Fron Deg. Dymunwn yn dda i'r tri ohonoch i'r dyfodol.

**Babanod Newydd** Ganwyd merch fach, Lara Siôn i Gwen a Rhodri, Tŷ Pen, Stad Llys y Waun, chwaer a ffrind i Miri Siôn ac wyres fach newydd i Irene a John, Pant Teg.

Daeth Olwen Owen, Stad Tref Eilian, yn hen nain i Megan Elisabeth, merch fach i'w wyres, Siân a'i chymar Alun, a dyma Gwenno, Syrjyri Liverpool House yn nain am y tro cyntaf.

Daeth Sharon Lewis, Stad Tref Eilian, yn nain a Gethin Williams, Ardwyn, yn daid i Caleb, mab bach i Emma a Tim. Gor-ŵyr i Sulwen Lewis, Stad Bryn Golau, ac mae Rol Williams, Ardwyn, yn hen daid i'r bychan.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd, mwynhewch gwmni y rhai bach.

**Dymuno** Gwellhad Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Sioned Parry, Cefn y Waun, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth. At Manon Williams, 7 Ael y Bryn, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl. At Duncan Brown sydd wedi derbyn triniaeth ar ôl iddo anafu ei droed, ac at Mr Rol Williams, Ardwyn, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Hyderwn y byddwch yn cryfhau yn ddyddiol ac y byddwch allan o gwmpas y pentref yn fuan.

**Cydymdeimlo** Anfonwn ein cofion cynhesaf at y teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth o golli un annwyl iddynt yn ystod yr wythnos diwethaf:
At Gwyneth a theulu Llys Meredydd yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt.
At Nesta Eluned, Tremnant, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Tom Arfon, a oedd yn byw yn Pen y Graig (gynt).
At Janice a theulu Bryn Menai wedi iddynt golli mam a nain annwyl iawn iddynt.
At Mrs Olwen Owen, Noddfa, Stad Tref Eilian, sydd wedi colli ei chwaer, Rhiannon, o Gaernarfon.
At Evelyn Anderson, Bod Arfon, Stad Tŷ Hen, ac Eric ac Emyr, ei brodyr, yn eu profedigaeth o golli Ifor, eu brawd hynaf.
At deulu Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, yn eu profedigaeth o golli chwaer Dylan, a oedd yn byw yn America.
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn a chi oll yn eich profedigaeth a'ch galar.




Eco Tachwedd 2013.indd 30 29/10/2013 08:30

## YSGOL WAUNFAWR







**Glanllyn** Treuliodd 14 o blant blwyddyn 5 a 6 dridiau pleserus iawn yng Nglanllyn ddechrau mis Hydref gyda disgyblion Ysgol Bethel. Diolch i'r athrawon a fu'n goruchwylio'r plant dros y tridiau. Dyma rhai o atgofion y plant o'u hamser yng Nglanllyn

**Dydd Mercher yr 2il o Hydref gan Efa blwyddyn 5**
Bore ddydd Mercher roeddwn mor gynhyrfus oherwydd roedd blwyddyn 5 a 6 yn mynd i Glanllyn gyda'r ysgol am dridiau. Am hanner awr wedi naw fe gyrhaeddodd y bws gyda phlant Ysgol Bethel roedden nhw hefyd yn aros gyda ni yno. Doeddwn i ddim yn hoffi'r trafeilio o gwbwl! Ond fe gyrhaeddom Glanllyn yn saff .Roedd pawb yn edrych ymlaen ond ddim yn siŵr iawn ble i fynd na beth i'w wneud. Y peth cyntaf oedd cael sgwrs gan Llinos un o'r swyddogion am y rheolau diogelwch. Mynd yn syth wedyn am ginio. Bowlio deg wedyn yn y pnawn a fi oedd enillydd genod blwyddyn 5 - hwre!! .Ar y bws wedyn i Bala i nofio a mwynhau.

**Dydd Iau gan Sion Ifan blwyddyn 6**
Cawsom ddiwrnod prysur arall. Ar ôl brecwast aethom yn syth ar y wal ddringo. Dringais i ben dwy wal heb ddisgyn. Diolch byth!!. Nesaf cawsom daith ar y llyn. Clywsom ffeithiau diddorol am yr ardal cyn cael cwis nes ymlaen. Ein hochr ni o'r gwch enillodd y cwis! .Aethom i ganŵio ar ôl cinio, ac ar ôl newid i ddillad sych roeddwn yn socian eto! Adeiladu rafft wnaethom ni wedyn o bren, rhaffau a chasgenni. Roedd o'n eithaf anodd ond mi wnaethom ni orffen yn y diwedd ac fe arnofiodd y rafft am ychydig. Gyda'r nos cawsom gêm o Bingo a cwis a wedyn cawsom wylio ffilm a oedd yn ddoniol iawn.

Nos Iau gan Meilir Parrry blwyddyn 6
Ar ôl y Bingo aethom i'n hystafell. Cawsom ni gêm o gardiau ar wely Sion oherwydd mai gwely Sion oedd yn y canol. Ar ôl y gêm gorweddodd pawb yn eu gwely ond roedd Dylan yn chwarae efo rhyw spring. Gafaelais yn fy fflachlamp a cherddais yn ddistaw fel llygoden at ei wely a chliciais y botwm ar ei wyneb! Roedd yn werth gweld gwyneb Dylan!!

**Dydd Gwener gan Poppy Burns blwyddyn 5**
Y weithgaredd olaf aethom ni ar yr 'high ropes' ac roeddwn i yn edrych ymlaen gymaint. Ond roeddwn i'n meddwl y buasai'n gyflym iawn ar y naid uchel a ni allais ei wneud o! Fe driais i sawl gwaith a methu achos roedd o braidd yn ddychrynllyd. Efallai gallaf ei wneud o gobeithio y flwyddyn nesaf.

**Y pethau gorau yn ôl y plant**
Roedd y bwyd yn neis iawn. Roedd yn gymdeithasol bwyta gyda ein gilydd. Yr 'high ropes' oedd y weithgaredd orau a'r ystafelloedd newydd - Gwion Bl 6
Roedd Glanllyn yn arbennig - Meilir Nl6
Cawsom amser gwych yng Nglanllyn - Sion Ifan
Mae Glanllyn yn Cŵŵl!!! – Efa
Wel wir, ges i lawer iawn o hwyl yng Nglanllyn a dwi'n edrych ymlaen i fynd yna'r flwyddyn nesaf – Poppy
Rwy'n gobeithio mynd nôl eto! – Gwion
Aethom i gysgu am ddau o'r gloch y bore!!!! Ddudai ddim pwy ddwedodd hynny! Da bod yr athrawon ddim yn gwybod bob peth!!?

**Hyfforddiant Beicio**
Derbyniodd Blwyddyn 6 hyfforddiant Beicio Lefel 1 a 2 cyn yr hanner tymor. Diolch i Delyth, mam Gwion a Mabon, am gynnal yr hyfforddiant.

**Nosweithiau Rhieni**
Cynhaliwyd nosweithiau i'r rhieni cyn hanner tymor. Bydd Mrs Sioned Parry yn cynnal ei chyfarfodydd hi gyda'r rhieni ar ôl iddi ddychwelyd i'r gwaith. Diolch i bawb o'r rhieni a ddaeth i'r cyfarfodydd cafwyd cynrychiolaeth arbennig o dda.

**Ras Eryri** Cynhelir y ras ddydd Sadwrn, Hydref y 26ain. Diolch ymlaen llaw i'r rhieni hynny sydd wedi gwirfoddoli i helpu ar y diwrnod.

**Diolch** i'r Parchedig Gwenda Richards am roi anerchiad i'r plant yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch, ddydd Gwener, Hydref y 25ain.

Dymunwn wyliau hanner tymor pleserus i bawb.

GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
• Pob math o ddodrefn tŷ
• Cegin, 'stafell fyw, llofft
• Prisiau cystadleuol
• Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanberis

**Crynodeb o benderfyniadau cyfarfod Medi.**

**CROESAWU CRAIG AB IAGO:**

Cafwyd cyflwyniad byr i waith Cynghrair Cymunedau Cymraeg gan y Cadeirydd Craig ab Iago. Roedd y cyfan wedi deillio o ymdrechion i adfywio Dyffryn Nantlle a phryder am yr iaith, a'r teimlad fod angen gwneud rhywbeth yn hytrach na disgwyl wrth eraill. Datblygwyd y syniad o ddod a phobl a chymunedau at eu gilydd trwy'r Gynghrair er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng y cymunedau Cymraeg a dod i ddeall am lwyddiannau ardaloedd eraill a'r hyn sy'n bosib ei gyflawni.

Credir fod 'undeb mewn nerth' ac y byddai'n haws gyda chorff fel hyn i ddylanwadu ar lywodraeth leol a chanolog a dywedwyd bod addewid gan Lywodraeth Cymru y byddai'n ystyried sut i gynorthwyo grwpiau cymunedol yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae rhyw 24 o grwpiau a chynghorau yn perthyn i'r Gynghrair, ond mae angen mwy.

Yn dilyn y cyflwyniad penderfynwyd na chafwyd llawer o dystiolaeth am weithgarwch y Gynghrair na chwaith ei weledigaeth ond teimlwyd serch hynny y dylid ei chefnogi, ac ymaelodi fel Cyngor i weld beth a ddaw ohoni. Mae digon o angen cryfhau cymunedau a'u Cymreigio. Dywedwyd mai 64% o blant Ysgol Dolbadarn oedd yn dod o gartrefi lle'r oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf.

**Defaid Crwydrol:**

Adroddwyd bod defaid yn dal yn broblem. Roedd y Clerc wedi siarad eto gyda perchennog y tir ond heb gael addewid ganddo o ddyddiad gosod y grid gwartheg. Ychwanegodd ei fod yn colli amynedd ac roedd wedi pwyso ar y perchennog i drefnu yn fuan gyda Cyngor Gwynedd fel na fyddai unrhyw oedi pan fyddai ganddo amser i osod y grid.

**Cae'r Ddôl:**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc iddo drafod mater Cae'r Ddôl a'r awydd oedd gan Y Ganolfan i'w brydlesu gyda un o swyddogion Cyngor Gwynedd. Yn ôl un o swyddogion Cyngor Gwynedd fyddai hynny ddim yn bosibl gan mai y Cyngor oedd Ymddiriedolwr/wyr Y Ganolfan ac na allai'r Cyngor brydlesu rhywbeth iddo ei hun, felly fyddai dim modd i Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan sicrhau prydles. I gynghorau cymuned y mae Cyngor Gwynedd yn prydlesu'n arferol, lle mae sicrwydd o drefn a pharhâd.

Derbyniwyd yr adroddiad ond mynnodd mwy nag un aelod nad oedd y sefyllfa'n dderbyniol ac nad oedd y cae'n cael ei reoli er budd trigolion Llanberis. Roedd yr aelodau yn sylweddoli fod y cae'n adnodd pwysig i Cyngor Gwynedd, a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer atyniadau amrywiol o bwys a oedd yn dod a budd economaidd i Lanberis, a sylw i Wynedd ac Eryri, ond mynwyd ei fod yn adnodd pwysig i bentref Llanberis a'i ieuenctid.

Yn fyr nodwyd nad oedd cyflwr y cae bob amser yn addas i blant, nad oedd y glaswellt yn cael ei dorri'n rheolaidd. Dywedodd y Clerc i'r Cyngor gael ei atgoffa yn ddiweddar nad oedd rhai o ddefnyddwyr lleol y cae yn cysylltu fel y dylent a swyddogion Parc Padarn. Nodwyd fod y cae ar ôl rhai digwyddiadau mawr yn anaddas i'w ddefnyddio i chwarae peldroed. Yn ddiweddar dywedwyd fod plant wedi eu hanfon o'r cae a bod hynny wedi digwydd gyda cae UEFA hefyd, sydd yn cael ei reoli gan y Cyngor hwn.

Holwyd pam fod coed wedi eu plannu ar waelod y Ddôl a fyddai, fe honwyd, maes o law yn golygu na ellid gweld y llyn. Mynegwyd nad oedd y sefyllfa yn dderbyniol ac roedd rhai am weld rheoli'r cae yn lleol. Nodwyd y byddai hynny yn golygu cost ychwanegol, o bosibl ar y cyngor cymuned, a byddai angen ystyried ymhellach sut i weithredu, gan gofio nad oedd Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn teimlo bod unrhyw ddiffyg o gwbl yn rheolaeth y cae.

Ffyrdd:

Adroddwyd fod wyneb Ffordd Capel Coch mewn cyflwr drwg, ac nad oedd Lôn Fain, Nantperis byth wedi ei thrin.

Gorchymyn ynlgŷn â cyflymder:

Cafwyd dogfen yn ymgynghori ynglŷn â newid y cyfyngiadau cyflymder ar y briffordd o Lanberis i Gwm-y-glo. Awgrymir newid y 50mya i 40mya, ac ymestyn wedyn y cyfngiadau 30mya yn Llanberis ar y Ffordd Osgoi. Dim gwrthwynebiad.

**CYNLLUNIO:**

- **C13/0635/15/LL** - estyniad ail lawr i gefn yr eiddo (cais diwygiedig i'r un a gyflwynwyd ddau fis yn ôl) - 13 Stryd Turner, Llanberis - dim sylw.
- **C13/0865/15/LL** - codi estyniad cefn - Llwyn Padarn, Ffordd yr Eglwys, Llanberis. Roedd teimlad fod yr estyniad yn rhy fawr ac ymwthiol o gofio maint gwreiddiol yr adeilad.
- **NP3/15/213** - cynllun trydan dŵr arfaethedig yn cynnwys adeiladu un argae, adeilad tyrbin, gosod pibellau o dan ddaear, a gosod cebl trydan o dan ddaear - Afon Gafr, Fferm Ty Isaf, Nantperis - dim gwrthwynebiad o ran egwyddor ond holwyd a oedd angen tynnu'r dŵr o gymaint pellter a beth fyddai effaith hynny ar fywyd gwyllt yr afon?
- **NP3/15/214** - cynllun trydan dŵr arfaethedig yn cynnwys adeiladu un argae, adeilad tyrbin, gosod pibellau o dan ddaear, a gosod cebl trydan o dan ddaear - Afon Dudodyn, Fferm Fron, Nantperis - dim gwrthwynebiad o ran egwyddor ond holwyd a oedd angen tynnu'r dŵr o gymaint pellter a beth fyddai effaith hynny ar fywyd gwyllt yr afon?
- Adroddwyd bod gwaith adeiladu wedi dechrau yng Nglyn Peris, Nantperis, holwyd a oedd unrhyw newid wedi bod yn yr amodau cynllunio?

**Cadarnhawyd y taliadau.** Dyma restr o'r grantiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn: 2013

Grantiau 2013 - 2014

| | |
|---|---|
| Grwp Datblygu Llanberis | 2000 |
| Cymdeithas Undebol Llanberis | 250 |
| Timau Peldroed 'Colts', Llanberis | 400 |
| Eglwysi Sant Padarn a Sant Peris (T gwair) | 700 |
| Cylch Meithrin Llanberis a Nantperis | 50 |
| Ras Ryngwladol yr Wyddfa | 1000 |
| Ras y Plant | 300 |
| Clwb Ieuenctid Llanberis | 300 |
| Carnifal Nantperis | 300 |
| Clytweithwyr Peris | 250 |
| Geidiaid, Rainbows a Brownies Llanberis | 300 |
| Pwyllgor Gefeillio Llanberis - Morbegno | 250 |
| Pwyllgor Gefeillio Llanberis - Morbegno | 250 |
| Côr Meibion Dyffryn Peris | 200 |
| Clwb Antur Dyffryn Peris | 300 |
| Cynllun'EFE', eglwysi lleol | 150 |
| Eco'r Wyddfa | 500 |
| Theatr Bara Caws | 50 |
| Gwylfa Ty Eos / Nightingale House Hospice | 50 |
| Sefydliad Aren Cymru | 50 |
| Cofeb Genedlaethol Cymru - Fflandrys | 100 |
| Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 100 |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | 150 |
| Eisteddfod Llangollen | 50 |
| Bobath - Canolfan Therapi Plant Cymu | 50 |
| Camdriniaeth yn y Cartref (Llinell Gymorth) | 50 |
| Shelter Cymru | 50 |
| Age Cymru - Gwynedd a Mon | 50 |
| Dawns i Bawb | 50 |
| NSPCC | 50 |
| Gisda (Cartrefi i Ieuenctid) | 50 |
| Dyslecsia Cymru | 50 |
| Victim Support (Cymorth i Ddioddefwyr) | 50 |
| Cyfanswm 2013 - 14 | 8500 |
| Gwnaed y cyfraniadau print trwm eisioes | 4550 |
| Cyfanswm y Taliaadau (yn y Cyfarfod) | 3950 |

**Cymeradwyo Datganiad Blynyddol (Ariannol):**

Cyflwynwyd y Datganiad a ddychwelwyd oddi wrth yr Archwiliwr a gofynnwyd i'r Cyngor
ei gymeradwyo. Cytunwyd i wneud hynny gan nodi nad oedd y Cyngor y llynedd wedi
cofrestru gyda Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC), ond fod hynny bellach wedi ei gwblhau. ac fod system PAYE yn weithredol.

**Llwybrau:**

Mae'r giat ar ben steps ger Tyddyn Siarl wedi ei hail osod..

Adroddwyd nad oedd modd dilyn llwybr sy'n mynd heibio Gardda, Nantperis.

Adroddwyd bod sawl car yn cael ei barcio yn Lle Troi, Nantperis a Bod hynny yn ymyrryd a gwaith amaethyddol lleol. Gofynnwyd a fyddai modd cael arwydd 'Dim Parcio'.


BYSUS RHIWLAS



Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### *Cyngor Cymuned Llanrug*


Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg o Fedi croesawyd Alan Pritchard, oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf ers dychwelyd yn aelod ar ran ward Cwm y Glo a diolchwyd i Eryl Roberts oedd yn ymddeol ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth dros y gymuned.
Trafodwyd problem baw ci yn y gymuned a chlywyd fod cwyn wedi dod gan aelod o'r cyhoedd am faw ci ar hyd y llwybr ger Ogwen.
Sylwyd fod y gwaith ar giatiau'r fynwent wedi dechrau ond fod pryder y byddai defaid yn crwydro i'r fynwent hebddynt.
Dywedwyd fod llawer o sbwriel yng Nghae Chwarae Cwm y Glo ac nad oes bin ger y man sglefrio. Cytunwyd i prynu bin gan Menter Fachwen ac y byddent hwy yn fodlon ei wagio yn reolaidd.
Dywedwyd fod y gwaith yng Nghae Chwarae Glanmoelyn bron a'i gwblhau. Adroddwyd fod cwynion wedi'i derbyn ynglŷn â'r cae gan berchennog tŷ cyfagos sydd hefyd wedi gofyn am weld cofnodion y Cyngor am y deg mlynedd diwethaf. Penderfynwyd gwneud asesiad risg o ddifrod i eiddo gerllaw'r cae yn dilyn cwblhau'r gwaith.
Dywedwyd Penderfynwyd pasio cwyn fod coed angen eu tocio ar yr hen ffordd i Lanberis ymlaen i Gyngor Gwynedd.
Deallwyd fod y ceisiadau cynllunio canlynol wedi'i caniatau.
* Codi 15 stabl mewn dau adeilad newydd, creu milodfa a mynedfa newydd – Bryn Maen, Ceunant
* Estyniadau – Ceris, Lôn Groes, Llanrug
* Cais materion a gadwyd yn ôl o gais amlinellol – Tir Parc Isaf, Llanrug
* Codi estyniad cefn ar ben to fflat presennol a chreu balconi – Foelas, Cwm y Glo.
'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
* Newid defnydd ar gyfer lleoli 8 pabell foethus – Riverside Camping, Pontrug. (Ond penderfynwyd dweud fod y Cyngor yn bryderus am y corneli sydd cyn y tro pan yn teithio o Bontrug.)
* Codi tŷ a mynedfa newydd – Plotiau 2 a 3, cyn Garej Hafod, Llanrug.
* Codi adeilad amaethyddol er mwyn cadw da byw, peiriannau a gwair a gwellt – tir ger Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon (ond penderfynwyd dweud fod y Cyngor yn bryderus am y corneli sydd cyn y tro pan yn teithio o Bontrug)
Penderfynwyd gwrthwynebu'r Ceisiadau Canlynol:
* Creu mynedfa newydd a 2 fan parcio – Llwyn Onn, Cwm y Glo, ar y sail y byddai'r datblygiad yn cymryd lleoedd parcio teras Fron Heulog pan mae parcio eisoes yn bwnc sensitif i'r pentref.
* Cais gan Barc Gwyliau Brynteg i gael trwydded am ddeuddeg mis o'r flwyddyn.
Penderfynwyd cael barn lleol ar y cais i godi estyniad un llawr a porth car – Clawdd Llwyd, Ceunant:
Trafodwyd y syniad o gael coeden Nadolig ar sgwâr Llanrug a chytunwyd i edrych i mewn i'r posibiliadau.
Ar ôl methu darganfod teulu un bedd yn y fynwent, penderfynwyd trefnu i wneud y garreg yn saff drwy ei rhoi i lawr.
Penderfynwyd hefyd i ddweud wrth Gymdeithas Tai Eryri fod gordyfiant i'r palmant o flaen Llain Edwen a dweud wrth Gymdeithas Tai Gogledd Cymru fod hefyd gordyfiant i'r palmant ger The Nook.
Cytunwyd mewn egwyddor i gefnogi cais am lwybr beicio yn Llanrug.
Penderfynwyd gofyn i'r Heddlu adolygu'r tro am Gaeathro ym Mhontrug gan fod sawl un wedi cwyno am draffig o Gaernarfon yn troi heb ystyried y cerbydau yn dod o Lanrug.
Penderfynwyd mewn egwyddor i ofyn i'r ddwy ysgol gynradd drefnu cystadleuaeth cynllunio posteri 'Dim Baw Cŵn'.


ARVONIA



• Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
• Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

**Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**
Ffôn: **01286-675175** • Ffacs: **01286-671126**
E-bost: **info@arvonia.co.uk** • Gwefan: **www.arvonia.co.uk**

# Ar ben arall i'r lein

Rwy'n gwybod fy mod fel tiwn gron yn mynd rownd a rownd yr un cae, ond os na fydd yn bosib gwella'r cae yna fydd dim ar ôl ac, yn dilyn safon y pysgota gwarthus ar y Seiont eleni, mae'n mynd yn fwy a mwy tebygol fod llinell olaf englyn Cynan Jones, a ymddangosodd yn y golofn hon mis diwethaf, yn prysur ddod i rym, sef 'Bydd y bar ar gau'
Eleni dau eog yn unig sydd wedi eu bachu ar yr afon! Mae hyn y dilyn yr un patrwm a welwyd yn dilyn problemau a ymddangosodd ar Padarn yn 1992, sef cwymp llwyr yn nifer yr eogiaid a ddaeth o'r môr bedair blynedd yn dilyn y llygredd. Eleni mae patrwm ugain mlynedd yn ôl yn cael ei ail adrodd eleni.
Pam fo hyn yn bod tybed? Mae cylch bywyd eog o pan mae'r grawn yn cael ei gladdu yn ein nentydd yn cymryd pedair a phum mlynedd i'r pysgod bach ddeori, tyfu am ddwy i dair blynedd yn yr afon cyn mudo i'r môr. Aros yn y dŵr hallt am o leiaf flwyddyn i besgi cyn dychwelyd i afonydd eu genedigaeth er mwyn ail gychwyn y cylch unwaith eto.
Yn 1996, 45 o eogiaid a ddaeth i'r rhwyd, sef i lawr o 134 yn 1992. Felly mae'n amlwg fod y dirywiad eleni yn cadarnhau fod pethau bron â dod i ben. Rydym, fel cymdeithas, wedi bod yn pregethu am hyn er dros ugain mlynedd a does neb wedi bod yn gwrando.
Mae'n ffaith fod Fforwm Padarn wedi ei sefydlu i drafod a chael gwybodaeth ar pwy gamau mae'r awdurdodau yn gymryd i geisio codi'r safonau, mae hyn weithiau yn rhoi rhyw obaith fod pethau yn symud ymlaen ond, yn yr un modd, mae'r gobeithion yn cael eu chwalu drwy ystyfnigrwydd cwmni Dŵr Cymru. Cafwyd addewid fod pob arllwysiad carthffos am gael ei drosglwyddo i waith newydd ym Mrynrefail, hyn yn Hydref 2012. Ar ddechrau 2013 daeth gwybodaeth fod yn cwmni yn tynnu'r addewid yma'n ôl, ond gyda rhyw ddealltwriaeth fod rhywbeth mawr ar dro.
Be ddaeth i dro -wel gwelwyd cyhoeddiad gan ein bwrdd cenedlaethol newydd i gwffio llygred a phopeth arall, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, ddim am erlyn y cwmni o dan ddeddf llygredd yr Undeb Ewropeaidd, ond fe rhoddwyd rhybudd o dan yr un ddeddf fod yn rhaid i Dŵr Cymru adrodd yn ôl yn ystod Hydref eleni ac amlinellu eu camau i ddadwneud eu difrod i'r dyfroedd. Be oedd ateb y cwmni - wel fel y disgwylid - fe apeliwyd yn erbyn y rhybudd, felly pwy a ŵyr be sy'n mynd ymlaen.
Yn y cyfamser mae'r Gymdeithas wedi rhoi cyfnod o 14 diwrnod i Gyfoeth Naturiol Cymru i roi eglurhad ar paham nad yw'r dyddiadau perthnasol i'r ddeddf wedi eu hystyried, dyma stori fawr a chymhleth ac efallai bydd esboniad pellach yw roi at y rhifyn nesaf.
Ar 11ed Medi fe gafwyd cyfarfod â swyddogion CNC ynglŷn â fy argymhellion i gesio dod â rhyw drefn ar y dyfroedd. Fe gafwyd cadarnhad y bydd yn bosib gwneud mwy o ddefnydd ar Ddeorfa Crawia, ond bydd eisiau buddsoddiad sylweddol at gael adnoddau oeri dŵr. Mae'n hanfodol bwysig fod popeth yn cael ei wneud i ddod â hyn at waith gan fod Deorfa Mawddach yn Nolgellau i gau a felly cyfleuster y clwb fydd yr unig ddeorfa yng Ngwynedd. Ymhellach daeth y newydd na fydd CNC yn dilyn eu cynllun o adeiladu deorfa newydd fodern yn y Bala. Mae hyn y fwy fyth o reswm i fuddsoddi yma yn ein cornel ni.
Byddaf yn cyfarfod, ar dechrau Hydref, gyda'n Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, ac un o gyfarwyddwyr cwmni Dŵr Cymru, dyma gyfle efallai i drafod y ddeorfa. Yn dilyn hyn, ar 18ed Hydref, bydd Fforwm Padarn yn ymgynnull unwaith eto. Cawn weld be a ddaw!
Un peth positif sydd wedi dod o hyn i gyd yw fod y gymuned leol wedi bod yn gefn mawr inni drwy'r holl broblemau. Pawb yn sylweddoli difrifoldeb y sefyllfa a bod y clwb, drwy ein cyfreithwyr, yn ymladd i warchod eiddo pawb sy'n gysylltiedig â'r dalgylch dyfrol. Mae'r gost o ymladd ar ran pawb hyd yn hyn yn dros £40,000 ond mae'n amlwg nad yw NFU Cymru ddim yn gwerthfawrogi hyn - maent eisiau gwybod pam nad yw rhai o'u haelodau yn cael taliadau rhent fel a oedd yn bodoli cyn y llygredd ma. Tybed a yw'r undeb eisiau cyfrannu at y gost enfawr yma, a be fydd y gost ychwanegol os bydd rhaid symud ymlaen at yr Uchel Lys. Does eisiau gras ar adegau 'dwch? Ond yn ateb i'r undeb yw - os nad oes dim yn cael ei ddal yna does dim gwerth i'r eiddo, a cyn gynted ac y cawn ni ddealltwriaeth ar ddechrau cynllun gwella, yna bydd posib ail drafod telerau gwell.
Ar 19ed Medi cynhaliwyd cyfarfod i roi ymwybyddiaeth ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy, Clwyd a Gwynedd. Mae aelodaeth yn dangos ychydig ffrwyth gan fod gwaith wedi ei wneud ar y Crychdwr yn Llanllyfni, Seiont yn Crawia a fod gwaith i glirio rhan o Afon y Rhos, Llanrug i ddechrau yn y bythefnos nesaf. Braf oedd gweld rhai aelodau ifanc yn y cyfarfod.
Gobeithio y bydd mwy i adrodd am y pysgota mis nesaf, ond gyda be sy'n mynd ymlaen, dydw i ddim yn cael amser i 'sgota na sgwrsio gyda'm cyfeillion bach, sef y tylwyth ar lan yr afon.

Huw Price Hughes



Eco Tachwedd 2013.indd 33 29/10/2013 08:30




*Olympiaid Colin Jackson a Jamie Baulch sydd yn y llun gyda Anya.*

# Diwedd tymor i athletwraig addawol.

Daeth tymor athletau cyntaf Anya Williams, 10 oed, i ben gyda dwy ras drawiadol yn ystod mis Medi. Gwelodd y athletwraig ifanc o Lanrug ei hamser yn y gamp 100m, ar drac Sale Harriers Manceinion, yn ennill safle rhif 3 yn y Deyrnas Unedig yn y oedran dan 11 oed. Ar ddiwedd y mis gwelodd ei pherfformiad yn y gamp 80m yn Blackpool, er ei bod yn sâl, yn ei rhestru yn y 6ed safle yn y DU. Dros y tymor casglodd yr athletwraig o glwb Menai Trac a Maes helfa sylweddol o 16 o fedalau dros ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr drwy sbrintio, a'r campau naid hir a gwaywffon. Mae hi bellach yn bwriadu parhau gyda'i sesiynau hyfforddi ddwywaith yr wythnos ar drac Treborth dros fisoedd y gaeaf fel y bydd hi yn barod ar gyfer heriau tymor 2014, pan fydd hi'n cystadlu yn yr oedran dan 13.

# Athletwyr llwyddiannus y fro.

Gyda'r cwmni lleol 'Camu i'r Copa' yn trefnu nifer o ddigwyddiadau yn y fro erbyn hyn, mae'n arwyddocaol mai athletwyr lleol hefyd sy'n amlygu eu hunain fel y goreuon yn y gwahanol gampau.

Yn Llanddwyn a Choedwig Niwbwrch yn gynharach fis Hydref cynhaliwyd Triathlon y Tywod a rasys llwybrau, a chynhaliwyd Triathlon yr Eira yng Nghapel Curig yn ddiweddarach yn y mis. Yn y ddwy driathlon, daeth Phil Lynes o Lanrug yn ail yn Llanddwyn gan ennill ei ddosbarth oedran. Felly hefyd yng Nghapel Curig. Un arall a wnaeth ei farc oedd Owain James o Ddeiniolen a ddaeth yn drydydd yn Llanddwyn ac yn gyntaf yn y dosbarth ieuenctid.

Yn y Rasys Llwybrau ar ddiwrnod hynod o heulog a gwresog, mentrodd dros gant o redwyr ar hanner marathon o goedwig Niwbwrch i Ynys Llanddwyn ac yn ôl mewn dau gylch. Dewi Owen hogyn o Lanrug sydd bellach yn byw ym Mhenygroes ddaeth yn drydydd, gyda Karl Ashworth, Bethel yn bedwerydd, Dyfed Thomas, Llanrug yn bumed, Arwel Lewis, Bethel yn chweched ( a chyntaf dros 50 oed), Phil Lynes (eto!) yn seithfed, Huw Owen (brawd Dewi) yn wythfed, Gwynfor Owen, Llanberis yn nawfed (ail dros 50 oed) a Brian Wills, Llanberis yn ddeuddegfed (cyntaf dros 40 oed) Dyna saith o redwyr bro'r "Eco" yn y deg cyntaf. Mae pump o'r rhain yn ymarfer yn rheolaidd gyda'i gilyyd yn Llanberis bob nos Iau. Ardderchog!

Mae tymor y rasys traws-gwlad hefyd wedi cychwyn, gyda ras gyntaf y tymor yng nghaeau Treborth, Bangor. Unwaith eto, cafwyd tywydd arbennig o braf (gwahanol iawn i fwd trwm y llynedd) a'r niferoedd yn cystadlu gyda'r mwyaf a gafwyd erioed. A hogyn lleol oedd ar y blaen yn y brif ras, gyda Mathew Roberts, Llanberis yn gadael pawb o'i ôl ar y cylch olaf o'r cae. Dechrau addawol i'r tymor, a Chlwb Rhedwyr Eryri yn ennill y gystadleuaeth tim hefyd.

Llongyfarchiadau hefyd i Alun Vaughan am ennill hanner marathon Abersoch – a gwobr ariannol o £200 yn ei sgil!





# MIS I'W GOFIO

Dyna fu hi i frawd a chwaer o Fethel sef Iolo a Lisa Huws. Daeth awr fawr Lisa ar gefn beic ar y diwrnod y daeth sêr y gamp i Fro'r Eco yn rhan o'r Râs Brydeinig. Llongyfarchiadau i bawb a gyfrannodd at lwyddiant ysgubol a ddenodd y torfeydd a sylw eang i'r gamp a'r ardal. I gyd fynd â'r râs fawr trefnwyd ras fyrrach i dimau lleol. Yn ymuno â Lisa yn nhîm Gogledd Gwynedd roedd dau arall o ddisgyblion Brynrefail, Ifan Roberts a Sioned Phillips. Bydd y tri yn cofio am byth y wefr o yrru am y llinell derfyn gyda miloedd wedi eu pacio hyd ochr y ffordd. Ar ddiwedd y rasio roedd Lisa ac Ifan yn drydydd ond Sioned yn ennill ac felly y tri yn ennill y brif safle yng nghystadleuaeth y timau.

Llongyfarchiadau hefyd i Lisa, sy'n ddisgybl Bl. 10 ar gael ei dewis fel un o Lysgenhadon Chwaraeon Ysgol Brynrefail. Prif swyddogaeth Lisa a'r llysgenhadon eraill fydd ennyn diddordeb disgyblion iau yr Ysgol mewn gwahanol agweddau o chwaraeon a threfnu a mynychu cyrsiau gyda hwy. Canmoliaeth i'r Ysgol hefyd am feithrin y syniadaeth yma.

Cafodd Iolo sylw blaenorol wrth gipio ei gap pêl-droed cenedlaethol. Mae yn aelod o brif garfan clwb Dinas Bangor ac yn 18 oed gwnaeth ei 'debut' i'r tîm cyntaf yn y fuddugoliaeth draw yn Lido Afan, a hynny fel cefnwr chwith. Tim ifanc sydd gan y ddinas eleni. Cafodd Iolo ei ail gyfle drwy ddod ymlaen yn hwyr yn y gêm gartref yn erbyn Aberystwyth. Gwnaeth gyfraniad bwysig, drwy glirio'r bêl oddi ar y llinell yn yr eiliadau olaf a galluogi ei dîm i ennill 3-2. Record cant y cant i Iolo erbyn hyn, chwarae dwy ennill dwy. Mae'r tim dan 19 yn cael tymor llwyddiannus gyda Iolo yn ran allweddol o linell amddiffynnol sydd heb ildio fawr o goliau.






Eco Tachwedd 2013.indd 34 29/10/2013 08:30



# COFIO 7: O LYN I LYN Â'I GADAIR

Enw'r tŷ ym Methel yw Cenarth, felly mae cysylltiad unai â chaws neu afon.Yr afon sy'n denu y tro hwn, a chefais orig hwyliog gyda Dewi Jones y pysgotwr anabl. Un hyderus, parod ei farn a'i stori yw Dewi, ac mae yn barod i gydnabod cefnogaeth parod nid yn unig ei rieni ond staff a chyfeillion yn Ysgol y Gogarth ble bu Dewi yn ddisgybl am sawl blwyddyn ers yn bedair oed.

Atgof cyntaf yw mynd gyda'i dad â digon o bryfaid genwair i herio'r moroedd. O'r dechrau syml yna magodd grefft a phfrançais i'r afon â erys byth. Bu'n pysgota afon, llyn a'r môr. Rhown sylw i'w hoff afon – Y Seiont- yn ddiweddarach.

Un arall o'i hoff afonydd yw'r Ddyfrdwy ger Llangollen. Un o'r atyniadau yno yw'r ffaith fod 'pysgod mawr' i'w cael yno yn gynnar yn y tymor o gwmpas canol Mawrth. Yno hefyd ceir cystadleuaeth i'r anabl pob blwyddyn a bu Dewi'n llwyddianus yno droeon. Draw i'r Felinheli a wal Faenol aiff Dewi gyda'i abwyd o lygworm a chrancod meddal i geisio bachu'r penfras. O ran llyn, yna'r Dywarchen a'i frithyll enfys yw'r hoff fangre. Ni wnai Dewi gyfaddef i mi os clywodd y Tylwyth Teg yno, fel mae ein colofnydd Huw Hughes yn honi.

Braf oedd clywed Dewi yn canmol y gwellhad pendant yn y cyfleusterau safonol sydd yn gaffaeliad i'r pysgotwyr anabl erbyn hyn. Mae mannau diogel draw ym Mrennig, Alaw a Thrawsfynydd. Yno hefyd ar y llynoedd ceir cychod wedi eu haddasu sy'n gwneud symud yr anabl i ac oddiar y lanfa yn fwy cysurus. Y mae'r Gymdeithas Bysgota lleol hefyd o'r un anian. Mae Dewi yn lais annibynol cadarn o fewn i'r Gymdeithas honno. Son am lais mae gan Dewi tipyn o feddwl o 'dad' pysgota yng Nghymru sef Moc Morgan. Drwy arweiniad a gweledigaeth Moc mae cyfleusterau a chyfleon i'r anabl wedi gwella'n sylweddol. Sefydlwyd tîm pysgota cenedlaethol i'r anabl hefyd. Cafodd Dewi y fraint o gynrychioli ei wlad dair gwaith yn erbyn y gwledydd Prydeinig - ym Mrennig( 1981) Cronfa Rutland( 1990) a Loch Melvin(1992) yn yr Iwerddon. Mae atgofion pleserus o hyd gan Dewi am yr achlysuron hyn, yn enwedig y daith i'r Iwerddon, a gwêl yn llygaid y cof y ddau eog braf yn disgyn i'w rwyd.

Yn naturiol, y Seiont yw ei hoff ddŵr. Ymfalchia ym menter, gweledigaeth a dycnwch y Gymdeithas Bysgota lleol sydd wedi gwneud yn siwr fod perchnogaeth a rheolaeth rhan helaeth o'r afon mewn dwylo lleol. Yn wir, noda Dewi, sydd wedi ennill tua 50 dlysau a'r tri 'cap', mai un o'r prif freintiau iddo yw bod yn Aelod Anrhydeddus o'r Gymdeithas.

Mae un yn dysgu llawer yn y sgyrsiau hyn, a rhan braf o'r cyfweliad oedd Dewi yn fy arwain ar hyd ei hoff 'stretch' o'r Seiont o Bont Crawia i Bontrug. Yma rhwydodd Dewi ei bysgodyn trymaf o'r Seiont sef eog 7 pwys. ( Y pysgodyn trymaf iddo rwydo oedd yn 'Llyn Justin' ger Morfa Bychan, a hwnnw'n 12pwys 2 owns).

Ar y daith lawr yr afon cyfeirwyd at Lyn Harri Parri ( lle mae genweirwyr yn gweddio am bysgod, tybed?). Yna fel haid o frithyll yn gwibio ar y lli ces ddod i wybod am Pwll dan Bont, Pwll Deorfa, Pwll Dymp, Llyn Garreg Fawr a Fflatiau Plyms – ydy'r coed eirin yno o hyd tybed? Diolch i'r Gymdeithas am gadw'r hen enwau ar lafar gwlad.

Fel pob un o fy ngwesteion diolch i Dewi a'r teulu am y croeso ac am ehangu fy ngwybodaeth am gamp sy'n hynod o boblogaidd yn lleol. O ia! Mae Gwynfor ei dad yn dipyn o sgotwr hefyd… … ond stori arall yw honno.

# Llwyddiant ysgubol

*Parhad o' r dudalen gefn*

Clwb Rhedwyr Eryri oedd yn gyfrifol am drefnu'r achlysur, ac y mae'n glod i glwb bychan o ran aelodaeth fod y fath niferoedd wedi gallu cystadlu. Mae'r Clwb yn hynod ddiolchgar i Gyngor Gwynedd am gael defnyddio safle Glyn Rhonwy ar gyfer pencadlys y rasys ac i barcio. Dymunant ddiolch hefyd i'r holl dirfeddiannwyr lleol am gael hawl croesi eu tir, ac i bawb arall a fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd.

Ac am gystadlu! Enwau mawr y byd rhedeg mynydd yn cynrychioli eu clybiau, gyda nifer o gyn-enillwyr Ras yr Wyddfa yn eu plith. Roedd yn glod hefyd i Glwb Rhedwyr Eryri am anfon wyth o dimau i'r gystadleuaeth – mwy na chwarter eu haelodaeth yn cystadlu, a'r gweddill yn gweinyddu neu'n stiwardio. Ac yn eu plith yr oedd nifer o redwyr o fro'r "Eco" a ddaeth yn agos iawn at ennill medal.

Roedd y cymal cyntaf yn anfon rhedwyr o Glyn Rhonwy i gopa Cefn Du ac yn ol. Yna'r ail gymal yn aanelu am yr Helfa cyn dringo Moel Cynghorion a dilyn y grib yn ol i Foel Eilio cyn disgyn i Fwlch y Groes ac i lawr i Glyn Rhonwy. Cymal darllen map oedd y trydydd; un oedd yn arwain y rhedwyr o amgylch Llyn Dwythwch a thros Gefn Drum i Faesgwm cyn eu harwain yn ol i Fwlch y Groes a'r llethr llithrig i Ffordd Clegir. Y cymal olaf oedd ras i fyny'r Aelgerth i gopa Moel Eilio, cyn disgyn drwy fwr o fwd i ddiweddu yng Nglyn Rhonwy.

Mawrion o ardaloedd traddodiadol y rhedeg mynydd yn Lloegr a'r Alban aeth â'r prif wobrau, gyda chlwb Dark Peak o Swydd Efrog yn hawlio medal ym mhob categori. Yn y brif gystadleuaeth agored, daeth Dark Peak yn gyntaf a thrydydd, gyda Mercia, pencampwyr y llynedd yn ail. Funud yn arafach na'r trydydd tim ar ol dros bedair awr o rasio roedd tim Eryri, gyda dau o hogia lleol – Alun Vaughan a Mathew Roberts – yn amlwg. Daeth tim dros 40 oed Eryri yn bedwerydd hefyd, gyda Dylan Jones a Paul Jenkinson yn rhan o'r tim, ac yn yr adran dros 50 oed, roedd Arwel Lewis a Trefor Jones yn aelodau o'r tim ddaeth yn bumed. Roedd merched Eryri yn wythfed, gyda Bronwen Jenkinson a Jenny Heming yn rhan o'r tim. Yn rhedeg i ail dim Eryri roedd Dyfed Thomas, John Rowley a Huw Owen, gan orffen yn 43 safle a thrydydd tim Eryri yn safle 51 gyda Gwion Williams ac Ed Harmer yn rhedeg. Dyna ddau redwr lleol ym mhob un o chwech tim Eryri, a'r cyfan o'r dynion a'r merched yn gorffen mewn safloedd anrhydeddus.




*Owain James yn Llanc y Tywod*

# SIAWNS AM GAP

Bydd haneswyr pel-droed yn siwr o gyfeirio at ddatblygiad pêl-droed merched yng Nghymru yn y tri tymor diwethaf. Mae'n timau oedranol cenedlaethol yn ennill parch ar lefel Ewropeaidd. Erbyn hyn mae cynghrair genedlaethol a chynghrair Gogledd Cymru fydd gobeithio yn bwydo'r brif adran.

Braf iawn felly yw cyhoeddi fod tair merch lleol wedi eu dewis yng ngharfan dan 17 Cymru ar gyfer dwy gem gyfeillgar yn erbyn Lloegr. Mae Lois Regan eisioes wedi ennill capiau, ac yn y rhestr wrth gefn am y tro cyntaf mae Mared Jones( Llewod Llanrug) a Katie Midwinter( Bethel). Dymuniadau gorau i'r dair.



Eco Tachwedd 2013.indd 35 29/10/2013 08:30

# Chwaraeon




# ALLAN O'R BRIF GWPAN

**Dyna fu hanes timau Llanrug a Llanberis gyda'r ddau allan o Gwpan Cymru. Roedd dwy gêm anodd yn eu wynebu; Llanrug draw ar yr Oval a Llanberis draw yn y Fflint.**

Denwyd torf o ryw 400 draw i'r Oval. Yn sicr, mae ôl tipyn o waith ar yr 'hen le'. Yn sicr, mae wyneb y cae yn glod i'r tirmon. Mae yn denu gem o basio'r bel, ac mae'n amlwg mai dyma batrwm y Cofis, sydd mor llwyddiannus iddynt hyd yn hyn. Er bod y pwyllgor wedi penderfynu peidio ymgeisio am ddyrchafiad i Brif Gynghrair Cymru ar hyn o bryd, yn sicr maent ar y llwybr cywir cyn belled ag adnoddau.

Roedd naw o gyn-chwaraewyr Caernarfon yng ngharfan Llanrug, felly dipyn o bwyntiau i'w profi. Symud a phasio oedd dull y Cofis, gyda Llanrug yn tueddu i geisio mynd lawr y canol gyda'r bêl hir.

Wedi 10 munud, y Cofis ar y blaen. Cic rydd, 35 llath allan a seren y gêm Lee McCardle yn darganfod cornel y rhwyd. Gôl fler , a threfniant y wal ymosodol yn fregus. Bu McCardle yn ddraenen yn ystlys Llanrug drwy'r gem, a'i lygaid am gôl, a hefyd wrth greu o safle mwy tyfn yn yr ail hanner. O fewn munud i'r gôl daeth dau gyfle i Lanrug drwy greadigrwydd Dafydd Noel ond dwy arbediad safonol gan gôl- geidwad y Cofis.

Wedi 20 munud, eiliad ddadleuol newidiodd rediad y gêm.Y bêl yn symud oddi wrth gôl Llanrug ond y llumanwr yn dyfarnu fod Jonathan Peris Jones wedi baglu un o'r Cofis. Roedd y dyfarnwr yn bell tu ôl i'r chwarae – sefyllfa y bu ynddo drwy'r gêm – ond dyfarnodd gic cosb. McCardle yn rhwydo : 2-0 i'r Cofis. Ond yn ôl daeth Llanrug. Wedi hanner awr Dafydd Noel a phas dreiddgar yn hollti'r amddiffyn a Peris Jones yn unioni'r cam wrth rwydo o 10 llath. 2-1 i'r Cofis ar yr egwyl.

Gyda Llanrug yn gwthio ymlaen drwy'r ail hanner roedd perygl pan oedd y Cofis yn gwrthymosod. Gyda McCardle yn chwarae'n ddyfn roedd yn bwydo'r ymosodwyr â sawl pas dreiddgar. Daeth ambell hanner cyfle i Lanrug. Ond wedi 55 munud Lee Craven yn cael gormod o le yn y cwrt cosbi a rhwydo'n hawdd o 10 llath. 3-1 i'r Cofis. Gyda chwarter awr i fynd smonach yn amddiffyn Llanrug yn dilyn cic gornel a Graham Austin a gwaith hawdd i rwydo. 4-1. Ambell i hanner cyfle i Lanrug a bydd Jamie Whitmore yn siomedig o daro'r bêl dros y traws o ddwy lath yn y funud olaf.

Caernarfon yn ennillwyr haeddianol- ond y sgor ddim yn adlewyrchu ymdrech dda hogiau Eithin Duon.. Gall Llanrug ganolbwyntio ar gynnal eu rhediad safonol yn eu cynghrair, ac yn sicr orffen ymysg y ceffylau blaen.

Parhau mae dechreuad siomedig Llanberis. Colli draw yn y Fflint o 3-1 fu'r hanes, a dyna'r Darans wedi ffarwelio â'r ddwy brif gwpan yn barod. Mae carfan dda yn Llanberis ond rhywsut nid yw'r canlyniadau yn dod, yn enwedig o gofio llwyddiannau'r llynedd gyda'r garfan ifanc. A oedd presenoldeb y camerau y llynedd yn tanio'r chwaraewyr? Torchi llewys fydd ei angen bellach a gwneud siwr fod y statws tu fewn i'w cynghrair yn parhau. Mae'r ail dim wedi dechrau'n gryf yng Nghyngrair Arfon, ond gyda mwy o gemau ar Faes Padarn, a fydd hyn yn effeithio ar gyflwr y maes, ac yn ei gwneud hi'n anoddach i chwarae'r gêm gyflym oedd yn amlygu'r tymor diwethaf. Amser a ddengys.

# Llwyddiant ysgubol - er gwaetha'r tywydd.

**Dyna'r farn gyffredinol gan redwyr mynydd o bob rhan o Brydain yn dilyn Pencampwriaethau Rasys Cyfnewid ar Fynydd a gynhaliwyd yn Llanberis ddiwedd mis Hydref. Mae gan y Sgandinafiaid ddywediad nad oes mo'r fath beth â thywydd drwg, dim ond dillad anaddas. Roedd y tywydd yn echrydus a dweud y lleiaf ar ddechrau'r cymal cyntaf, gyda'r glaw yn hyrddio'i lawr yng Nglyn Rhonwy a'r rhedwyr ar y pedwar cymal yn debygol o herio gwyntoedd ar y copaon oedd yn cyrraedd 70 milltir yr awr. Ond roedd gan bob un ohonynt ddillad addas; ac roedd eu hangen!**

Bron na ellir dweud fod mwy o redwyr nac o ddefaid ar lethrau a chopaon Moel Cynghorion, Y Foel Goch, Moel Eilio a Chefn Du y diwrnod hwnnw. Roedd 182 o dimau wedi eu cofrestru ar gyfer y gystadleuaeth, a gyda chwech rhedwr i bob tim, dyna dros fil o redwyr.

*Parhad ar dudaeln 35*

*(Diolch i Simon Murray am y llun drwy law Matt Ward).*

